


Teenage
stereotypes..?



Adroddiad Comisiynwyr Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Bullies!



Comisiynwyr Plant y DU



Patricia Lewsley,
Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc
Gogledd Iwerddon



Kathleen Marshall,
Comisiynydd Plant a Phobl
Ifanc yr Alban



Keith Towler,
Comisiynydd Plant Cymru



Syr Al Aynsley-Green,
Comisiynydd Plant Lloegr

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Cyd-destun	5
Lloegr	5
Cymru	5
Gogledd Iwerddon	6
Yr Alban	6
Mesurau Gweithredu Cyffredinol	8
Rôl a mandad y Comisiynwyr Plant	8
Ymgorffori CCUHP mewn cyfreithiau mewnol	9
Dyrannu adnoddau	10
Egwyddorion Cyffredinol	12
Gwahaniaethu	12
Cymryd rhan mewn penderfyniadau	13
Hawliau a Rhyddid Sifil	14
Cadw DNA	14
Cosb gorfforol	14
Ataliaeth gorfforol	15
Materion wedi'r gwrthdaro ac arferion yr heddlu yng Ngogledd Iwerddon	15
Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen	17
Plant sy'n Derbynn Gofal	17
Iechyd a Lles Sylfaenol	19
Plant ag anableddau	19
Anghydraddoldebau iechyd	21
Iechyd meddwl	23
Tlodi	24
Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwylliannol	27
Addysg	27
Chwarae	28
Mesurau Diogelu Arbennig	30
Plant sy'n ceisio lloches	30
Cyfiawnder plant	32
Diwedd glo	35

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2008

Clodrestr lluniau a'r darluniau ar y clawr: Cyfranogwyr ymchwiliad 2007 NICCY ar hawliau plant; VIBES (Coventry Mind); Dudley Decision Making Kids; Alex Leonard © SCCYP, 11 MILLION; SCCYP a Comisiynydd Plant Cymru.

Mae'n bleser gan Gomisiynwyr Plant pedair cenedl y Deyrnas Unedig gyflwyno eu hadroddiad i'r Pwyllgor. Mae'r ffaith ein bod yn bodoli yn tystio i beth cynnydd ers i ail adroddiad cyfnodol y CU gael ei ystyried yn 2002, pan oedd Comisiynydd Plant yng Nghymru'n unig. Gwaetha'r modd, fodd bynnag, mae'n rhaid i ni adrodd nid yn unig bod rhai o Sylwadau Terfynol y Pwyllgor yn 2002 yn dal heb eu gweithredu'n effeithiol o gwbl, ond bod rhai pethau wedi gwaethygu, hyd yn oed. Byddem yn cyfeirio at ddatblygiadau ym maes cyfiawnder plant ac agwedd y cyhoedd tuag at blant a phobl ifanc fel enghreifftiau o hyn. Rydym ni o'r farn bod ein gallu i nodi a mynd ar ôl y materion hyn yn cadarnhau'r angen am swyddfeydd annibynnol megis ein rhai ni. Er bod llawer yn dal i'w wneud, rydym yn credu i ni fod yn arbennig o effeithiol wrth ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc fel o brosesau lloches ac wrth herio arferion gwahaniaethol megis cyflwyno'r ddyfais 'Mosgito' y cyfeirir ati yn ein hadroddiad. Rydym hefyd wedi parhau i bwysu am wahardd cosbi plant yn gorfforol, gan herio honiadau ein Llywodraethau bod newidiadau deddfwriaethol diweddar wedi delio â hyn.

Mae'r ffaith bod y pedwar Comisiynydd Plant yn cyflwyno adroddiad ar y cyd yn tystio i'n hymrwymiad i gydweithio i sicrhau bywyd gwell i bob plentyn yn y DU trwy hyrwyddo gweithredu Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae llawer o faterion sy'n destun pryder cyffredinol, ond mae eu harwyddocâd yn amrywio ar draws y pedair cenedl. Maent yn digwydd yn erbyn cefndir gwahanol o ran hanes, cyfraith a diwylliant. Ni fyddem am orbwysleisio'r gwahaniaethau, ond y maent yn bwysig, ac mae'r amrywiadau'n cynyddu wrth i gryfder a hyder cyrff deddfwriaethol a llywodraethol a ddatganolwyd gynyddu yn y DU. Gellir dehongli rhai amrywiadau o ran cyfraith, polisi ac arfer yn negyddol lle bo plant mewn rhai cenhedloedd yn ymddangos mewn sefyllfa waeth nag eraill. Ond ceir hefyd gryfder mewn amrywiaeth lle bo hynny o ganlyniad i ddewis gan un o'n cymunedau i fuddsoddi mwy mewn plant neu wneud ymdrech ychwanegol i hyrwyddo hawliau plant. Lle bo hynny'n digwydd mewn un genedl, mae'n sbardun ar gyfer gweithredu yn y lleill, ac mae'r cyfathrebu cyson rhwng y Comisiynwyr yn caniatáu i ni rannu gwybodaeth ac elwa o brofiad rhai sydd wedi ymdrin â phroblemau sy'n aml yn debyg mewn ffordd wahanol. Rydym yn gosod gwerth ar y posibilrwydd o gael disgresiwn lleol lle bo hynny'n golygu parchu'r Confensiwn mewn ffyrdd gwahanol, gan ganiatáu cymhariaeth feirniadol, ac ni fyddem am gollir cyfoeth hwnnw er mwyn sicrhau delfryd ddisylwedd o gysondeb. Lle mae ein hadroddiad yn nodi enghreifftiau sy'n destun pryder penodol, canolbwytir yn aml ar un genedl. Nid yw hynny'n golygu nad oes problemau tebyg yn y lleill, ond yn hytrach bod rhaid i ni ddewis un er mwyn rhoi enghraifft.

Wrth lunio'r adroddiad, cadwyd canllawiau adrodd y Pwyllgor mewn cof, ond rydym hefyd wedi bod yn ddewisol. Er enghraifft, nid yw Erthygl 3 yn derbyn sylw ar wahân oherwydd bod methu ag ystyried lles pennaf y plentyn yn nodweddu cynifer o'r materion yr ydym wedi ymdrin â nhw. O ystyried ein bod yn paratoi un adroddiad ar gyfer pedair cenedl, buasai'n amhosib rhoi sylw i bob agwedd ar fywydau plant mewn unrhyw fodd ystyrlon a chryno. Yn lle hynny, felly, nodwyd materion a oedd yn destun pryder arbennig, trwy drafodaeth ymhlith ein swyddfeydd, gan gynnwys ymgynghori â'r plant a'r bobl ifanc sy'n rhoi cyngor i ni. Wrth edrych ar y materion hyn, rydym wedi defnyddio'n profiad helaeth o gysylltu â phlant a phobl ifanc trwy ein gwaith datblygu polisi a'r cwynion a'r ymholiadau a ddaw i law yn ein swyddfeydd. Rydym hefyd wedi cysylltu â grwpiau anlywodraethol (NGOs) ar draws y DU ac wedi cadw cysylltiad â'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod y broses yn rhedeg mor llyfn â phosib heb leihau effaith ein llais unigryw. Rydym yn croesawu agwedd agored, ymgynghorol Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd i'r broses o adrodd, ac yn wir adroddiad y Llywodraeth ei hun. Roedd yr adroddiad hwnnw'n wynebu rhai o'r un heriau â ninnau wrth geisio ymdrin â materion sy'n codi yn y pedair cenedl o fewn fframwaith cyffredin. Rydym hefyd o'r farn y byddai adroddiad y Llywodraeth yn elwa o ddadansoddiad manylach o'r materion y sonnir amdanynt ynddo.

Dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor fedru gwneud ei Sylwadau Terfynol gan wybod bod sefydliadau annibynnol yn y DU sy'n ymroddedig i hyrwyddo a monitro eu gweithrediad. Bydd o gymorth i ni wrth ein gwaith os gall y Pwyllgor sicrhau bod y Llywodraeth yn atebol trwy argymhellion clir ynghylch camau gweithredu penodol a'r systemau y mae eu hangen i fonitro gweithrediad.

Lloegr

Mae Lloegr yn llwyr o dan awdurdod Senedd y DU yn San Steffan, heb weinyddiaeth ddatganoledig ar wahân. Mae Senedd y DU yn dal i ddeddfu ynghylch materion sy'n effeithio ar y DU gyfan, ac mae'r materion hyn, sydd wedi'u neilltuo ar gyfer San Steffan, yn cynnwys mewnfudo a chenedligrwydd.

Ar hyn o bryd mae 12.4 miliwn o blant 0-19 oed yn Lloegr (tua 20% o boblogaeth Lloegr) ac mae bron un o bob pump ohonynt yn perthyn i leiafrif ethnig.

Pethau da am fod yn blentyn yn Lloegr

- Mae'r Llywodraeth yn rhoi pwysigrwydd gwleidyddol cynyddol i blant, a gwelir hyn yn y buddsoddiad cynyddol, er enghraifft, strategaeth 'Every Child Matters' a'r Cynllun Plant.
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn dweud eu bod yn hapus.¹
- Mae'r rhan fwyaf o blant hyd at 15 oed yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol naill ai'n dda neu'n dda iawn.²
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel rhag cael eu brifo gan bobl eraill.³
- Mae addysg plant yn gwella o hyd, gyda gwelliannau sylweddol yng nghyrraedd disgyblion cynradd⁴ ac uwchradd⁵ a chynnydd yn y niferoedd sy'n aros yn yr ysgol ar ôl cyrraedd 16 oed.⁶
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn uchelgeisiol: maen nhw am ddysgu a llwyddo.⁷
- Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan, wedi'u symbylu, ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol, er enghraifft, gwirfoddoli, helpu yn y gymuned a mentora cyfoedion.⁸

Pethau drwg am fod yn blentyn yn Lloegr

- Mae dull cosbol iawn o ymdrin â chamymddwyn gan blant a phobl ifanc, ac mae gormod o baroddrwydd i droi at y system cyfiawnder troseddol. O'i chymharu â gwledydd eraill yn Ewrop, mae oedran cyfrifoldeb troseddol yn isel iawn yn Lloegr ac mae niferoedd uchel o blant yn cael eu rhoi dan glo.
- Mae plant sy'n ceisio lloches yn cael eu trin yn wahanol iawn i blant sy'n ddinasyddion ac mae hynny'n amharu'n ddifrifol ar eu hawliau.
- Mae anghydraddoldeb yn parhau o ran incwm, iechyd ac addysg, gydag effaith ddifrifol ar hawliau plant a'u cyfleoedd mewn bywyd.
- Mae tlodi plant yn uchel, gyda rhyw 3.1 miliwn o blant yn byw mewn tlodi (29% o'r plant) yn Lloegr⁹ a mwy nag 1 filiwn o blant yn byw mewn tai gwael.¹⁰
- Mae iechyd meddwl plant wedi dirywio yn ystod y tri deg mlynedd diwethaf.¹¹
- Mae trais yn y cartref, rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl rhieni yn effeithio ar lawer iawn o blant.
- Mae plant sydd mewn gofal ac yn gadael gofal yn wynebu canlyniadau gwael iawn.¹²
- Mae plant yn teimlo'n fwyfwy anniogel yn eu hardal leol, gydag un o bob pedwar yn pryderu am drais, troseddu ac arfau.¹³
- Nid yw plant yn derbyn amddiffyniad cyfartal rhag trais yn y cartref.
- O gymharu â gwledydd eraill yn Ewrop, mae plant yn Lloegr

yn yfed llawer mwy o alcohol, yn cael rhyw yn gynnar ac yn fwy tebygol o ddefnyddio cannabis.¹⁴

- Mae gordewdra ymhlith plant wedi codi bron 50% yn y 10 mlynedd diwethaf.¹⁵
- Mae plant yn teimlo eu bod o dan bwysau cynyddol, yn arbennig gan yr ysgol,¹⁶ arholiadau¹⁷ a marchnata masnachol.
- Nid yw CCUHP wedi cael ei gynnwys yn llawn ym mhrosesau deddfwriaethol a pholisi Lloegr.

Cymru

Bu cysylltiad agos rhwng y sylfaen ddeddfwriaethol yng Nghymru ac yn Lloegr dros gyfnod hir trwy bwerau San Steffan i greu deddfau. Mae llawer o Ddeddfau Seneddol yn dal yr un mor berthnasol i Gymru a Lloegr, er enghraifft, Deddf Plant 1989.

Mae'r sefyllfa hon wedi newid yn ystod y degawd diwethaf, ac yn dilyn refferendwm llwyddiannus 1997, sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999.

Rhwng 1999 a 2007, nid oedd rhaniad clir rhwng y corff deddfwriaethol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r corff gweithredol, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Datryswyd y sefyllfa hon gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a wahanodd Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfreithiol. Mae hyn yn golygu mai Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n llywodraethu Cymru, tra bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu deddfau.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru bellach bwerau datganoledig i greu deddfau mewn nifer o feysydd sy'n allweddol i fywydau plant, yn cynnwys addysg a hyfforddiant, lles cymdeithasol, a iechyd a gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, mae rhai meysydd, megis amddiffyniad, yr heddlu, cyfiawnder ieuencid, y llysoedd, lloches a mewnfudo a'r system fudd-daliadau, yn dal yng ngofal San Steffan.

Mae poblogaeth Cymru, 2.94 miliwn yn 2004, yn cynnwys 651,800 o blant a phobl ifanc o dan 18 oed. Mae plant yn gyfran sy'n lleihau o boblogaeth Cymru.

Er bod llawer i ymfalchïo ynddo o ran dull Cymru o drin ei phlant a'i phobl ifanc, y mae hefyd rai problemau penodol.

Pethau da am fod yn blentyn yng Nghymru

- Dim tablau cynghreiriau i ysgolion na phrofion asesu statudol yn 7, 11 a 14 oed.
- Mabwysiad CCUHP gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel egwyddor arweiniol ar gyfer datblygu polisiau i blant a phobl ifanc.
- Mae iaith a diwylliant Cymru yn meddu ar statws a chydabyddiaeth.
- Yr amgylchedd.
- Cyfranogiad plant a phobl ifanc ar lefel leol a chenedlaethol, er enghraifft, trwy'r Ddraig Ffyni a thrwy gynghorau ysgol, sy'n statudol ofynnol yn yr ysgolion.

Cyd-destun

- Mae eiriolaeth ar gyfer plant mewn angen wedi dod yn statudol, a chyhoeddwyd cyfeiriad strategol newydd ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth.
- Mae gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol i gael eu darparu i ddisgyblion dros 11 oed.

Pethau drwg am fod yn blentyn yng Nghymru

- Nid yw llawer o bolisiau'n cael eu rhoi ar waith yn llawn ac yn gyson ar draws Cymru.
- Mae tlodi plant yn dal yn uchel iawn yng Nghymru.
- Mae plant sydd yn y carchar yn aml mewn lleoliadau caeth yn Lloegr.
- Mae'r gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn cael trafferth ymdopi â'r galw am eu gwasanaethau.
- Nid yw gwasanaethau iechyd plant yn cael eu hariannu cystal â rhai oedolion.
- Nid yw plant o hyd yn cael cynnig amddiffyniad cyfartal rhag trais, er gwaethaf ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i newid.
- Mae'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal oddi cartref yn dal yn wael.
- Dim ond 8% o blant sy'n gwybod am eu hawliau, yn ôl diffiniad CCUHP.¹⁸
- Mae profiadau plant anabl yn waeth nag eiddo eu cyfoedion.

Gogledd Iwerddon

Mae gan Ogledd Iwerddon boblogaeth o 500,000 o blant a phobl ifanc, sef traean o'r boblogaeth gyfan. Ers 1968 bu'n wlad o wrthdaro, ac fe'i llywodraethwyd gan y DU o San Steffan tan y datganoli yn 2007. Hyd yma, nid yw'r holl bwerau wedi'u datganoli i wleidyddion a etholwyd yn lleol. Mae rhai materion, yn fwyaf nodedig yr heddlu, cyfiawnder troseddol a mewnfudo, yn dal wedi'u neilltuo i wleidyddion a etholwyd y tu allan i Ogledd Iwerddon, ac felly maent y tu allan i bwerau'r Comisiynydd Plant.

Mae'r gwrthdaro a'i effeithiau dilynol, y cyfeirir ato weithiau fel 'Cyfnod y Cynnwrf', wedi dylanwadu'n sylweddol ar wireddu hawliau plant o dan CCUHP. Isod manylir ar y ffactorau cyd-destunol sydd, ym marn y Comisiynydd Plant, yn dal i rwystro hawliau rhag cael eu gwireddu'n llawn, ac y mae'n rhaid i Blaid y Wladwriaeth eu goresgyn mewn modd strategol.

Prosesau deddfwriaethol

Er bod rheidrwydd o dan adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 i ymgynghori a chynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar bolisi a deddfwriaeth, nid oes rhaid gweithredu ar sail y canfyddiadau. Ceir diffyg democratiaeth pellach pan ganiateir i brosesau deddfwriaethol fynd rhagddynt heb newidiadau a dod i rym trwy broses o gydsyniad brenhinol, yn hytrach na chysylltiadau a thrafodaeth leol briodol.

Hawliau cyfansoddiadol

Ar hyn o bryd nid oes amddiffyniad cyfansoddiadol i hawliau plant yng Ngogledd Iwerddon. Nid yw CCUHP wedi'i chrisialu yn y ddeddfwriaeth fewnol. Mae cyfle i hyn newid, wrth gyflwyno Mesur

lawnderau ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae'r Comisiynydd am weld o leiaf holl egwyddorion a darpariaethau CCUHP yn cael eu hymgorffori yn y gyfraith trwy'r Mesur lawnderau yng Ngogledd Iwerddon.

Gwahaniaethu

Ar hyn o bryd yng Ngogledd Iwerddon, mae cydraddoldeb ac amddiffyn rhag gwahaniaethu yn rhan o fframwaith deddfwriaethol darniog. Rydym am weld datblygu a gweithredu Deddf Gydraddoldeb Sengl ar gyfer Gogledd Iwerddon, sy'n cyfuno deddfwriaeth gwrthwahaniaethu gyfredol ac yn ceisio creu gwelliannau deddfwriaethol at y dyfodol sy'n sicrhau amddiffyniad cyfartal i bob plentyn.

Tlodi

Dengys y ffigurau swyddogol bod rhyw 108,400 o blant yng Ngogledd Iwerddon o dan y trothwy incwm canolrif o 60% cyn cyfrif costau tai.¹⁹ Ni fydd y strategaeth wrthdlodi gyfredol 'lifetime opportunities' yn cyflawni ei thargedau, sef haneru tlodi plant erbyn 2010, a'i ddileu erbyn 2020, ac nid yw rhaglen gyfredol y llywodraeth chwaith yn cynnwys digon o fentrau polisi i ymateb i dlodi plant. Rydym am weld cynllun gweithredu cynhwysfawr i fynd i'r afael â thlodi plant, gyda chanlyniadau mesuradwy, amser benodol i fynd i'r afael â thlodi plant.

Gwrthdaro

Er nad yw llawer o blant heddiw wedi byw trwy Gyfnod y Cynnwrf, mae eu rhieni a'u perthnasau wedi eu profi, ac mae hyn wedi creu 'ôl-effeithiau' ar gyfer llawer o blant a phobl ifanc. Mae sectyddiaeth, rheolaeth barafilwrol, colled a phroffedigaeth yn arwain at anallu i ymdopi neu i fwynhau cyfleoedd y dylai pob plentyn fedru eu hawlio. Er enghraifft, mae mynediad i chwarae a hamdden, mynediad i ofal iechyd digonol, mynediad i addysg ac ati yn aml yn anoddach eu sicrhau i'r rheiny sy'n byw gyda thrawma'r cynnwrf.

Aml-ddiwyllyannaeth

Mae Gogledd Iwerddon yn troi'n gymdeithas amrywiol. Yn anffodus, i lawer o deuluoedd newydd, fel yn achos plant o deuluoedd Teithwyr yn Iwerddon, mae hiliaeth a gwahaniaethu yn brofiadau cyffredin. Mae angen i Blaid y Wladwriaeth wneud llawer i atal troseddau casineb ac i hyrwyddo hawliau plant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a Theithwyr.

Yr Alban

Mae ychydig dros filiwn o blant a phobl ifanc o dan 18 oed yn yr Alban, sef 20% o'r boblogaeth.

Mae adroddiad Llywodraeth y DU yn cydnabod bod gan yr Alban a Gogledd Iwerddon systemau cyfreithiol ar wahân, ond yn honni bod "egwyddorion tebyg o ran statud a chyfraith gwlad mewn grym ar draws y DU." Mae hyn yn rhoi pwyslais llawer rhy fach ar y gwahaniaethau rhwng deddfau plant yr Alban a gweddill y DU. Roedd gan yr Alban ei system gyfreithiol unigryw ei hun, hyd yn oed rhwng 1707 a 1999, pan oedd San Steffan yn deddfu

ar ei rhan. Mae iaith ac athroniaeth cyfraith yr Alban wedi'i seilio ar Gyfraith Rufeinig, gyda mwy o elfennau cyffredin â gwledydd Ewrop nag â "chyfraith gwlad" gweddill y DU. Hyd yn oed yn y cyfnod modern, mae deddfau plant yr Alban wedi ymagweddu'n wahanol mewn materion megis ymdrin â chyfiawnder plant ar sail lles trwy'r system gwrandawriadau i blant. Mae gan yr Alban hefyd system addysg wahanol.

Mae datganoli ac ailsefydlu Senedd yn yr Alban wedi golygu ei bod hi'n debygol y bydd yr Alban yn parhau i fod yn wahanol i fodel Lloegr yn achos agweddau arwyddocaol ar fywydau plant. Rydym yn falch o rai o'n safonau a'n cyflawniadau traddodiadol, ond rydym hefyd yn cydnabod y gallwn ddysgu oddi wrth rannau eraill o'r DU, ac rydym yn ymroddedig i edrych ar dulliau eraill lle bo'r rheiny'n fwy tebygol o hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc.

Pethau da am fod yn blentyn yn yr Alban

- Mae gan yr Alban hunaniaeth genedlaethol gref. Rydym yn ymfalchio ein bod yn agored i fewnfudwyr ac yn goddef gwahaniaethau, hyd yn oed os nad yw hynny bob amser yn ymarferol wir.
- Seiliwyd agwedd hanesyddol yr Alban at blentyndod ar fodel y Gyfraith Rufeinig, gyda chymau gwahanol, a hawliau sylweddol ar gael adeg aeddfedrydd corfforol (12 oed i ferched ac 14 i fechgyn). Mae hyn wedi colli llawer o dir yn y blynyddoedd diwethaf, ond wedi gadael ôl yn yr ymreolaeth helaethach a ddisgwylir yn ddiwylliannol.
- Hyd at 16 oed, mae cyfiawnder plant yn canolbwyntio ar les pennaf y plentyn, ac mae plant yn llawer llai tebygol o gael eu cosbi neu eu rhoi dan glo nag yn Lloegr. Mae Llywodraeth yr Alban yn ymroddedig i gadw pobl ifanc allan o'r carchar.
- Mae cymunedau'r Alban wedi croesawu'r teuluoedd sy'n ceisio lloches i'w plith, gan ymgyrchu yn erbyn symud teuluoedd a fu'n byw yn yr Alban ers sawl blwyddyn. Mae staff ysgolion yr Alban wedi rhoi cefnogaeth wych i ddisgyblion sy'n ceisio lloches. Mae staff gofal, timau iechyd, swyddogion hawliau plant ac asiantaethau gwirfoddol wedi rhoi cefnogaeth eithriadol i blant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain. Mae cyfryngau'r Alban hefyd wedi bod yn gefnogol. Mae Llywodraeth yr Alban wedi codi llais yn erbyn dulliau annerbiniol o symud plant trwy rym ac mae bellach yn caniatáu i geiswyr lloches aflwyddiannus dderbyn addysg bellach neu uwch.
- Mae Llywodraeth yr Alban wedi dechrau gweithio ar strategaeth ledaenu ar gyfer CCUHP, sy'n cynnwys agweddau megis cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant, gan dargedu plant a phobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol.

Pethau drwg am fod yn blentyn yn yr Alban

- Anfantais ein hymreolaeth gynharach yw disgwylid diwylliannol sydd yn awr yn troi o amgylch bod yn 16 oed. Wedi hynny, mae pobl ifanc yn cael eu cyfrif i raddau helaeth yn oedolion at ddibenion cyfiawnder troseddol. Mae'r Alban yn rhoi gormod o bobl ifanc 16 a 17 oed o dan glo.
- Mae'r Alban yn rhannu ei hagwedd gyhoeddus tuag at blant a phobl ifanc gyda gweddill y DU, gan dueddu i'w demoneiddio, ac mae'n aml fel petai am eu cau allan o fannau cyhoeddus.

- Ar yr un pryd, mae tystiolaeth o agwedd or-amddiffynnol at blant sy'n lleihau eu cyfle i chwarae, hamdden, a mwynhau adloniant a datblygiad iach. Gall ofnau rhieni gyfrannu at hyn, neu awydd sefydliadol i osgoi unrhyw risg a allai arwain at atebolrwydd. Yn yr Alban, mae ymchwil wedi dangos bod oedolion yn ofni dod i gysylltiad â phlant rhag iddynt gael eu cyhuddo o niweidio plentyn. Mae'r ofn cyffredin a phwysig hwn wedi creu hinsawdd afiach sy'n cyfyngu ar gyfleoedd ac yn llesteirio datblygiad plant.
- Mae hanes yr Alban o ran iechyd yn echrudus, yn enwedig yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol y Gorllewin. Gennym ni y mae'r lefelau uchaf o farwoldeb yn holl wledydd gorllewin Ewrop. Mae rhai strategaethau ar waith i ymateb i hyn, ond mae llawer i'w wneud o hyd.
- Mae camddefnyddio alcohol a chyffuriau'n cael effaith ddifrifol ar ddefnyddwyr ifanc a phlant defnyddwyr mewn oed. Mae ein systemau cefnogi teuluoedd ac amddiffyn plant yn cael trafferth ymdopi.

1. Ofsted. Arolwg TellUs2 (2007).
2. Canolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. The Health Survey for England 2005 (2006).
3. Ofsted. Arolwg TellUs2 (2007).
4. Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. National Curriculum Assessments at Key Stage 2 in England, Statistical First Release 24/2007 (2007).
5. Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. National Curriculum Assessments at Key Stage 3 in England, Statistical First Release 25/2007 (2007).
6. Swyddfa Ystadegau Gwladol. Social Trends 37 (2007).
7. Cymdeithas y Plant. The Good Childhood Inquiry: What you told us about learning (2007).
8. Ofsted. Arolwg TellUs2 (2007).
9. Grŵp Gweithredu yn erbyn Tlodi Plant. Meeting the Government's Child Poverty Targets: progress to date (2007).
10. Shelter. Chance of a lifetime: The impact of bad housing on children's lives (2006).
11. Bradshaw, J a Mayhew, E. The Wellbeing of Children in the UK (2005).
12. Adran Addysg a Sgiliau. Care Matters (2006).
13. Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Opinion Leader, Report of findings from the DCSF 'Time to Talk' Consultative Activities (2007).
14. Hibell, B (gol.) ac eraill. The EPSAD Report 2003: Alcohol and other drug Use among students in 35 European Countries (2004).
15. Canolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol. The Health Survey for England (2006).
16. Currie, C (gol.) ac eraill. Young People's Health in Context: Health behaviour in School-aged Children (HBSC) study: international report from the 2001/2002 survey (2004).
17. Ofsted. Arolwg TellUs2 (2007).
18. Y Ddraig Ffyni. Ein Hawliau, Ein Stori (2007).
19. Adran Datblygiad Cymdeithasol. Households Below Average Income Report 2005-2006 (2006).

Mesurau Gweithredu Cyffredinol

Erthygl 4 (sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol)

Rôl a mandad y Comisiynwyr Plant

1. Rydym yn croesawu'r ffaith bod Comisiynydd Plant wedi'i sefydlu ym mhob un o bedair cenedl y DU, yn unol ag argymhelliad y pwyllgor yn 2002. Fodd bynnag, mae mandad, annibyniaeth a threfniadau ariannu pob Comisiynydd yn amrywio cryn dipyn. Rydym yn pryderu nad yw swyddfa unrhyw un o'r Comisiynwyr yn cydymffurfio'n llawn â nodweddion sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol a nodwyd gan y Pwyllgor nac ag Egwyddorion Paris.

Annibyniaeth ac ariannu

2. Rhoddwyd graddau amrywiol o annibyniaeth i bob Comisiynydd yn y DU yn y ddeddfwriaeth a'u sefydlodd. Mae pryderon ynghylch a yw rhai Comisiynwyr yn ddigon annibynnol ar y llywodraeth i ganiatáu ymreolaeth lwyr ac, er enghraifft, i bennu blaenoriaethau ar gyfer eu gwaith. Yn Lloegr, gall y Comisiynydd dderbyn cyfarwyddyd gan y Llywodraeth i gynnal ymchwiliad penodol, a'r Llywodraeth sy'n penderfynu wedi hynny a gaiff unrhyw adroddiad ymchwilio dilynol ei gyhoeddi. Er y gall y Comisiynydd hefyd gychwyn ei ymchwiliad ei hun, mae'n rhaid iddo ymgynghori â'r Llywodraeth cyn gwneud hynny. Mae'n aneglur pa gamau y gallai'r Comisiynydd eu cymryd petai'r Llywodraeth yn gwrthwynebu.

3. Mae Comisiynwyr Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon fel ei gilydd yn adrodd i adran o'r llywodraeth yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r Senedd, fel yn yr Alban. Ar ben hynny, yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, Llywodraethau'r gwledydd hynny sy'n rheoli penodi, ailbenodi a diswyddo'r Comisiynydd.

4. Mae cysylltiad agos rhwng annibyniaeth a'r trefniadau ariannu ar gyfer pob Comisiynydd. Yng Nghymru, er enghraifft, gellid rhoi mwy o annibyniaeth i'r Comisiynydd trwy ariannu'r swydd yn uniongyrchol, yn hytrach na thrwy gyllideb un o adrannau'r llywodraeth. Penderfynir ar ariannu Comisiynydd Lloegr hefyd gan adran o'r llywodraeth a all roi'r arian "gydag amodau (os o gwbl) y mae[r] llywodraeth] yn barnu eu bod yn briodol".²⁰ Dyrannir arian ar gyfer Comisiynydd Gogledd Iwerddon hefyd trwy adran o'r llywodraeth, ac mae'n destun arbedion effeithlonrwydd a gyflwynir gan yr adran honno. Mae'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol yn cyfyngu'n sylweddol ac mewn modd na ellir ei gyfiawnhau ar ryddid Comisiynydd Gogledd Iwerddon i weithredu. Er ein bod yn cydnabod yr angen am atebolrwydd cyhoeddus, mae'n amhriodol – ac yn mynd yn groes i Egwyddorion Paris – i adran o'r llywodraeth bennu sut dylid gwario cyllideb y Comisiynydd.

Mandad

5. Mae mandad y pedwar Comisiynydd yn y DU yn amrywio cryn dipyn. Gall Comisiynwyr Cymru a Gogledd Iwerddon ymdrin ag achosion unigol, ond nid oes gan Gomisiynwyr Lloegr a'r Alban hawl i wneud hynny. Er bod gan Gomisiynydd Lloegr hawl mynediad i safleoedd lle mae plentyn yn derbyn llety neu ofal, nid yw hynny'n wir yn achos Comisiynydd yr Alban. Yn yr un modd, nid oes gan Gomisiynydd yr Alban bŵer i fynnu ymateb (er enghraifft, i argymhelliad) o fewn terfyn amser penodol.

6. Er bod mandad Comisiynwyr Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban wedi'u seilio ar hawliau ac yn defnyddio CCUHP fel fframwaith, mae gofyn bod Comisiynydd Lloegr yn defnyddio pum agwedd ar les y plentyn sy'n cyfateb i'r pum canlyniad ar gyfer plant yn agenda 'Every Child Matters' y Llywodraeth yn sail ar gyfer ei waith.²¹ Mae cysylltu mandad y Comisiynydd mor uniongyrchol â'r canlyniadau hyn yn clymu'r swyddfa wrth bolisi'r llywodraeth mewn modd y gellid barnu ei fod yn cyfyngu ar ei annibyniaeth.

Materion heb eu datganoli

7. Ar hyn o bryd, mae gan Gomisiynydd Lloegr gylch gorchwyl ar draws y DU o ran materion sydd heb eu datganoli, ac mae hynny'n ei alluogi i gyflawni ei swyddogaethau yng nghyswllt plant yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Gallai'r sefyllfa hon beri dryswch, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc a fyddai'n gallu troi at Gomisiynydd gwahanol, yn ôl a yw'r mater maent yn pryderu yn ei gylch yn un sydd wedi'i ddatganoli neu beidio. Er enghraifft, ni fyddai Comisiynydd Cymru'n medru ymchwilio i achos plentyn sy'n ceisio lloches ac sy'n byw yng Nghymru oherwydd nad yw mewn fudo a lloches wedi cael eu datganoli. Fodd bynnag, o ystyried cyfyngiadau ei fandad a'i anallu i ymdrin ag achosion unigol, ni allai Comisiynydd Lloegr ddadlau'r achos ar ran y plentyn.

8. Gallai'r trefniadau presennol arwain hefyd at densiwn rhwng y pedwar Comisiynydd yn y DU, er eu bod hyd yma wedi cydweithio'n dda i geisio sicrhau nad yw hynny'n digwydd.²² Serch hynny, mae angen ymdrin â'r anghysondeb hwn. Mae'n fwy priodol, yn enwedig o safbwynt y plentyn, bod pob un o Gomisiynwyr y DU yn medru hyrwyddo a diogelu holl hawliau'r plant yn eu gwlad eu hunain, beth bynnag yw'r mater dan sylw.

Mesurau Gweithredu Cyffredinol

Argymhellion

- A1** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod pob Comisiynydd yn y DU yn cydymffurfio ag Egwyddorion Paris.
- A2** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod y Comisiynwyr, oherwydd eu bod yn sefydliadau hawliau dynol cenedlaethol, yn atebol i'r Senedd neu'r Cynulliad perthnasol yn hytrach nag i un o adrannau'r Llywodraeth.
- A3** Er ein bod yn cydnabod yr angen am gyfyngu ar y cyllid cyffredinol, rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ganiatáu i'r Comisiynwyr bennu eu lefelau staffio eu hunain a llunio'u cyllidebau eu hunain o ran y prif waith i'w gyflawni, heb i'r Llywodraeth bennu amodau nac ymyrryd yn hynny.
- A4** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ganiatáu i bob un o Gomisiynwyr y DU ymarfer eu swyddogaethau o ran y plant yn eu gwlad eu hun, beth bynnag yw'r mater dan sylw. Yn hyn o beth, dylid estyn mandad Comisiynwyr Cymru a Gogledd Iwerddon i gynnwys pob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys awdurdod cyhoeddus ar draws y DU.
- A5** Yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, dylai'r Comisiynydd gael ei benodi, ei ailbenodi neu ei ddiswyddo yn sgil proses benodi anllywodraethol.
- A6** Yn Lloegr, rhaid mabwysiadu CCUHP yn fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwaith y Comisiynydd.
- A7** Yng Ngogledd Iwerddon, dylid dileu agweddau polisi'r Datganiad Rheoli, gan nad ydynt yn cydweddu ag Egwyddorion Paris.
- A8** Yn yr Alban, dylid estyn cylch gorchwyl y Comisiynydd fel bod modd iddi fynnu ymateb o fewn terfyn amser penodol a gofyn bod dogfennau y tu allan i gwmpas ymchwiliad ffurfiol yn cael eu darparu.

Erthygl 4 (sicrhau bod deddfwriaeth fewnol yn cydymffurfio â CCUHP) ac Erthygl 42 (Iledaenu CCUHP)

Ymgorffori CCUHP mewn cyfreithiau mewnol

9. Er bod y DU wedi cadarnhau CCUHP, nid yw'r Confensiwn yn rhan o'r gyfraith fewnol ac ni ellir ei orfodi o hyd. Ar ben hynny, er bod cryn dipyn o ddeddfwriaeth sy'n ceisio hybu lles plant wedi cael ei chyflwyno ers adroddiad cyfnodol diwethaf y DU, yn aml mae'r cyfeiriadau at hawliau plant mewn deddfwriaeth o'r fath yn gyfyngedig. Yn wir, rydym yn credu bod rhai datblygiadau deddfwriaethol a pholisi diweddar yn amlwg yn mynd yn groes i CCUHP.²³ Er ein bod wedi gweld datblygiadau eraill mwy boddhaol, megis ymgorffori Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol i'r gyfraith fewnol a'r cyfeiriadau cynyddol at CCUHP gan y farnwriaeth, mae'n rhaid i'r CCUHP ddod yn rhan o'r gyfraith fewnol os yw hawliau plant y DU i gael eu gwireddu a'u derbyn yn llawn.

10. Ym 1998, addawyd Mesur lawnderau i bobl Gogledd Iwerddon o dan delerau Cytundeb Gwener y Grogllith. Mae'r Mesur lawnderau yn dal i gael ei ddatblygu, ac yn gyfle gwirioneddol i gynnwys CCUHP fel rhan o gyfraith fewnol Gogledd Iwerddon. Yn yr un modd, bydd Mesur lawnderau a Dyletswyddau arfaethedig Prydain yn gyfle i ymgorffori CCUHP yn y gyfraith fewnol.

Asesiadau effaith ar hawliau plant

11. Mae Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban wedi datblygu offeryn ar gyfer asesu effaith cyfraith a pholisi ar hawliau plant.²⁴ Yn ogystal â defnyddio'r offeryn asesu effaith ein hunain, rydym wedi annog gwneuthurwyr polisiâu a phenderfyniadau i sicrhau eu bod yn ystyried hawliau plant. Mae asesiadau effaith ar hawliau plant yn angenrheidiol oherwydd, er y gwnaed rhai ymdrechion i gyflwyno asesiadau effaith ar gydraddoldeb a fyddai'n cynnwys 'oedran' fel llinyn cydraddoldeb, mae tuedd i ganolbwyntio ar gyfle cyfartal i bobl hyn. Yn aml caiff plant a phobl ifanc eu heithrio o ystyriaethau cydraddoldeb oedran.

12. Rydym yn croesawu diddordeb Llywodraeth yr Alban mewn asesiadau effaith ar hawliau plant²⁵ ac yn argymhell ei bod, ynghyd â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau eraill datganoledig, yn cynnal asesiadau effaith ar yr holl ddeddfwriaeth a pholisi arfaethedig a allai effeithio ar blant. Rhaid i lywodraethau sicrhau nad yw asesiadau effaith yn troi'n ymarferiad ticio blychau. Dylid cynnal asesiadau effaith hefyd ar lefel leol gan y cyrff cyhoeddus hynny sy'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i blant a phobl ifanc.

Lledaenu CCUHP

13. Ychydig o blant a phobl ifanc, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn gyffredinol yn y DU sy'n ymwybodol o CCUHP ac yn gwybod amdano. Mae hyn yn wir er gwaethaf argymhelliad y Pwyllgor yn 2002 bod y DU yn "cynyddu'n sylweddol yr wybodaeth a ledaenir am y Confensiwn". Ers 2002, ni wnaed llawer i ledaenu CCUHP na'i sylwadau terfynol, nac i dargedu grwpiau agored i niwed wrth ddarparu gwybodaeth, un arall o argymhellion y Pwyllgor.

14. Canfu arolwg yn yr Alban yn 2007 fod 44% o blant wedi clywed am CCUHP (yn amrywio o rai oedd yn gwybod llawer am y Confensiwn i rai a oedd wedi clywed amdano ond nad oeddent yn gwybod fawr ddim manylion).²⁶ Yn Lloegr yn 2006, canfu pŵl fod 13% o blant wedi clywed am CCUHP.²⁷ Mae'n fwy o syndod fyth i arolwg diweddar ganfod mai dim ond 8% o blant Cymru oedd wedi clywed am y Confensiwn.²⁸

15. Nid yw cwricwlwm cenedlaethol Lloegr a'r canllawiau cyfatebol yn yr Alban yn cynnwys gwybodaeth benodol am CCUHP.²⁹

16. Yn yr Alban, mae'r Llywodraeth wedi dechrau drafftio strategaeth ledaenu ar gyfer CCUHP, sy'n cynnwys agweddau

Mesurau Gweithredu Cyffredinol

megis cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant, ac yn targedu plant a phobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol. Byddai'r strategaeth hon yn gam i'w groesawu tuag at wireddu hawliau plant, a dylai gael ei gweithredu'n llawn.

Hyfforddiant

17. Er bod peth cynnydd wedi'i wneud, nid yw'r hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn gynhwysfawr eto. Dylid rhoi hyfforddiant ar hawliau plant i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn cynnwys athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr gofal, yr heddlu, barnwyr, staff cyfleusterau caeth ac eraill. Ar ben hynny, dylai hawliau plant fod yn rhan o'r hyfforddiant ar gyfer gweision sifil. Dylai'r hyfforddiant hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o CCUHP a'u helpu i ganolbwyntio ar hawliau wrth eu gwaith. Dylai hawliau plant fod yn rhan annatod o'u hyfforddiant proffesiynol cychwynnol, yn ogystal â'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Argymhellion

- **A9** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymgorffori CCUHP yng nghyfraith fewnol pob un o bedair cenedl y DU.
- **A10** Dylai Llywodraeth y DU grisialu CCUHP ym Mesur lawnderau a Dyletswyddau arfaethedig Prydain a Mesur lawnderau Gogledd Iwerddon.
- **A11** Dylai Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig ac awdurdodau lleol gynnal asesiadau effaith ar hawliau plant ar gyfer yr holl ddatblygiadau deddfwriaeth a pholisi sy'n effeithio ar blant ar lefel genedlaethol a lleol.
- **A12** Er ein bod yn cydnabod bod gan y Comisiynwyr plant rôl yn y gwaith o ledaenu CCUHP, Plaid y Wladwriaeth sy'n bennaf gyfrifol am wneud hynny. Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Confensiwn a chynhyrchu gwybodaeth hygyrch am hawliau plant.
- **A13** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod CCUHP yn rhan o gwricwlwm ysgolion ar draws y DU.
- **A14** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn cynnwys gweision sifil sy'n ymwneud â datblygu polisi, yn derbyn hyfforddiant ar hawliau plant.

Erthygl 4 (cwmpas eithaf yr adnoddau sydd ar gael)

Dyrannu adnoddau

18. Yn 2002, argymhellodd y Pwyllgor y dylid dadansoddi'r gyllideb ar draws Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, i sicrhau cydymffurfiaeth ag Erthygl 4, drwy ddangos y gwariant ar blant, nodi'r blaenoriaethau a dyrannu adnoddau hyd eithaf eu gallu. Bu'r gweithredu ar yr argymhelliad hwn yn anghyson, a lle cafwyd dadansoddiad, ni chychwynnwyd y gwaith bob amser gan y Llywodraeth (ac eithrio yng Nghymru).

19. Consensws cyffredinol y pedwar Comisiynydd yw nad yw dyrannu adnoddau yn dibynnu ar yr angen a aseswyd, nid yw'n dryloyw, yn aml mae'n fyrhoedlog ei natur, ac nid yw ei effaith ar y canlyniadau i blant bob amser yn cael ei werthuso. Wedi dweud hynny, mae'r holl Gomisiynwyr yn croesawu'r buddsoddiad sylweddol ar draws gweinyddiaethau'r DU ar agweddau ar les plant, ac maent yn arbennig o falch o weld ymrwymiad Llywodraeth y DU a phob un o'r gweinyddiaethau datganoledig i wneud plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth.

20. I wireddu'r ymrwymiad hwn, fodd bynnag, mae rhai rhwystrau y mae'n rhaid eu goresgyn ar lefel y DU ac ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig.

21. Yn ddiweddar, gwnaed peth gwaith ymchwil i Gomisiynydd Gogledd Iwerddon i ddadansoddi swm cymorth ariannol y Llywodraeth ar gyfer plant yng Ngogledd Iwerddon, a sut mae hynny'n cymharu â'r cymorth i blant ar draws gweddill y DU.³⁰ Canfu'r ymchwil wahaniaethau clir ar draws y pedair gwlad yn y DU o ran y gwariant ar ofal cymdeithasol, iechyd ac addysg. Fodd bynnag, wrth gynnal yr ymchwil, un o'r prif anawsterau oedd dod o hyd i ffigurau gwariant y gellid eu cymharu. Er enghraifft, ni allai'r Llywodraeth ddarparu gwybodaeth am y gwariant addysg yn Lloegr. Mae hyn, ar ben y ffaith bod pob gwlad yn cyfrifo'r gwariant addysg drwy ddefnyddio gwahanol gategoriâu, yn golygu nad oes modd cymharu'n ystyrlon. Yn ogystal â hynny, yng Ngogledd Iwerddon, mae'r ymddiriedolaethau iechyd a gofal cymdeithasol cyfun yn golygu ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng gwariant iechyd a gofal cymdeithasol ac, yn sgîl hynny, cymharu'r gwariant â'r sefyllfa yng ngweddill y DU.

22. Dylai'r gwariant ar blant gael ei seilio ar ystod o newidynnau, sy'n cynnwys angen, demograffeg, ardaloedd gwledig a darbodion maint. Dylid anelu'n gyffredinol at wario digon o arian cyhoeddus i sicrhau'r canlyniadau gorau a mwyafu lles cyffredinol plant a phobl ifanc. Mae adroddiad diweddar UNICEF ar les plant mewn gwledydd cyfoethog yn nodi'r cysylltiadau cryf rhwng gwariant y Llywodraeth ar blant a'u lles cyffredinol.³¹ Mae gan y DU gyfradd les is ymhlith plant nag y gellid disgwyl o ystyried ei gwariant cymdeithasol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, ni all y Llywodraeth nodi'n union faint o'r gwariant cymdeithasol hwn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer plant.

Mesurau Gweithredu Cyffredinol

Yr Alban

23. Yn dilyn y newid yn Llywodraeth yr Alban yn 2007, bu newid sylfaenol yn null y llywodraeth ganolog o ddyrannu cyllid i awdurdodau lleol (sy'n bennaf gyfrifol am gyflwyno ystod o wasanaethau megis addysg a gofal cymdeithasol i blant a theuluoedd). O fis Ebrill 2008, bydd awdurdodau lleol yn derbyn grantiau bloc, a bydd cronfeydd wedi'u neilltuo yn dod i ben. Lle bu'r arian ar gyfer llawer o wasanaethau i blant wedi'i ddiogelu o'r blaen, bydd pob awdurdod lleol yn awr yn rhydd i ddyrannu adnoddau i flaenoriaethau lleol, ond cânt eu tywys gan gyfres o ganlyniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Mae'r canlyniadau hyn eisoes wedi'u cytuno gan Lywodraeth yr Alban ac awdurdodau lleol, ond heb lawer o fewnbwn gan randdeiliaid allanol. Mae Comisiynydd yr Alban yn pryderu y gallai dadansoddiad a thryloywder y gyllideb fod o dan fygythiad yn sgîl y trefniadau newydd hynny. O ganlyniad, gallai asesu cydymffurfiaeth ag Erthygl 4 o CCUHP fod yn anoddach fyth.

20. Deddf Plant 2004, Atodlen 1(7).
21. Sef iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol; amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod; addysg, hyfforddiant a hamdden; cyfraniad plant i gymdeithas; a lles cymdeithasol ac economaidd.
22. Mae Comisiynydd yr DU, yn ogystal ag Ombwdsmon Plant Iwerddon, wedi ffurfio Rhwydwaith Ombwdsmon a Chomisiynydd Plant Prydain ac Iwerddon (BINOCC). Mae'r rhwydwaith hwn yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth a chyflawni gwaith ar y cyd.
23. Er enghraifft, 'enwi a chywilyddio' plant sy'n derbyn gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (gweler Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998, Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Swyddfa Gartref, A guide to anti-social behaviour orders). Gweler para 179 am ragor o wybodaeth.
24. SCCYP. Children's Rights Impact Assessment: The SCCYP Model (2006).
25. Gweithrediaeth yr Alban. Report on the Implementation of the UN Convention on the Rights of the Child in Scotland 1999-2007 (2007), para 66.
26. YouthLink Scotland. Arolwg Being Young in Scotland 2007 (2007).
27. Ipsos Mori. Arolwg School Omnibus 2006 (2006). Canlyniadau Llinell Frig y Comisiynydd Plant.
28. Y Ddraig Ffyni. Ein Hawliau, Ein Stori (2007), t.77.
29. O 2008 ymlaen, bydd cwricwlwm cenedlaethol Cymru yn cynnwys gwybodaeth am CCUHP.
30. ERINI ac IFS. An Analysis of Public Expenditure on Children in Northern Ireland (2007).
31. UNICEF Canolfan Ymchwil Innocenti. An overview of child well-being in rich countries (2007).

Argymhellion

- **A15** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig orfod nodi faint maent yn ei wario ar blant.
- **A16** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig werthuso effaith eu gwariant ar blant.
- **A17** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ddod â'r defnydd o gyllid tymor byr ar gyfer gwasanaethau i blant i ben.
- **A18** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau dadansoddiad tryloyw o'r dull o ddyrannu adnoddau.
- **A19** Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i'r Gweinidogion sy'n gyfrifol am alluogi'r Llywodraeth i weithio ar y cyd er lles plant sicrhau bod adnoddau priodol i'r angen yn cael eu dyrannu i warantu eu lles, yn enwedig yn achos rhai nad ydynt yn derbyn eu hawliau.
- **A20** Yn yr Alban, rhaid monitro'r trefniadau newydd ar gyfer ariannu llywodraeth leol, a dylent ystyried rhwymedigaethau'r Llywodraeth o dan CCUHP, yn enwedig Erthygl 4.

Egwyddorion Cyffredinol

Erthygl 2 (peidio â gwahaniaethu)

Gwahaniaethu

24. Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gwneud ychydig iawn neu ddim cynnydd o gwbl o ran cyflawni argymhelliad y Pwyllgor yn 2002 i fonitro sefyllfa plant sy'n wynebu gwahaniaethu yn eu herbyn (yn enwedig plant ag anableddau, plant o deuluoedd tlawd, plant Sipsiwn a Theithwyr, plant sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid, plant sy'n rhan o grwpiau lleiafrifol, plant mewn gofal, plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a phlant rhwng 16 ac 18 oed).

25. Mae pryderon arbennig ynghylch pobl ifanc lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT) sy'n dal i ddiodeff homoffobia, bwlio, gwahaniaethu ac ynysu yn rheolaidd gartref, yn yr ysgol, yn y coleg, yn y gwaith ac mewn mannau eraill. Nid yw hanner athrawon yn ymyrryd wrth glywed iaith homoffobig ac yn ôl 30% o'r disgyblion lesbiaid a hoyw, oedolion - athrawon neu staff cynorthwyl - sy'n gyfrifol am y digwyddiadau homoffobig yn eu hysgol.³²

26. Amlygwyd yr anghydraddoldeb difrifol y mae plant Sipsiwn a Theithwyr yn ei wynebu mewn ymchwiliadau gan Gomisiynydd Gogledd Iwerddon dros Blant a Phobl Ifanc, y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol a Phwyllgor Cyfleoedd Cyfartal Senedd yr Alban.³³ Mae llawer o dystiolaeth ar draws holl wledydd y DU mai Sipsiwn a Theithwyr yw'r grŵp ethnig sy'n diodeff waethaf o ran iechyd ac addysg. Yn Lloegr, er enghraifft, mae hyd oes ddisgwyliedig dynion a menywod ddeng mlynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae mamau Sipsiwn a Theithwyr 20 gwaith yn fwy tebygol na mamau yng ngweddill y boblogaeth i fod wedi wynebu marwolaeth plentyn, ac yn 2003, llai na chwarter y plant Sipsiwn gafodd bum TGAU gradd A*-C, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o ychydig dros hanner.³⁴ Yng Ngogledd Iwerddon, mae'n ofynnol i blant Teithwyr fynd i'r ysgol 100 diwrnod y flwyddyn, o'i gymharu â 185-190 diwrnod i blant sy'n byw mewn man sefydlog. Mae llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr hefyd yn dal yn destun pryder ar draws y DU. Yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft, mae canllawiau gwahanol ar gyfer mathau gwahanol o safleoedd, megis arosfannau brys, trawsgludo a safleoedd parhaol, yn arwain at rwystrau wrth ddarparu gwasanaethau megis trydan.

27. Ers i'r Undeb Ewropeaidd ehangu, mae nifer fawr o deuluoedd mudol wedi dod i'r DU i fyw, ac mae tystiolaeth anecdotaidd o'r canlynol yn dod i'r amlwg:

- cynnydd yn yr ymosodiadau hiliol ar deuluoedd mudol;
- agweddau hiliol sy'n peri pryder ymhlith plant a phobl ifanc;
- diffyg gofal plant fforddiadwy ar gyfer plant gweithwyr mudol; a
- darpariaeth addysg amhriodol ar gyfer plant nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

28. Mae pobl ifanc yn y DU yn wynebu gwahaniaethu o ran cyfraddau budd-dal ac isafswm cyflog. Pobl ifanc 16 ac 17 sy'n derbyn y cyfraddau budd-dal isaf a'r isafswm cyflog isaf. Nid oes tystiolaeth i gefnogi'r farn bod gan bobl ifanc gostau byw is.

29. Er gwaethaf sylwadau terfynol blaenorol y Pwyllgor, nid yw Llywodraeth y DU wedi monitro ar ba lefel mae plant yn derbyn eu

hawliau yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru. Nid yw chwaith wedi defnyddio'r monitro hwn i ddatblygu strategaethau cynhwysfawr sy'n cynnwys camau strategol wedi'u targedu'n dda, gyda'r nod o ddileu pob math o wahaniaethu.

30. Yn wir, rydym yn credu bod gwahaniaethu yn erbyn plant yn gyffredinol wedi cynyddu. Enghraifft o hyn yw'r defnydd cynyddol o ddyfais y 'Mosgito', cynnyrch sy'n cael ei farchnata'n breifat sy'n creu sŵn amledd uchel nad yw'n glywadwy fel arfer ond i bobl o dan 25. Defnyddir y ddyfais i yrru pobl yn eu harddegau allan o fannau cyhoeddus, ac mae'n cael effaith yn ddiwahân ar ddefnydd a mwynhad plant o'r mannau hyn, gan amlygu'r agwedd anoddefgar at blant a geir yn y DU. Er nad yw Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi cymeradwyo eu defnydd, nid ydynt wedi cymryd unrhyw gamau i'w gwahardd.

31. Mae'r Comisiynydd yn croesawu sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn Lloegr, Cymru a'r Alban a'r Mesur Cydraddoldeb Sengl a'r Ddeddf Cydraddoldeb sengl, mewn egwyddor, yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio na fydd y ddeddfwriaeth hon yn gwanhau nac yn lleihau'r mesurau presennol i ddiogelu cydraddoldeb, ac y bydd yn sicrhau cymaint o amddiffyniad â phosib i blant a phobl ifanc yn erbyn pob math o wahaniaethu. Rydym yn bryderus iawn bod Llywodraeth y DU, ym mis Mawrth 2008, yn cynnig eithrio plant o dan 18 o'r cynigion i estyn deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail oed er mwyn cynnwys nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau a dyletswydd cydraddoldeb sengl y sector cyhoeddus. Mae eithrio rhan sylweddol o'r boblogaeth o'r darpariaethau hyn yn gwahaniaethu yn eu herbyn ac yn annheg. Yn eu bywydau beunyddiol, wrth fynd i siopau a defnyddio cludiant a gwasanaethau eraill, mae plant yn wynebu llawer o rwystrau. Mae'r arwyddion yn nrysau siopau sy'n dweud "dim plant ysgol" neu "dim mwy na dau blentyn ar y tro" bellach yn gyffredin, ac i raddau helaeth nid yw oedolion yn sylwi arnynt, ond maent yn effeithio ar fywydau plant. Maent yn cadarnhau'r stereoteipiau negyddol o blant yn ein cymdeithas. Ni ddylai triniaeth annheg ar sail rhagfarn a stereoteipio negyddol fod yn fwy derbyniol yn achos plant nag yn achos unrhyw aelodau eraill o'r gymdeithas.

Argymhellion

- **A21** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig fonitro sefyllfa plant sy'n debygol o wynebu gwahaniaethu, yn arbennig, plant ag anableddau, plant o deuluoedd tlawd, plant Sipsiwn a Theithwyr, plant sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid, plant sy'n rhan o grwpiau lleiafrifol, plant mewn gofal, plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a phlant rhwng 16 ac 18 oed.
- **A22** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig fonitro lefel yr hawliau y mae plant yn eu derbyn.
- **A23** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ddatblygu, ar sail monitro o'r fath, strategaethau cynhwysfawr sy'n cynnwys camau penodol, wedi'u targedu'n dda, gyda'r nod o ddileu pob math o wahaniaethu.

Egwyddorion Cyffredinol

- **A24** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymchwilio i'r rhwystrau i addysg ddigonol ar gyfer plant Teithwyr a chymryd camau i unioni hynny ar frys.
- **A25** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau safon uchel o lety a chyfleusterau ar safleoedd i Deithwyr.
- **A26** Dylai Llywodraeth y DU fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl ifanc 16 ac 17 oed yn y system fudd-daliadau ac o ran yr isafswm cyflog.
- **A27** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sefydlu strategaethau i fynd i'r afael â'r driniaeth wahaniaethol a'r canfyddiad negyddol y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu.
- **A28** Dylai Llywodraeth y DU gynnwys plant o dan ddarpariaethau'r Mesur Cydraddoldeb Sengl, yn benodol er mwyn eu cynnwys yn y darpariaethau ar gyfer gwahaniaethu ar sail oedran o ran nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau a dyletswydd cydraddoldeb sengl y sector cyhoeddus.

Erthygl 12 (parch at farn y plentyn)

Cymryd rhan mewn penderfyniadau

32. Ers 2002, gwelwyd gwelliant cyffredinol o ran cydnabyddiaeth, lefel ac ansawdd cyfranogiad plant yn y broses o wneud penderfyniadau ar draws y DU. Serch hynny, mae amrywiadau sylweddol yn parhau o ran deddfwriaeth ac arfer. Er ein bod yn cael ein calonogi gan yr arfer da sydd mewn rhai mannau, mae dipyn o gynnydd i'w wneud o hyd i sicrhau hawliau cyfranogiad plant yn llawn ym mhob agwedd ar eu bywydau, beth bynnag yw'r cyddestun neu'r mater dan sylw.

33. Mae nifer o rwystrau'n cyfyngu ar gyfranogiad plant mewn penderfyniadau. Mae rhai o'r rhwystrau hynny'n strategol (megis polisïau cwynion sy'n anaddas i'w defnyddio gan blant neu sy'n atal plant yn benodol rhag cwyno), tra bod eraill yn ymwneud ag agwedd. Mae'n annhebygol y caiff y rhwystrau hyn eu dileu nes bod plant yn cael eu hystyried fel perchnogion hawliau a bod cyfleoedd hyfforddi pellach i weithwyr proffesiynol ar hawliau plant yn gyffredinol ac ar Erthyglau 12 a 13 yn arbennig.³⁵

34. Gall grwpiau penodol o blant a phobl ifanc wynebu rhwystrau ychwanegol i'w hawliau cyfranogiad. Er enghraifft, mae gwrthwynebiad yn parhau i geisio barn plant iau ar lefel strategol, fel y mae methiant i weithredu cyfraith a pholisi o ran cynnwys plant anabl neu blant sy'n derbyn gofal mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal. Mae plant sy'n cyfathrebu mewn dull di-eiriau a rhai sydd ag anawsterau cyfathrebu eraill yn wynebu problemau penodol o ran cyfranogiad, ac yn aml nid oes ganddynt y cymhorthion cyfathrebu angenrheidiol i hwyluso'u hawl i leisio barn.

35. Er bod peth cynnydd wedi'i wneud o ran cyfranogiad plant wrth wneud penderfyniadau ar y cyd ac yn unigol, a bod egwyddor cyfraniad yn cael ei chynnwys fwyfwy mewn cyfraith a pholisi, nid yw hyn eto wedi treiddio trwodd i arfer yn gyson.

36. Er gwaethaf peth cynnydd cyfyngedig yng nghyfranogiad plant mewn addysg, megis gallu disgyblion yng Nghymru i fod yn llywodraethwyr cyswllt mewn ysgolion, a chryfhau llais y plentyn yn y broses wahardd, mae gwrthwynebiad yn parhau i ganiatáu i blant ymarfer eu hawl i fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn yr ysgol.

37. Mae i ba raddau y clywir lleisiau plant ac y rhoddir sylw iddynt yn amrywio mewn achosion cyfreithiol cyhoeddus a phreifat. Mae anghysondeb hefyd o ran rhoi cynrychiolaeth gyfreithiol ar wahân i blant lle bo angen hynny.

38. Ar hyn o bryd, nid oes strategaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth i blant mewn unrhyw un o'r pedair gwlad yn y DU. Ym mhob gwlad, mae problemau penodol yn bodoli o ran mynediad, ariannu ac annibyniaeth gwasanaethau eiriolaeth. Mae plant sydd â phroblemau iechyd meddwl a phlant ag anabledl ymhlith y rheiny sy'n cael trafferth penodol i sicrhau gwasanaeth eiriolaeth. Rydym yn croesawu'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

Argymhellion

- **A29** Dylai pob gweinyddiaeth yn y DU weithredu fframwaith wedi'i seilio ar hawliau ar gyfer cyfranogiad a chynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau.
- **A30** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod plant yn cael gwybod am eu hawliau cyfranogiad.
- **A31** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gydnabod a gweithredu'n llawn hawliau cyfranogiad plant mewn lleoliadau addysg, achosion cyfreithiol, gofal iechyd ac yn y system ofal.
- **A32** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod plant y mae angen cymhorthion cyfathrebu arnynt yn medru cyrchu cyfarpar o'r fath er mwyn derbyn eu hawliau'n llawn o dan Erthygl 12.
- **A33** Rhaid i bob gweinyddiaeth yn y DU ddatblygu ac ariannu strategaeth eiriolaeth genedlaetholynhwysfawr.
- **A34** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ddarparu eiriolaeth annibynnol i blant ar draws y DU. Dylid rhoi blaenoriaeth i ddarparu eiriolwr annibynnol ar gyfer pob plentyn anabl sy'n byw oddi cartref ac i'r holl blant sy'n derbyn gofal.

32. Stonewall. The school report (2007).

33. NICCY. Adequacy and effectiveness of education provision for Traveller children in Northern Ireland (2007); Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Common ground: equality, good race relations and sites for Gypsies and Irish Travellers (2006); a Phwyllgor Cyfleoedd Cyfartal Senedd yr Alban. Inquiry into Gypsy Travellers and Public Sector Policies (2001).

34. Y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol. Common ground (2006).

35. Fel y nodwyd ym mhara 17 uchod.

Hawliau a Rhyddid Sifil

Erthygl 16 (diogelu preifatrwydd)

Cadw DNA

39. Mae cofnodion DNA plant yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon y bu'r heddlu yn ymchwilio iddynt yn cael eu cadw am gyfnod diderfyn ar y Gronfa Ddata DNA Genedlaethol fel mater o drefn (hyd yn oed pan na cheir hwy'n euog o unrhyw drosedd). Er bod rhaid i'r heddlu ddefnyddio technoleg fodern i fynd i'r afael â throseddau, dylid cydbwyso hynny â hawliau'r plant dan sylw. Yn yr Alban, ni chaniateir cadw DNA ond am dair blynedd, a dim ond yn achos troseddau treisgar a rhywiol. Rhaid cyflwyno cais i'r llys i'w gadw am gyfnod hwy. Dylid mabwysiadu dull yr Alban ar draws y DU.

Argymhelliad

- **A35** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn y DU fabwysiadu agwedd yr Alban at gadw DNA.

Erthygl 37(a) (diogelu rhag poenydio neu gosb neu driniaeth greulon, annynol neu ddiraddiol arall, gan gynnwys cosb gorfforol)

Cosb gorfforol

40. Ers 2002, bu cosb gorfforol o fewn y teulu yn destun trafodaeth reolaidd, gan arwain at newid yn y gyfraith ym mhob cenedl yn y DU. Serch hynny, mae pob newid deddfwriaethol wedi methu â chyrraedd y safon sy'n ofynnol gan y Pwyllgor. Ar draws y DU, mae cosb gorfforol i blant yn dal i gael ei chaniatáu o fewn y teulu. Pan fo rhiant yn taro plentyn, gall hawlio amddiffyniad sy'n cyfiawnhau hynny, lle ne fyddai amddiffyniad o'r fath ar gael petai'r dioddefydd dros 16 oed. Nid yw plant, felly, yn derbyn amddiffyniad cyfartal dan y gyfraith.

41. Ar ben hynny, mae i ba raddau mae llywodraethau pob cenedl wedi hyrwyddo dulliau disgyblu annhreisgar trwy gefnogi rhieni ac addysg gyhoeddus wedi amrywio, ac yn aml wedi bod yn gyfyngedig. Wrth newid y gyfraith a llunio polisi yn y maes hwn, ni roddwyd sylw digonol i farn plant a phobl ifanc ar gosb gorfforol.

Lloegr a Chymru

42. Yn Lloegr a Chymru, dileodd adran 58 o Ddeddf Plant 2004 amddiffyniad 'cerydd rhesymol' ar gyfer rhai â chyfrifoldeb rhieni, ond yn ei le caniatawyd 'cosb resymol'. Er bod adran 58 yn atal defnyddio'r amddiffyniad hwn yng nghyswllt ymosodiadau difrifol, gellir ei ddefnyddio yng nghyswllt cyhuddiadau ymosodiad cyffredinol. Mae Deddf Plant 2004 felly'n methu â gwahardd pob cosb gorfforol yn y teulu. Yn ystod datblygiad Deddf 2004, gwrthwynebodd Llywodraeth y DU alwadau am amddiffyniad cyfartal i blant, gan bwysleisio hawl rhiant i ddisgyblu ac amlygu'r perygl y gallai rhieni gael eu labelu'n droseddwr a'u dwyn gerbron y llysoedd. Mae'r Comisiynwyr yn siomedig na ddiddymwyd adran 58 yn dilyn yr adolygiad diweddar.³⁶ Mae gan blant yn Nghymru

a Lloegr lai o amddiffyniad o dan y gyfraith ar ymosodiad cyffredin nag oedolion, ac nid yw'r Llywodraeth wedi cymryd "yr holl gamau angenrheidiol i wahardd defnydd o gosb gorfforol, pa mor ysgafn bynnag, gan gynnwys yn y cartref".³⁷ Ar ben hynny, ymddangosai fod adolygiad y Llywodraeth yn diystyru barn plant a phobl ifanc, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol, a oedd yn cefnogi dod â chosb gorfforol i ben.³⁸

43. Mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r Pwyllgor y dylid gwahardd pob cosb gorfforol ond, oherwydd setliad cyfansoddiadol Cymru, ni all newid y gyfraith. Senedd y DU sydd â'r pŵer deddfwriaethol i gyflawni'r newid a ddymunir. Wrth gymeradwyo Deddf Plant 2004, diystyrododd Senedd y DU farn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r ffaith bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyflwyno cynnig yn ddiweddar yn mynegi siom ynghylch methiant Llywodraeth y DU i wahardd cosbi plant yn gorfforol o fewn y teulu.

Gogledd Iwerddon

44. Yng Ngogledd Iwerddon, daeth ymgynghoriad gan Swyddfa Diwygio'r Gyfraith i'r casgliad nad oedd consensws ar fater cosb gorfforol. Fodd bynnag, yn 2006, penderfynodd Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon estyn a.58 o Ddeddf Plant 2004 i Ogledd Iwerddon trwy Orchymyn Diwygio'r Gyfraith (Darpariaethau Amrywiol)(Gogledd Iwerddon) 2006. Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer cosbi plant yn gorfforol, ac yn peri bod y gyfraith yng Ngogledd Iwerddon yn cyfateb i'r hyn a geir yng Nghymru a Lloegr. Yn 2007, gwrthododd llys gais Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwn. Mae'r Comisiynydd yn apelio yn erbyn penderfyniad y llys ac yn dal i gredu bod y gyfraith bresennol yn torri hawliau plant o dan Erthyglau 19 a 37(a) o CCUHP, ac Erthyglau 3, 8 ac 14 o Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol.

Yr Alban

45. Drwy rinwedd adran 51 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (yr Alban) 2003, disodlodd Senedd yr Alban amddiffyniad cerydd rhesymol ag amddiffyniad 'ymosodiad cyfiawnadwy'. Mae Adran 51 yn caniatáu i'r rheiny sydd â chyfrifoldeb rhieni i gosbi plentyn yn gorfforol ac yn cyflwyno rhestr nad yw'n hollgynhwysol o ffactorau y dylai llys eu hystyried wrth ystyried a yw cosb o'r fath yn rhesymol. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys hyd ac amllder y gosb, ei diben, oedran y plentyn a'i heffaith, ymhlith pethau eraill. Mae Adran 51 hefyd yn nodi mathau penodol o ymosodiad na ellir eu cyfiawnhau. Mae'r rhain yn cynnwys ergydion i'r pen, ysgwyd a defnyddio offer. Yn 2006, gwrthododd Senedd yr Alban ymdrechion i wahardd pob math o gosb gorfforol.

46. Yn dilyn Deddf 2003, ymrwymodd Llywodraeth yr Alban i gefnogi rhieni, eu haddysgu a'u hysbysu am gosb gorfforol a dulliau cadarnhaol o fagu plant. Er bod y Llywodraeth ers hynny wedi cyhoeddi llyfryn yn rhoi gwybodaeth am Ddeddf 2003, nid yw hynny'n cyflawni'r ymgyrch addysg gyhoeddus a argymhellwyd gan y Pwyllgor yn 2002, a'r gwaith parhaus i hybu dulliau anhreisiol fel sy'n ofynnol o dan Sylw Cyffredinol Rhif 8.

Hawliau a Rhyddid Sifil

Casgliad

47. Mae'r Comisiynwr o'r farn bod y camau a gymerwyd ar draws y DU ymhell o gyrraedd y nod o ran argymhellion y Pwyllgor yn 2002 ac yn ei Sylw Cyffredinol ar Gosb Gorfforol. Mae pob awdurdodaeth wedi parhau i ganiatáu cosbi plant yn gorfforol lle bernir bod hynny'n 'rhesymol' neu y gellir ei 'gyfiawnhau', ac felly maent wedi methu â gwahardd pob math o drais yn erbyn plant. Ni cheir fawr ddim amddiffyniad i blant mewn newidiadau deddfwriaethol diweddar, ac yn aml gallant beri dryswch i rieni ac i'r rheiny sy'n gweithio gyda phlant. Ar ben hynny, ni wnaed fawr ddim ymdrech i fonitro a gwerthuso effaith gyfreithiol y newidiadau hyn.

48. Er bod sawl menter wedi'u sefydlu i hybu dulliau cadarnhaol o fagu plant ym mhob gwlad, nid oes cynlluniau strategol mewn unrhyw wlad yn y DU i gynyddu ymwybyddiaeth o ddulliau anhreisgar o ddisgyblu.

Argymhellion

- **A36** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig roi amddiffyniad cyfartal i blant rhag ymosodiad a sicrhau nad yw plant yn dioddef cosb gorfforol. Nid yw'r newidiadau deddfwriaethol diweddar yn y DU yn cyflawni hyn.
- **A37** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig hybu strategaethau cadarnhaol o fagu plant a datblygu ymgyrchoedd addysg gyhoeddus a chynyddu ymwybyddiaeth ynghylch effaith negyddol cosb gorfforol, gan ddarparu adnoddau digonol ar eu cyfer.
- **A38** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wrando ar farn plant, rhieni a gweithwyr proffesiynol ynghylch cosb gorfforol, a'i hystyried.

Ataliaeth gorfforol

49. Mae digon o wybodaeth ysgrifenedig am y lefelau uchel o ataliaeth a ddefnyddir yn erbyn plant mewn canolfannau hyfforddi caeth (STCs) a sefydliadau troseddwr ifanc (YOIs) yng Nghymru a Lloegr. Rhwng Ionawr 2004 a Medi 2005, defnyddiwyd ataliaeth 7,020 o weithiau ar bobl ifanc mewn STCs, 5,133 o weithiau mewn YOIs a 3,359 o weithiau mewn wyth cartref plant caeth.³⁹ Mewn YOIs, nid oes llawer o wahaniaeth rhwng oedolion a phlant yn y grym a ddefnyddir, ac nid yw ystyriaethau amddiffyn plant yn derbyn sylw.⁴⁰

50. Caniateir achosi poen trwy ddefnyddio technegau 'tynnu sylw' ar y trwyn, yr asennau neu'r bawd. Ar lawer o adegau mae'r technegau hyn wedi achosi anafiadau i blant. Rydym yn croesawu penderfyniad y Llywodraeth i atal y defnydd o achosi poen i'r trwyn i dynnu sylw, ac yn gobeithio y byddant yn ailystyried defnyddio technegau eraill sy'n achosi poen i dynnu sylw. Nid yw defnyddio trais a grym i reoli neu gosbi plant agored i niwed yn dderbyniol. Er gwaethaf honiad y Llywodraeth yn eu hadroddiad i'r Pwyllgor, nid pan fo popeth arall wedi methu yn unig y mae ataliaeth yn cael ei ddefnyddio, ac mae tystiolaeth bod ataliaeth a phoen yn cael eu

defnyddio'n gyffredin mewn STCs a YOIs mewn ymateb i wrthod cydymffurfio.⁴¹ Yn 2004, bu farw dau blentyn mewn STCs ac roedd ataliaeth yn rhan o'r sefyllfa yn y ddau achos.

51. Yn 2007, cyflwynodd y Llywodraeth reoliad i estyn yr amgylchiadau lle gellir defnyddio ataliaeth gorfforol – gan gynnwys technegau tynnu sylw poenus – ar blant mewn STCs.⁴² Mae'r rheoliad yn caniatáu defnyddio ataliaeth i sicrhau "trefn a disgyblaeth dda". Fe'i cyflwynwyd heb ymgynghori, ac er gwaethaf gwrthwynebiad helaeth. Er bod y Llywodraeth wedi cytuno i gynnal adolygiad o ataliaeth mewn lleoliadau caeth i bobl ifanc, rydym yn ofni y bydd y rheol newydd hon yn annog defnydd ehangach o ataliaeth, ac rydym yn credu y dylid ei dynnu'n ôl.

52. Mae tystiolaeth hefyd bod defnydd amhriodol o noeth chwilio ac arwahanu yn digwydd yn achos plant sydd yn y ddalfa.⁴³

Argymhellion

- **A39** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau na ddefnyddir ataliaeth yn erbyn plant ond pan fo popeth arall wedi methu a dim ond er mwyn atal niwed i'r plentyn neu i eraill. Ni ddylid defnyddio technegau sy'n tynnu sylw drwy achosi poen ar blant. Dylai Llywodraeth y DU dynnu'n ôl SI2007/1709 sy'n ehangu'r defnydd o ataliaeth mewn STCs.
- **A40** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau na ddefnyddir noeth chwilio ac arwahanu amhriodol mewn sefydliadau caeth lle cedwir plant.

Materion wedi'r gwrthdaro ac arferion yr heddlu yng Ngogledd Iwerddon

53. Mae Gogledd Iwerddon yn gymdeithas sy'n ymadfer wedi gwrthdaro, ac felly mae materion penodol sy'n effeithio ar hawliau sifil a rhyddid plant a phobl ifanc, y gall rhai ohonynt hyd yn oed ymwneud ag Erthygl 6 (hawl i fywyd). Mae Comisiynydd Gogledd Iwerddon wedi codi nifer o bryderon ynghylch tactegau a thechnolegau'r heddlu yn aflwyddiannus gyda Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) a'r corff sy'n ei fonitro. Mae'r rhain yn cynnwys:

- defnyddio Taflegryn Gwanhau Egni (AEP, math ar fwled blastig) yn fodd i reoli terfysg. Mae'r Comisiynydd yn pryderu'n fawr am ddefnydd parhaus yr arfau hyn yn absenoldeb tystiolaeth feddygol i gadarnhau eu bod yn "llai marwol" a'r diffyg data ar anafiadau i blant a phobl ifanc o ganlyniad i'w defnydd;
- cyflwyno Tasers (gynnau syfrdanu trydan) yn absenoldeb asesiad effaith cydraddoldeb fel sy'n ofynnol o dan adran 75 o Ddeddf Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon ac er gwaethaf cyngor i PSNI y "gallent ladd" plant a phobl ifanc;
- defnyddio plant i gasglu gwybodaeth. Mae'r Prif Gwnstabl wedi dweud bod canllawiau gweithredu llym yn rheoli'r defnydd o blant i gasglu gwybodaeth. Mae'r PSNI yn gwahaniaethu wrth ddefnyddio plant i gasglu gwybodaeth yn bennaf am resymau gwleidyddol ac fel rhan o waith arferol yr heddlu yn erbyn troseddau. O ystyried hanes y gwrthdaro diweddar,

Hawliau a Rhyddid Sifil

mae'n debygol bod cysylltiad rhwng y ddau fater, o leiaf mewn cymunedau sy'n ochelgar ynghylch unrhyw ymyrraeth gan yr heddlu. Mae goblygiadau difrifol i hyn o ran cyrraedd safonau rhyngwladol ym maes hawliau plant, gan gynnwys yr hawl i fywyd, ac mae'n codi cwestiynau ynghylch taliadau i bobl ifanc a allai eu hannog i barhau'n gaeth i gyffuriau neu arwain at fwy o droseddu;

- mae cael eu curo i'w cosbi neu 'gyfiawnder cymunedol' yn dal yn destun pryder i lawer o blant a phobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon. Nid yw hyn yn draddodiadol wedi cael ei ystyried fel cam-drin plant gan yr awdurdodau perthnasol. Dylai'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill perthnasol gymryd mwy o gamau i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin gan oedolion yn eu cymuned eu hun; a
- gwrthdaro rhwng ac o fewn cymunedau. Mae cynnen yn y gymuned yn cael effaith fawr ar blant a phobl ifanc. Mae tystiolaeth ddiweddar o Belfast yn dangos bod cymunedau cyfan o blant o dan fygythiad yn sgîl trais corfforol ac emosiynol. Er bod tystiolaeth o beth gweithredu ar y cyd ar ran yr awdurdodau, teimlir y gallai hyn fod yn annigonol.

Argymhellion

- **A41** Dylai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sicrhau nad yw arfau megis Tasers, AEP a batynau yn cael eu defnyddio yn erbyn plant.
- **A42** Dylai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon sicrhau na ddefnyddir plant i gasglu gwybodaeth, nac fel modd i ddal eraill.
- **A43** Rhaid i awdurdodau perthnasol Gogledd Iwerddon, o'r diwedd, gydnabod bod 'cyfiawnder cymunedol' yn erbyn plant a phobl ifanc yn achosion o gam-drin, ac ymateb i hynny.

36. Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Adolygiad o Adran 58 o Ddeddf Plant 2004 (2007).
37. Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn. Sylw Cyffredinol Rhif 8: The right to protection from corporal punishment and other cruel and degrading forms of punishment (2006).
38. Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Adolygiad o Adran 58 o Ddeddf Plant 2004 (2007).
39. Tystiolaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid i Ymchwiliad Yr Arglwydd Carlile (2006) Howard League for Penal Reform
40. Prif Arolygydd EM ar gyfer Carchardai yng Nghymru a Lloegr. Adroddiad Blynyddol 2006/2007 (2008).
41. Ymchwiliad Carlile (2006).
42. SI 2007 Rhif 1709.
43. Prif Arolygydd EM ar gyfer Carchardai yng Nghymru a Lloegr. Adroddiad Blynyddol 2006/2007 (2008).

Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Erthygl 20 (plant sy'n cael eu hamddifadu o amgylchedd teuluol)

Plant sy'n derbyn gofal

54. Mae adroddiad Llywodraeth y DU i'r Pwyllgor yn cydnabod bod plant sy'n derbyn gofal yn wynebu anawsterau penodol a bod y canlyniadau ar eu cyfer yn dal yn wael o'u cymharu â phlant eraill. Er ein bod yn croesawu amrywiol fentrau newydd gan bob un o weinyddiaethau'r DU, bydd angen buddsoddiad ac adnoddau sylweddol i'w rhoi ar waith yn effeithiol, gan gynnwys gweithlu galluog. Rhaid ymdrin â'r anawsterau cyfredol o ran recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol i blant a theuluoedd, a hefyd â morâl isel y gweithlu. Mae angen buddsoddi hefyd mewn gwasanaethau ataliol, ymyrraeth gynnar, a chefnogaeth i'r teulu.

55. Dylai awdurdodau lleol yn y DU ddarparu'r un lefelau o gefnogaeth, gofal ac amddiffyniad y byddai unrhyw riant da yn eu darparu ar gyfer plentyn. Serch hynny, mae awdurdodau'n aml yn methu â chyrhaedd y safon fel 'rhieni corfforaethol', heb gyflawni eu dyletswyddau statudol. Er enghraifft, ni weithredir cynlluniau gofal llawer o blant, ac mae llawer o bobl ifanc yn paratoi i adael gofal heb y cynllun llwybr sy'n statudol ofynnol.

56. Er y gwelwyd cynnydd o ran cynnwys plant sy'n derbyn gofal yn y broses o gynllunio'u gofal eu hunain, mae llawer o le i wella o hyd. Mae pobl ifanc yn dal i sôn am fethiant i'w cynnwys wrth wneud penderfyniadau (yn enwedig o ran lleoliadau) a diffyg gwybodaeth am eu gofal. Er enghraifft, maent yn aml heb wybod am y gefnogaeth y gallant eu hawlio wrth adael gofal, ac felly ni allant gwestiynu ei habsenoldeb. Mae mynediad at eiriolwyr yn gyfyngedig ac mae'r gweithdrefnau cwynion yn aml yn anodd eu cyrchu neu heb fodoli o gwbl.

57. Rydym yn pryderu nad oes gan blant anabl mewn lleoliadau preswyl 52 wythnos yr un amddiffyniad a hawliau statudol â phlant yn y system ofal.⁴⁴ Dylai'r plant hyn gael statws derbyn gofal i sicrhau eu bod yn destun mesurau diogelu cyfreithiol, gan gynnwys cynllunio gofal mwy trwyadl, ei ddarparu a'i adolygu.

58. Yng Nghymru a Lloegr, yn arbennig, rydym yn pryderu am driniaeth anghyfartal plant sy'n ceisio lloches a wahanwyd, na allant gyrchu'r un lefel o ddarpariaeth, hawliadau a chefnogaeth â phlant preswyl sydd mewn gofal.⁴⁵

Trothwyon ymyrraeth

59. Ar draws y DU, mynegwyd pryder am y galwadau anferth ar y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig oherwydd y nifer cynyddol o blant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae'r galw hwn ar adnoddau cyfyngedig wedi arwain at godi'r trothwyon ymyrraeth ac at gwynion – gan gynnwys oddi wrth y plant eu hunain – bod rhai plant wedi dal i fyw gyda'u teuluoedd pan nad yw bellach yn ddiogel. Er y gallai fod yn well gan y gwasanaethau cymdeithasol ymwneud â gwaith ataliol, cefnogaeth deuluol ac ymyrraeth gynnar, yn ymarferol mae pwysau ariannol, y gofynion ar y staff a phwyslais ar hawl y plentyn i dderbyn gofal gan ei rieni yn golygu eu bod yn aml yn canolbwyntio ar blant sydd wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus.

Lleoliadau: addasrwydd ac ansefydlogrwydd

60. Yn aml pennir lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar sail argaeledd yn hytrach nag er lles pennaf y plentyn ac yn unol â'r hyn y cytunwyd arno yn y cynllun gofal. O ganlyniad, er mai gofal maeth fyddai'r lleoliad o ddewis a gynlluniwyd yn aml, gall diffyg gofaluwr arwain at leoli plant mewn unedau preswyl amhriodol. Gall diffyg lleoliadau gerllaw olygu bod plant yn cael eu hanfon ymhell o'u teulu, eu ffrindiau a gwasanaethau cefnogi, gan eu cynhyrfu, eu gwneud yn bryderus, a bygwth cysylltiadau teuluol, diwylliannol a'r grŵp cyfoedion. Ar ben hynny, gall brodyr a chwiorydd gael eu gwahanu wrth ddechrau derbyn gofal, a hynny dim ond oherwydd bod diffyg lleoliadau maeth neu breswyl addas.

61. Mae llawer o blant yn derbyn llawer o leoliadau. Yn yr Alban, er enghraifft, ar 31 Mawrth 2007, roedd 597 o blant wedi derbyn chwe lleoliad neu fwy yn ystod eu cyfnod presennol o dderbyn gofal.⁴⁶ Mae llawer o leoliadau'n achosi cythrwfl parhaus i blant ac anawsterau o ran cysylltiad ag addysg, iechyd a gwasanaethau cefnogi eraill, yn ogystal ag wrth ddatblygu perthnasoedd cymdeithasol.

Gadael gofal

62. Er bod deddfwriaeth yn darparu ar gyfer gofalu am blant y mae angen gofal amgen arnynt hyd nes eu bod yn 18 oed, os yw eu lles yn galw am hynny (a dylent dderbyn cefnogaeth bellach wedi hynny), mae pobl ifanc ar draws y DU yn dweud eu bod yn teimlo o dan bwysau i adael gofal yn 16 oed.⁴⁷ Beth bynnag yw eu hoed wrth adael gofal, gall fod diffyg blaengynllunio ar gyfer pobl ifanc: yn aml, maent yn symud i dai anaddas ac yn derbyn cefnogaeth annigonol ar ôl gadael gofal. Mae Comisiynydd yr Alban wedi dod ar draws enghreifftiau sy'n peri pryder, wrth i rai sy'n gadael gofal gael llely gwely a brecwast neu fynd i hostel lle ceir troseddwy'r difrifol. Mae rhai sy'n gadael gofal yn ddiartref yn ddiweddarach - yng Ngogledd Iwerddon, er enghraifft, cyflwynodd 60 o bobl a oedd wedi gadael gofal eu hunain fel pobl ddiartref yn 2005-06.⁴⁸ Heb gynllun digonol wrth adael gofal, gallai'r cam hwnnw gael effaith niweidiol ar addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth person ifanc yn ogystal.

Canlyniadau

63. Mae'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn wael o'u cymharu â phlant eraill. Er enghraifft:

- mae gorgynrychiolaeth o blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau caeth ac yn y ddalfa. Yn Lloegr, mae rhyw 27% o'r oedolion sydd yn y carchar wedi treulio amser mewn gofal;⁴⁹
- mae cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn wael o'i gymharu ag eiddo plant eraill.⁵⁰ Ni chaiff nifer sylweddol o blant sy'n derbyn gofal eu hasesu, ac nid ydynt yn sefyll arholiadau y maent yn gymwys ar eu cyfer. Yng Nghymru, adroddwyd bod rhai ysgolion yn gwrthwynebu rhoi plant sy'n derbyn gofal ar y gofrestr oherwydd y pwysau ar yr ysgol i godi'r lefel gyffredinol o gyrhaeddiad; ac
- mae anhwylderau iechyd meddwl yn llawer mwy cyffredin ymhlith plant sy'n derbyn gofal nag ymhlith plant eraill, ond gall fod diffyg mynediad i therapi a gofal iechyd priodol.⁵¹ Yn yr Alban, mae estyn gwasanaeth y nyrsys arbenigol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal wedi bod o gymorth, ond dim ond mewn rhai ardaloedd mae'r nyrsys hynny ar gael.

Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

Argymhellion

- **A44** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu gweithredu, a bod pob plentyn yn derbyn y gwasanaeth a addawyd. Dylai hyn gynnwys ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cefnogi i'r teulu i alluogi plant i aros gyda'u teuluoedd lle bo modd.
- **A45** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan o gynllunio gofal, yn derbyn gwybodaeth briodol, ac yn derbyn cymorth eiriolaeth.
- **A46** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig roi statws 'derbyn gofal' i blant anabl mewn lleoliadau preswyl 52 wythnos.
- **A47** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau mai lles pennaf plant sy'n pennu'r trothwyon ymyrraeth.
- **A48** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod plant yn cael eu hanfon i nifer llai o leoliadau.
- **A49** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau nad yw unrhyw blentyn yn gadael gofal cyn cyrraedd 18 oed oni bai bod hynny'n angenrheidiol ar gyfer ei lles. Dylai penderfyniadau ynghylch gadael gofal fod yn eglur a thryloyw.
- **A50** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn derbyn cefnogaeth ddigonol. Dylai llety ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, yn enwedig os ydynt o dan 18 oed, fod o safon briodol.
- **A51** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod cynlluniau ar gyfer gadael gofal yn cael eu paratoi ymhell ymlaen llaw, gyda mewnbwn y person ifanc, a'u bod yn cael eu rhoi ar waith.
- **A52** I sicrhau bod rôl rhiant corfforaethol yn cael ei chyflawni'n briodol, dylai awdurdodau lleol ar draws y DU roi cyfrifoldeb i aelodau etholedig dros oruchwyllo gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, fel sy'n digwydd eisoes yng Nghymru.
- **A53** Yn yr Alban, dylai'r Llywodraeth estyn y ddarpariaeth o nyrsys arbenigol sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal a llety ar draws y wlad.

44. Gall y lleoliadau hyn gynnwys ysgolion, gofal cymdeithasol, neu ysbytai.

45. Gweler para 158 isod am ragor o fanylion.

46. Llywodraeth yr Alban. Ystadegau plant sy'n derbyn gofal 2006-07 (2007).

47. SCCYP. Sweet 16? The age of leaving care in Scotland (2008).

48. Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus. Care Matters in Northern Ireland (2007).

49. Yr Adran Addysg a Sgiliau. Care matters: transforming the lives of children and young people in care (2006).

50. Ibid.

51. Yr Adran Addysg a Sgiliau. Care matters: time for change (2007).

Iechyd a Lles Sylfaenol

Erthygl 23 (plant ag anabledau)

Plant ag anabledau

64. Rydym yn croesawu'r amrywiol gamau a gymerwyd i ddiwallu anghenion plant ag anabledau yn well yn y blynyddoedd diwethaf. Serch hynny, mae plant anabl yn dal i wynebu rhwystrau pwysig i sicrhau eu hawliau llawn, ac yn aml mae materion hawliau sy'n berthnasol i holl blant y DU, megis tlodi neu chwarae, yn anghymesur yn eu heffaith arnynt.⁵²

Cynllunio a darparu gwasanaethau

65. Amcangyfrifir bod 700,000 o blant anabl yn y DU. Mae'n debygol bod y ffigur hwn yn tangynrychioli'r nifer oherwydd nad oes dull cydlynus o goladu data ym mhob cenedl. Yn wyneb y diffyg gwybodaeth gywir, mae'r Comisiynwyr yn pryderu na ellir cynllunio gwasanaethau'n effeithiol ar gyfer plant anabl (gan gynnwys iechyd, addysg a chyfluoedd i chwarae), ac nad yw gwasanaethau wedi'u seilio ar yr angen.

66. Mae poblogaeth y plant anabl yn newid, gyda nifer cynyddol o blant yn derbyn diagnosis o anhwylderau sbectrum awtistig, a nifer mwy ag anghenion iechyd cymhleth.⁵³ Nid yw'r lefelau ariannu a'r gwasanaethau a ddarperir wedi cyfateb i'r cynnydd yn lefel yr angen. Mae bylchau mawr yn y gwasanaethau a ddarperir ac anghydraddoldeb yn y gwasanaethau a'r canlyniadau i deuluoedd. Gall pob gwlad yn y DU gyfeirio at adolygiadau sy'n amlygu'r diffygion wrth ddarparu gwasanaethau.

67. Yn Lloegr, rydym yn croesawu buddsoddiad diweddar y Llywodraeth a'i strategaeth ar gyfer gwella bywydau plant anabl a'u teuluoedd a'r bwriad i adolygu gwasanaethau ar gyfer teuluoedd â phlant anabl.⁵⁴ Serch hynny, mae gwasanaethau'n cael trafferth diwallu anghenion teuluoedd o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a du, y mae gan rai ohonynt anghenion cefnogi lefel uchel. Er enghraifft, mae lefel yr anabledau dysgu ymhlith pobl rhwng pump a 32 oed o Dde Asia deirgwaith yn uwch nag mewn cymunedau eraill.⁵⁵

68. Mae'r Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol i Blant yng Nghymru a Lloegr yn cyflwyno ystod o gamau gweithredu allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. Yng Nghymru, fodd bynnag, canfu adroddiad cynnydd 2007 mai'r gwasanaethau ar gyfer plant anabl oedd wedi gwneud y cynnydd lleiaf o blith yr holl wasanaethau.

69. Mae Comisiynydd Gogledd Iwerddon wedi ymchwilio i gwynion a chynnal tri adolygiad sy'n ymwneud â phlant ag anabledau, sydd wedi amlygu diffyg mynediad i wasanaethau, gan gynnwys addysg arbennig, therapiau a chadeiriau olwyn. Nodwyd amrywiadau daearyddol yn y gwasanaeth a ddarperir hefyd, ynghyd â diffyg ymrwymiad i ddiwallu anghenion plant ag anabledau ar lefel polisi ac arfer yn y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.

Trosglwyddo

70. Mae problemau sylweddol wrth i bobl ifanc anabl symud o wasanaethau plant i rai oedolion, gan gynnwys diffyg dilyniant yn y gwasanaeth a ddarperir, y posibilrwydd o golli neu leihau

gwasanaethau a chefnogaeth, a pheidio ag ystyried barn plant wrth gynllunio'r trosglwyddiad.⁵⁶ Mae gwahaniadau strwythurol ac ariannol, yn ogystal â natur tymor byr y cyllid ar gyfer rhai prosiectau, yn creu rhwystrau rhwng gwasanaethau plant ac oedolion sy'n golygu bod trosglwyddo'n anoddach.

Hawl i leisio barn

71. Mae plant a phobl ifanc anabl yn llawer llai tebygol na rhai heb anabledau i gyfranogi ar unrhyw lefel, yn enwedig os oes ganddynt anghenion cymhleth neu ddull cyfathrebu di-eiriau'n unig. Yn ôl ymchwil, dim ond nifer bach o blant anabl sy'n chwarae rhan mewn penderfyniadau am eu gofal. Mae llawer o weithwyr proffesiynol heb ddeall, yn rhagdybio a/neu'n gosod gwerth annigonol ar fedrusrwydd plant anabl a'u gallu i gyfranogi.⁵⁷ Canfu ymchwil arall ei bod hi'n gyffredin i weithwyr proffesiynol gofnodi bod lefel y nam ar blentyn wedi golygu nad oedd modd gwybod beth oedd ei (d)dymuniadau.⁵⁸ Er gwaethaf dyletswyddau statudol newydd ar awdurdodau cyhoeddus i hybu agweddau cadarnhaol at bobl anabl a'u hannog i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus, mae tystiolaeth gyfyngedig o effaith y dyletswyddau hyn ar fywydau pobl anabl. Ac ar ben hynny, mae'r dyletswyddau hynny heb eu gweithredu gan nifer o awdurdodau.⁵⁹

72. Nid yw mynediad i wasanaethau therapi iaith a lleferydd o reidrwydd yn dibynnu ar yr angen, ond yn hytrach ar amrywiadau daearyddol yn argaeledd gwasanaethau, yn enwedig o ran asesu ac ymyrryd. Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau therapi fel rhan o'r strategaeth ymyrraeth gynnar gyffredinol a dylid ei gyflwyno mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar lle bynnag y bo modd. Nid oes strategaeth genedlaethol yn unrhyw un o wledydd y DU i gefnogi datblygiad sgiliau cyfathrebu i bob plentyn.

73. Nid yw cymorth bob amser ar gael i blant anabl wireddu eu hawl i fynegi barn. Dylai fod gan blant ag anawsterau cyfathrebu, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull cyfathrebu di-eiriau, hawl statudol i dderbyn cefnogaeth i gyfathrebu a chymhorthion cyfathrebu i sicrhau bod modd iddynt gyfranogi. Ar ben hynny, mae angen buddsoddi mewn cymhorthion cyfathrebu ac mewn hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer teuluoedd a staff iechyd a gofal cymdeithasol i'w galluogi i ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu technegol gymhleth a syml yn fedrus. Mae angen hefyd am hyfforddiant cydraddoldeb i'r anabl ar gyfer gweithwyr proffesiynol.

74. Er bod y Llywodraeth wedi dweud bod gwneud hynny'n arfer da,⁶⁰ methwyd â chynhyrchu dogfennau ymgynghori'n systematig ar draws y DU mewn fformat hygyrch. Dylid sicrhau mwy o ymrwymiad i gynhyrchu gwybodaeth mewn fformat hygyrch ar gyfer plant nad ydynt yn defnyddio cyfathrebu geiriol nac ysgrifenedig.

Ymreolaeth

75. Yn aml mae plant anabl yn destun lefelau uchel o oruchwyliaeth gan oedolion bob dydd. Er y gall peth o hyn fod yn angenrheidiol, gall fod yn arwydd bod rhieni a gweithwyr proffesiynol yn pryderu'n ormodol am y risgiau. Mae pobl ifanc yn aml yn cael bod presenoldeb parhaus oedolion yn rhwystr i'w cynhwysiad yn ogystal ag i'w gallu i greu cyfeillgarwch ac ymddwyn mewn modd priodol i'w hoedran.⁶¹

Iechyd a Lles Sylfaenol

Amddiffyniad

76. Amcangyfrifir bod plant anabl ryw deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin na phlant eraill.⁶² Fodd bynnag, mewn llawer o ardaloedd, nid yw systemau amddiffyn plant yn ymdrin â'u hanghenion penodol nhw. Weithiau ni sylwir ar bryderon ynghylch lles a diogelu oherwydd yr anawsterau wrth adnabod arwyddion camdriniaeth neu wrth gyfathrebu â rhai plant, neu oherwydd bod ymarferwyr yn amharod i gredu bod camdriniaeth yn digwydd.⁶³

77. Yn y DU, caiff 82% o'r plant ag anableddau dysgu eu bwlio.⁶⁴ Mae ymchwil yn awgrymu bod mwyafrif y plant hyn yn ofni mentro allan i'r parc neu fynd allan i'r stryd, tra soniodd traean ohonynt nad oedd dweud wrth oedolyn am y bwlio'n gwneud gwahaniaeth. Mae angen i athrawon fod yn fwy ymwybodol o fwlio sy'n gysylltiedig â phlant anabl a sut mae ymateb. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i ysgolion ar ymateb i fwlio plant ag anableddau ac anghenion addysgol arbennig.⁶⁵ Dylai'r gweinyddiaethau datganoledig ystyried cynhyrchu canllawiau tebyg. Mae Comisiynydd Gogledd Iwerddon wedi cynhyrchu canllawiau bwlio a seiliwyd ar ei hymchwil ynghylch plant anabl, y mae'r llywodraeth wedi bod yn amharod i'w gadarnhau.

Addysg

78. Mae mynediad i gefnogaeth addysgol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu gefnogaeth ychwanegol wedi cael ei ddiwygio'n ddeddfwriaethol ar draws y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn gyffredinol, trefn y broses yw bod y plentyn yn cael ei asesu, a bod gwasanaethau'n cael eu dyrannu o ganlyniad i hynny. Mae diffygion difrifol o ran safonau a chysondeb y ddarpariaeth, y broses asesu, mynediad teg i ysgolion a chanlyniadau.⁶⁶ Yn aml mae oedi gyda'r asesiadau a'r gwasanaethau dilynol oherwydd diffyg adnoddau. Mae pryderon mai dim ond y plant y mae eu rhieni yn eu mynnu sy'n derbyn gwasanaethau.

79. Mae plant ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion cefnogaeth ychwanegol yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol na disgyblion eraill.⁶⁷ Yn yr Alban, mae hyn yn fwy cyffredin mewn ysgolion prif ffrwd nag ysgolion arbennig, er mai disgyblion mewn dosbarthiadau arbennig mewn ysgolion prif ffrwd sydd â'r gyfradd isaf o waharddiadau. Mae hyn yn awgrymu y gellid lleihau nifer y gwaharddiadau mewn lleoliadau prif ffrwd drwy ddarparu cefnogaeth briodol.

80. Gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am berfformiad plant anabl mewn lleoliadau prif ffrwd. Yn yr Alban, roedd cyfrifiad disgyblion 2005 yn cynnwys gwybodaeth am fyfyrwyr anabl am y tro cyntaf, ond nid yw Arolwg Cyflawniad yr Alban yn cofnodi lefelau cyflawniad disgyblion anabl o hyd, ac nid yw'n cynnwys yr ysgolion arbennig o gwbl.

81. Er ein bod yn croesawu camau tuag at gynnwys plant anabl, rydym yn pryderu ynghylch y dehongliad o 'gynhwysiad' gan rai ysgolion prif ffrwd. Yn aml, gwelir cynhwysiad fel polisi annibynnol, yn hytrach nag fel rhan annatod o holl bolisiâu ac arfer yr ysgol (er enghraifft, sut dylid llunio teithiau ysgol neu glybiau ar ôl ysgol i gynnwys plant anabl).

Iechyd

82. Fel yn achos yr holl faterion a nodwyd uchod, mae mynediad i ofal iechyd arbenigol a chefnogaeth yn aml wedi'i seilio ar ble mae'r plentyn yn byw neu ar allu'r rhiant neu'r gofalwr i weiddi'n groch, yn hytrach nag ar anghenion y plentyn. Mae tystiolaeth o gydlynw gwael a phroblemau wrth ariannu gwasanaethau o ansawdd uchel.

83. Mae angen rhoi i blant a phobl ifanc, ar lefel gymesur â'u hoedran a'u gallu, elfen o ddewis ynghylch opsiynau triniaeth. Mewn un astudiaeth, roedd pobl ifanc yn eu harddegau ag anghenion iechyd cymhleth am fod yn destun ymgynghori fel hyn, a chael ystyried eu barn wrth wneud penderfyniadau, yn hytrach na'u hanwybyddu, fel roedd rhai yn teimlo oedd wedi bod yn digwydd.⁶⁸ Nid yw llawer o blant anabl yn cael cyfle i siarad â phobl ifanc eraill am eu profiadau o ddioddef o gyflwr penodol na chwaith am eu profiadau o fod yn anabl.⁶⁹

84. Mae tystiolaeth o wahaniaethu sefydliadol yn y GIG yn erbyn pobl ag anabledd dysgu, gan arwain at esgeulustod a gofal iechyd anghyfartal.⁷⁰ Nid yw'r GIG yn gwneud digon i sicrhau eu bod yn derbyn safon resymol o driniaeth.

85. Yng Ngogledd Iwerddon yn 2007, daeth tystiolaeth i'r amlwg a oedd yn tynnu sylw at leoli plant yn amhriodol dros gyfnodau hir (weithiau hyd at saith mlynedd) mewn wardiau ysbyty, pan oedd ganddynt anghenion cymdeithasol ac ymddygiadol, yn hytrach na rhai meddygol. Mae angen gweithredu ar frys mewn ymateb i'r amgylchiadau sydd wedi arwain at barhau i leoli'r plant hyn: dylid darparu adnoddau ar gyfer strategaeth a chynllun gweithredu i sicrhau nad yw plant yn y dyfodol yn cael eu lleoli'n amhriodol mewn gofal yn yr ysbyty am gyfnodau hir.

86. Mae llawer iawn o orgyffwrdd rhwng plant ag anableddau ac anghenion iechyd cymhleth, a'r rheiny y mae angen gofal lliniarol arnynt. Mae'n hollbwysig bod y gwasanaethau ar gyfer y plant hyn yn cael eu cynllunio gyda'i gilydd. Mae gwasanaethau gofal lliniarol ar gyfer plant wedi datblygu mewn modd heb ei gynllunio, gydag ariannu tymor byr ad hoc a mynediad cyfyngedig. Yn aml mae rhaid i deuluoedd plant sy'n dioddef cyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau neu'n eu bygwth ymladd i gael help a chefnogaeth.⁷¹

Tlodi

87. Mae plant sy'n dioddef yn sgîl anabledd mewn mwy o berygl o fyw mewn tlodi, gyda chwarter o'r holl blant sy'n byw mewn tlodi yn meddu ar riant anabl, a thros hanner y teuluoedd â phlant anabl yn byw mewn tlodi neu yn ymylu ar hynny.⁷² Canfu arolwg yn 2004 fod 6% o'r teuluoedd â phlant anabl yn dweud eu bod yn "gyfforddus" yn ariannol, tra bod 93% yn sôn am ryw fath o anhawster ariannol.⁷³

88. Mae mynediad i fudd-daliadau anabledd – yn sgîl dyfarnu Lwfans Byw i'r Anabl – yn gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer plant anabl. Fodd bynnag, mae'r diffyg gwybodaeth am y lwfans hwn, natur feichus y gwaith o'i hawlio a'r ailasesu, a'r stigma sydd ynghlwm wrth hawlio budd-daliadau i gyd yn cael effaith negyddol ar y nifer sy'n ei dderbyn. Dylai'r Llywodraeth symleiddio'r broses o gyflwyno cais am fudd-daliadau a chynnal ymgrych genedlaethol

Iechyd a Lles Sylfaenol

ynghylch eu hawlio mewn ymateb i'r niferoedd is sy'n eu derbyn o blith, er enghraifft, teuluoedd anabl o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae'n rhaid gwella dibynadwyedd y Lwfans a'r budd-daliadau cysylltiedig fel 'rhwyl ddiogelwch' ariannol. Dylai teuluoedd sy'n dewis gofalu am eu plant anabl dderbyn cefnogaeth ariannol ddigonol ac mae angen adolygu'r cyfraddau budd-dal ar gyfer teuluoedd â phlant anabl i weld a ydynt yn ddigonol.

89. Er gwaethaf strategaeth gofal plant genedlaethol, mae hygyrchedd a fforddiadwyedd gofal plant addas ar gyfer plant anabl yn dal yn rhwystr pwysig i rieni weithio. Gall gostio hyd at bum gwaith cymaint i ddarparu gofal plant ar gyfer plentyn anabl ag ar gyfer plentyn heb anabled. ⁷⁴ Er bod Deddf Gofal Plant 2006 yn gofyn bod awdurdodau lleol Cymru a Lloegr yn rhoi sylw arbennig i deuluoedd â phlant anabl wrth sicrhau bod lefel ddigonol o ofal plant yn eu hardal ar gyfer plant sy'n gweithio, nid yw'r Llywodraeth eto wedi cynhyrchu canllawiau ar sut dylid gweithredu'r ddyletswydd hon.

90. Croesawir y flaenoriaeth a roddir i'r mater hwn, ond mae'n rhaid i fesurau i fynd i'r afael â thlodi plant ystyried anghenion penodol plant anabl. Byddai dull arall o fesur tlodi plant (heblaw'r dull safonol o fesur incwm) sy'n ystyried costau ychwanegol magu plant anabl, yn dangos cyfraddau llawer uwch o dlodi difrifol ymhlith y teuluoedd hyn. Mae anabled plant yn aml yn 'sbarduno' tlodi, o ganlyniad i'r costau ychwanegol, yr ymranid teuluoedd a'r diweithdra a all ddigwydd yn sgîl genedigaeth neu ddiagnosis plentyn anabl.

91. Yn aml gwelir tlodi plant yn nhermau 'tlodi ariannol', ond mae tlodi o ran dyheadau yr un mor bwysig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i blant anabl a ddylai gael eu cefnogi i wireddu eu potensial a derbyn sicrwydd y byddant yn medru sicrhau mynediad cyfartal i addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a bywyd cymdeithasol a sifil.

Argymhellion

- **A54** Dylid casglu data ar nifer y plant y mae anabled yn effeithio arnynt a natur yr anabled. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gynllunio gwasanaethau yn fwy effeithiol ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd.
- **A55** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau cynlluniau i baratoi pobl ifanc anabl ar gyfer trosglwyddo i fywyd oedolyn (a gwasanaethau oedolion).
- **A56** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymchwilio i brofiadau plant anabl mewn ystod o leoliadau er mwyn asesu i ba raddau mae sefydliadau'n mabwysiadu polisiau ac arfer cynhwysol. Mae angen ymchwilio hefyd i ryngweithiad ystod o ffactorau cymdeithasol (megis dosbarth cymdeithasol, rhyw, hil, oedran, lleoliad daearyddol) a all effeithio ar brofiad plentyn o addysg a gwasanaethau eraill.

- **A57** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sefydlu trefniadau eiriolaeth ar gyfer plant anabl i ganiatáu clywed llais y plentyn ym mhob mater sy'n effeithio arno/arni, yn unol ag Erthygl 12.
- **A58** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymateb i'r bylchau mawr yn y gwasanaethau a ddarperir a'r canlyniadau ar gyfer plant ag anabledau.
- **A59** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig flaenoriaethu diogelu plant ag anabledau, a gwella systemau amddiffyn plant i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y plant hyn yn well.
- **A60** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wella'n sylweddol y gefnogaeth addysgol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion cefnogi ychwanegol. Rhaid ymateb hefyd i'r nifer mawr o blant ag anabledau sy'n cael eu wahardd o'r ysgol.
- **A61** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig fesur lefelau cyrhaeddiad plant anabl, nid yn unig o ran y graddau a gafwyd, ond i weld a ydynt yn symud tuag at wireddu eu potensial, fel y nodwyd yn Erthygl 29.
- **A62** Dylai Llywodraeth y DU symleiddio'r broses o wneud cais am fudd-daliadau anabled a gwella ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau hyn a'r nifer sy'n eu hawlio.
- Rydym yn ategu **Argymhelliad 32** uchod, y dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod plant y mae angen cymhorthion cyfathrebu arnynt fedru cyrchu cyfarpar o'r fath er mwyn derbyn eu hawliau o dan Erthygl 12 yn llawn.

Erthygl 24 (iechyd a gwasanaethau iechyd)

Anghydraddoldebau iechyd

92. Mae'r Comisiynwyr Plant yn croesawu'r flaenoriaeth a roddwyd gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ynghyd â'r buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau iechyd. Er gwaethaf hyn, mae'r anghydraddoldebau iechyd yn dal yn amlwg iawn, ac mewn rhai achosion mae'r bwlch yn ehangu. Er bod iechyd grwpiau tlotach wedi gwella yn ystod y tri degawd diwethaf, mae cyfradd y gwelliant wedi methu â chyfateb i'r hyn a gafwyd gan grwpiau mewn sefyllfa ariannol fwy cyfforddus. ⁷⁵ Mae'r cysylltiad rhwng anghydraddoldebau a thlodi ac amddifadedd yn dreiddiol, a chadarnhawyd hyn mewn adroddiad diweddar gan UNICEF, a oedd yn amlgu perfformiad gwael y DU o ran lles plant. ⁷⁶ Mae cyfradd marwoldeb plant bach yn y DU, er enghraifft, yn cymharu'n wael â gwledydd eraill yn y gorllewin. Er bod cyfradd marwoldeb plant bach yn y DU yn gyffredinol wedi bod yn gostwng, mae'r bwlch rhwng y grwpiau yn y sefyllfa orau a'r sefyllfa waethaf wedi ehangu o 13% i 19%. ⁷⁷

93. Mae smygu, yfed a defnydd problematig o gyffuriau i gyd yn fwy amlwg ymhlith plant a phobl ifanc o gefndir tlotach ⁷⁸ ac maent hefyd yn llawer mwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl na phlant o deuluoedd mwy cefnog. ⁷⁹ Mae tlodi ac anfantais hefyd yn cael effaith fawr ar lefelau gordewdra, deiet ac ymarfer corff. Amcangyfrifir bod rhyw filiwn o blant gordew o dan 16 oed yn

Iechyd a Lles Sylfaenol

y DU.⁸⁰ Mae gwella deiet plant a anwyd i deuluoedd tlotach yn anoddach oherwydd incwm annigonol a mynediad cyfyngedig i fwyd iach. Rydym hefyd yn pryderu ynghylch y cynnydd mewn marchnata i blant, sy'n amlwg yn eu hannog i fwyta cynnyrch bwyd afiach. Mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd sosioeconomaidd, mae'r cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff yn fwy tebygol o fod yn gyfyngedig; er enghraifft, efallai na fydd unman diogel i chwarae, dim cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau corfforol y tu allan i'r ysgol, a diffyg arian i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath.

94. Mae rhai grwpiau o blant mewn mwy o berygl o brofi anghydraddoldeb iechyd a chanlyniadau iechyd gwaelach. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a du (rhaid o deuluoedd â chefnidir Pacistani, Bangladeshi a Charibiaidd Du sy'n dweud eu bod yn dioddef yr iechyd gwaelaf); plant Sipsiwn a Theithwyr; plant a phobl ifanc sy'n troseddu; pobl ifanc ddigartref; plant sy'n ceisio lloches; pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, a phlant ag anabledau dysgu.

Mynediad i ofal iechyd

95. Yn y DU, gall mynediad i ofal iechyd ddibynnu ar ble mae plentyn yn byw. Mae hon yn broblem arbennig ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mewn llawer o ardaloedd, y cymunedau lle ceir yr angen mwyaf yw'r rhai lleiaf tebygol o dderbyn y gwasanaethau iechyd angenrheidiol. Mae tystiolaeth hefyd mai pobl mewn grwpiau sosioeconomaidd uwch sy'n fwyaf tebygol o elwa o ymyriadau iechyd, boed hynny'n ataliol neu'n therapiwtig.⁸¹ Mae hefyd anawsterau penodol ynghlwm wrth blant yn medru cyrchu rhai gwasanaethau megis deintydd neu wasanaethau iaith a lleferydd ar draws y DU. Mae diffyg difrifol hefyd o ran y gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys rhaglenni asesu, cefnogi a thriniaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Ar hyn o bryd mae'r ymateb i'r grŵp hwn ar lefel leol yn anghyson, gyda gwahanol systemau a pholisïau'n gweithredu mewn ardaloedd gwahanol heb fawr ddim datblygu ar y gwasanaethau arbenigol y mae eu hangen i ddiwallu eu hanghenion penodol.

96. O ystyried y rôl allweddol y gallant ei chwarae o ran hybu iechyd a lles plant rydym yn pryderu am y gostyngiad yn nifer y nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd a'r diffyg dull strategol o ymdrin â'r ddarpariaeth hon ym mhob un o bedair gwlad y DU.⁸²

97. Mae diffyg dull cydlynus o ddiwallu anghenion iechyd a chymdeithasol plant y mae gan eu rhieni broblemau camddefnyddio sylweddau a/neu iechyd meddwl ar draws y DU. Amcangyfrifir bod rhyw 250,000-350,000 o blant gan ddefnyddwyr cyffuriau problematig yn y DU; mae rhyw 1.3 miliwn o blant yn byw gyda rhieni sy'n camddefnyddio alcohol; ac mae gan ryw 450,000 o rieni broblemau iechyd meddwl.⁸³ Mae llawer o'r plant hyn yn gweithredu fel gofawyr ac mae'r ymateb i'w hanghenion gan weithwyr proffesiynol iechyd ac eraill yn anghyson. Mae'r maes hwn yn amlygu'r diffyg cyfathrebu effeithiol rhwng gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant. Er bod rhai datblygiadau cadarnhaol wedi digwydd ar draws y pedair gwlad, mae'n rhaid gwneud llawer mwy i ddiwallu anghenion y plant hyn.

Iechyd rhyw

98. Yn Lloegr, rydym yn croesawu strategaeth y Llywodraeth i leihau cyfradd beichiogrwydd yn yr ardegau: mae'r gyfradd ar y lefel isaf ers 20 mlynedd. Serch hynny, mae anghydraddoldeb difrifol yn parhau yng nghyfraddau beichiogrwydd yr ardegau, ac mae merched ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig dros bedair gwaith yn fwy tebygol o feichiogi na rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy ffyniannus.⁸⁴ Rhaid gwneud mwy i dargedu'r bobl ifanc hynny yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sydd mewn perygl o feichiogi yn eu harddegau. Yn wahanol i Loegr a Gogledd Iwerddon, nid oes strategaeth i ymdrin â beichiogrwydd yn yr ardegau yng Nghymru.⁸⁵

99. Rydym yn pryderu nad yw addysg iechyd, gan gynnwys addysg rhyw a pherthynas ag eraill, yn rhan orfodol o'r cwricwlwm.

Lloegr a Chymru

100. Mae'r Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru a Lloegr i'w croesawu. Er bod y fframweithiau yng Nghymru a Lloegr yn wahanol i ryw raddau, mae rhai problemau sy'n gyffredin i'r ddau, megis diffyg arian ychwanegol i'w rhoi ar waith. Heb ymrwymiad ariannol, mae'n aneglur sut y cyflawnir nodau'r fframweithiau. Mae'n anodd gweld sut y rhoddir yr un flaenoriaeth i ofal iechyd plant ag i oedolion, y caiff eu gofal iechyd ei sicrhau trwy dargedau ac arian ychwanegol.

Gogledd Iwerddon

101. Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 yn gofyn bod data'n cael ei gasglu fel mater o drefn ar y gwasanaethau a ddarperir i grwpiau o leiafrifoedd ethnig. Gwaetha'r modd, nid oes tystiolaeth o gynllunio o ganlyniad i gasglu data o'r fath wrth gomisiynu gwasanaethau. Ni chedwir ystadegau rhanbarthol fel mater o drefn ynghylch anghenion iechyd plant a phobl ifanc Teithwyr a rhai o leiafrifoedd ethnig. Mae bwlch yn parhau, felly, o ran sicrhau bod y ddarpariaeth a'r angen yn cyfateb i'w gilydd.

Yr Alban

102. Mae angen mwy o wasanaethau priodol ar gyfer eu hoed i rai yn eu harddegau. Ni ddylai pobl ifanc gael eu rhoi mewn wardiau oedolion, fel sy'n digwydd weithiau yn yr Alban. Yn fwy na hynny, mae pobl ifanc wedi dweud wrth y Comisiynydd nad ydynt am gael eu rhoi mewn wardiau gyda phlant ifanc iawn.

Argymhellion

- **A63** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau dull cydlynus ar draws holl adrannau'r llywodraeth o fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd a brofir gan blant a phobl ifanc. Mae angen mwy o gydlynus rhwng polisïau iechyd a rhai i leihau anghydraddoldeb incwm a thlodi.
- **A64** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod ymyraethau iechyd wedi'u targedu'n well at y grwpiau hynny o blant a phobl ifanc sy'n wynebu'r

Iechyd a Lles Sylfaenol

peryl mwyaf o anghydraddoldeb iechyd, canlyniadau iechyd gwael, ac sydd â mynediad cyfyngedig i wasanaethau iechyd.

- **A65** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd pob cam (gan gynnwys dyrannu adnoddau ychwanegol) i sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau gofal iechyd i blant.
- **A66** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig fel ei gilydd ddatblygu ymateb strategol, cydlynus i ddiwallu anghenion plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.
- **A67** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig fel ei gilydd ddatblygu dull cydlynus o ddiwallu anghenion plant y mae gan eu rhieni broblemau camddefnyddio sylweddau a/neu iechyd meddwl. Dylai'r holl wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc asesu effaith byw gyda rhieni sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau a/neu iechyd meddwl a rhoi gwasanaethau yn eu lle i ddiwallu eu hanghenion.
- **A68** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig fel ei gilydd ddatblygu strategaethau i ymateb i lefel uwch beichiogrwydd yn yr arddegau mewn ardaloedd difreintiedig. Dylai ymyraethau gydnabod y berthynas agos rhwng ymddygiad sy'n cynnwys risg (megis cyfathrach rywiol gynnar a defnyddio alcohol a chyffuriau) a sicrhau bod dull mwy cyfannol yn cael ei ddatblygu.
- **A69** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig fel ei gilydd beri bod addysg iechyd, gan gynnwys addysg rhyw a pherthynas ag eraill, yn statudol ofynnol ym mhob ysgol.

Iechyd meddwl

103. Mae iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn destun pryder parhaus i'r Comisiynwyr Plant ar draws y DU. Amcangyfrifir bod un o bob 10 plentyn rhwng 5 ac 16 oed yn dioddef o anhwylder meddyliol a gydnabyddir yn glinigol.⁸⁶ Mae tystiolaeth bod cyfraddau'r problemau iechyd meddwl yn tueddu i fod yn uwch ymhlith grwpiau o leiafrifoedd ethnig a du, rhai sy'n byw mewn tldi a rhai sydd yn y system cyfiawnder ieuencid. Mae'r grwpiau hyn yn fwy tebygol o brofi ffactorau risg sy'n gysylltiedig â iechyd meddwl gwael, megis amddifadedd, gwahaniaethu, a chyfleoedd gwael o ran addysg a chyflogaeth. Mae angen amlwg am sicrhau gwasanaethau iechyd meddwl cynhwysfawr ar gyfer plant a phobl ifanc (CAMHS), gyda digon o adnoddau, a hynny ar frys, gan gydnabod bod hybu iechyd meddwl yn gyfrifoldeb i bawb sy'n gweithio gyda phlant.

104. Er gwaethaf cryn fuddsoddiad ariannol yn Lloegr, mae prinder adnoddau i CAMHS o hyd ar draws y DU. Mae hyn yn golygu bod gwahaniaethau rhanbarthol yn y gwasanaeth a ddarperir, amserau aros hir, a diffyg gwasanaethau arbenigol sy'n gysylltiedig â phrinder cyfatebol yn y gweithlu arbenigol. Nid yw llawer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn asesiad yn nodi'r angen am ymyrraeth arbenigol yn derbyn triniaeth o gwbl, yn enwedig mewn rhai o'r meysydd mwy arbenigol megis:

- plant a phobl ifanc sy'n niweidio eu hunain;
- plant a phobl ifanc sydd ag anhwylderau bwyta;

- plant a phobl ifanc sydd wedi profi camdriniaeth; a
- phlant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.

105. Ar draws y DU, mae'r prinder gwelyau iechyd meddwl i bobl ifanc wedi golygu bod plant a phobl ifanc yn cael eu derbyn i wardiau oedolion neu i wardiau pediatrig cyffredinol i gael eu trin.⁸⁷ Mae lefel y gofal a gynigir i bobl ifanc ar wardiau oedolion yn anfodddhaol, wedi'i gynllunio'n wael, yn anniogel a heb ei fonitro'n ddigonol.⁸⁸ Gall y gofal ar ward bediatrig hefyd fod yn amhriodol.

106. Er bod rhai enghreifftiau o ymdrechion i fynd i'r afael â stigma materion iechyd meddwl (megis yr ymgyrch 'See Me' yn yr Alban), nid oes digon yn cael ei wneud i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o broblemau iechyd meddwl.

107. Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer darparu gofal iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn gymhleth a dryslyd, ac eto dim ond i rai plant y mae eiriolaeth ar gael (megis rhai y mae therapi electro gonfysliwn yn opsiwn ar gyfer eu triniaeth). Rydym yn credu y dylid sicrhau bod eiriolaeth, o leiaf, ar gael i bawb o dan 18 oed sy'n derbyn gofal iechyd meddwl fel claf mewnol.

Lloegr

108. Bu llawer o welliannau yn y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o wariant ar CAMHS a thargedau a safonau penodol gan y llywodraeth i gyflwyno gwasanaeth cynhwysfawr. Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi'n helaeth mewn ymyraethau newydd a blaengar megis triniaeth, gofal maeth, a chefnogaeth ddwys iawn ar gyfer merched ifanc sy'n famau am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae rhai plant a phobl ifanc yn dal i gael trafferth cyrchu gwasanaethau iechyd meddwl priodol. Mae tystiolaeth anecdotaidd nad yw lefel uchel yr angen yn cael ei diwallu'n llawn, a bod y gwasanaethau wedi lleihau rywfaint. Mae hyn yn tansellio honiad y Llywodraeth bod gwasanaeth iechyd meddwl cynhwysfawr i blant a phobl ifanc wedi cael ei gyflwyno ar draws y wlad.

109. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth i gynyddu nifer y gwelyau priodol ar gyfer y grŵp oedran hwn mewn ysbysai ac i ariannu ysgolion i weithio gydag ymarferwyr iechyd meddwl i wella lles emosiynol disgyblion. Er gwaethaf cydnabyddiaeth bod dull ysgol gyfan yn allweddol i hyrwyddo lles emosiynol, dylid edrych ar y buddsoddiad ychwanegol yng nghyd-destun prinder difrifol o nyrsg ysgol a fyddai'n chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o gefnogi pobl ifanc sy'n wynebu problemau. Dylai'r Llywodraeth sicrhau bod y targed o gael un nyrsg ysgol amser llawn ym mhob ysgol uwchradd a'i chlwtwr o ysgolion cynradd erbyn 2010 yn cael ei gyrraedd.

Cymru

110. Er bod gan Gymru strategaeth iechyd meddwl, mae'r ddarpariaeth CAMHS yn wynebu argyfwng, i raddau helaeth oherwydd diffyg arian. Mae plant Cymru'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl gwael o'u cymharu â phlant yn Lloegr. O ganlyniad i ganllawiau comisiynu Llywodraeth Cymru, nid oes CAMHS ar gael ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed oni bai eu bod mewn addysg amser llawn, ac nid oes gwarant y byddent yn medru cyrchu

Iechyd a Lles Sylfaenol

gwasanaethau i oedolion. Yn fwy na hynny, ni all plant a phobl ifanc y mae anabledd dysgu'n brif ddiagnosis iddynt gyrchu rhai CAMHS arbenigol.

111. Gan fod y data'n dangos bod cyfradd hunanladdiad ymhlith pobl ifanc 11-17 oed yng Nghymru dros ddwywaith beth ydyw yn Lloegr, rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd yn datblygu Strategaeth Hunanladdiad Genedlaethol.

112. Mae'n rhaid i blant a phobl ifanc o Gymru sydd â salwch meddwl gael eu lleoli y tu allan i Gymru, ymhell oddi cartref, ac fel arfer ni allant barhau i ddefnyddio'r Gymraeg na derbyn eu haddysg yn yr iaith honno. Un o amodau'r lleoliad yn aml yw eu bod yn cael eu cadw'n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn derbyn triniaeth, therapi a gwasanaethau.

113. Mae cryn amrywiaeth yn yr arian ar gyfer Timau Therapi Dwys Cymunedol (CITTs) sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn eu hardaloedd lleol. Mae diffyg arian ar gyfer CITTs mewn ardaloedd sy'n bell o unedau cleifion mewnol yn annealladwy, ac yn rhoi plant yn yr ardaloedd hynny mewn mwy o berygl.

Gogledd Iwerddon

114. Yng Ngogledd Iwerddon, mae gan hyd at 20% o'r bobl ifanc o dan 18 broblem iechyd meddwl,⁸⁹ er bod cyfran y gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn llai na 5% o'r gyllideb iechyd meddwl. Er gwaethaf adolygiad manwl a ariannwyd gan y llywodraeth ac a nododd wasanaethau iechyd meddwl cyfyngedig, gydag anghydraddoldeb daearyddol, ni wnaed cynnydd o ran datblygu cynllun gweithredu sy'n unioni lefel yr adnoddau.

115. Mae sgil-ffeithiau 20 mlynedd o wrthdaro wedi creu materion unigryw sy'n effeithio ar les plant a phobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon. Un o effeithiau niferus "Cyfnod y Cynnwrf" yw bod plant a phobl ifanc yn parhau i brofi digwyddiadau treisgar sylweddol ac yn sôn am lefelau straen llawer uwch na phlant yng ngweddill y DU. Er bod Cyfnod y Cynnwrf drosodd, mae gwrthdaro sylweddol yn parhau o fewn a rhwng cymunedau, sy'n aml yn arwain at gam-drin plant yn ddifrifol o ran eu lles corfforol, emosiynol a meddyliol. Gwaethygir hyn gan y diffyg gwasanaethau priodol i ymateb i hunan-niweidio a hunanladdiad, yn arbennig, ymhlith pobl ifanc Gogledd Iwerddon.

Yr Alban

116. Mae cyfraddau hunanladdiad pobl ifanc yn gostwng, ond mae angen parhau i fonitro'r rhain yn ofalus i sicrhau bod hynny'n parhau. Mae ymchwil yn awgrymu bod yr achosion o hunan-niweidio ar gynydd ymhlith pobl ifanc, ac yn tueddu i fod yn fwy cyffredin ymhlith merched.⁹⁰ Er gwaethaf amrywiaeth o fentrau atal hunan-niweidio yn yr Alban, bylchog fu'r driniaeth a'r gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.

Argymhellion

- **A70** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig fapio'r angen a'r gwasanaethau i sicrhau dyraniad priodol o adnoddau.
- **A71** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd pob cam angenrheidiol i gryfhau gwasanaethau iechyd meddwl a chwmsela, ac i sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn sensitif i bobl ifanc.
- **A72** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ddarparu adnoddau digonol a sicrhau bod gwasanaethau triniaeth priodol yn cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl, gan roi blaenoriaeth i'r rheiny sy'n hunan-niweidio, yn dioddef anhwylderau bwyta, wedi profi camdriniaeth a/neu sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.
- **A73** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ddarparu eiriolaeth annibynnol ar gyfer pawb o dan 18 sy'n derbyn gofal iechyd meddwl fel claf mewnol.
- **A74** Dylai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon neilltuo arian penodol i ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl priodol ar gyfer plant a phobl ifanc.

Erthygl 27 (safon byw)

Tlodi

117. Mae tlodi plant yn fater o bwys ar draws y pedair gwlad yn y DU, gyda'r cyfrannau canlynol o blant yn byw mewn tlodi: 29% yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, 28% yng Nghymru a 24% yn yr Alban.⁹¹ Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddod â thlodi plant i ben. Er y gwelwyd peth cynnydd, gyda 600,000⁹² o blant yn cael eu rhyddhau o dlodi rhwng 1998/99 a 2005/06, rydym yn pryderu bod y ffigurau diweddaraf yn dangos cynnydd o 200,000⁹³ o blant mewn tlodi ers y flwyddyn flaenorol. Mae'n annerbyniol bod gwlad mor gyfoethog â'r DU yn cynnwys 3.8 miliwn o blant (un o bob tri) sy'n byw mewn tlodi cymharol.⁹⁴ Mae bron 1.3 miliwn o blant yn byw mewn tlodi difrifol yn y DU, ac mae tebygolrwydd cymharol uchel o dlodi difrifol ymhlith plant sy'n byw yn Llundain, Cymru a Gogledd Iwerddon.⁹⁵ Rhaid gwneud llawer mwy i ddod â thlodi plant i ben ar draws y DU. Fodd bynnag, dylid nodi mai Llywodraeth y DU sy'n aml yn cario'r ddyletswydd o ran y mater hwn: nid yw'r holl faterion sy'n effeithio ar lefelau tlodi plant o fewn meysydd gallu'r gweinyddiaethau datganoledig, er enghraifft, treth a budd-daliadau plant.

118. Canfu adroddiad UNICEF diweddar fod y DU yn agos at y gwaelod o'i gymharu â gwledydd eraill yn y gorllewin o ran tlodi cymharol ac amddifadedd, ansawdd perthynas plant â'u rhieni a'u cyfoedion, iechyd a diogelwch plant, eu hymddygiad a'r risgiau maent yn eu cymryd a'u lles.⁹⁶

119. Bu Llywodraeth y DU yn canolbwyntio'n bennaf ar alluogi mwy o rieni i weithio, ond nid yw hynny'n cydnabod yn ddigonol hyd a lled tlodi'r rhai sydd mewn gwaith. Mae mwy o blant tlawd ar

Iechyd a Lles Sylfaenol

aelwydydd lle mae un rhiant neu fwy yn gyflogedig (54% o'r plant tlawd) nag ar aelwydydd lle mae'r rhieni'n ddi-waith.⁹⁷ Rhaid i'r strategaeth wneud mwy i wella ansawdd cyflogaeth (gan gynnwys lefelau cyflog uwch, cynaliadwyedd a dilyniant) a darparu mwy o gefnogaeth i alluogi rhieni i gydbwyso gwaith a gofal, er enghraifft, darparu mwy o ofal plant.⁹⁸ Mae dull y Llywodraeth yn amhriodol ar gyfer lleiafrif sylweddol o rieni na allant weithio naill ai oherwydd eu hiechyd gwael eu hunain, anabled, neu anghenion gofal eu plant. Mae mynediad i fudd-daliadau digonol sy'n diogelu'r teuluoedd hyn rhag tlodi yn hanfodol ac mae angen mwy o fuddsoddi er lles y rheiny sy'n methu â gweithio.

120. Nid yw strategaeth y Llywodraeth i ddod â thlodi plant i ben wedi'i dargedu'n ddigonol at y grwpiau hynny o blant sydd yn y perygl mwyaf o ddiodeff tlodi ac yn diodeff y tlodi mwyaf difrifol, yn arbennig, plant o leiafrifoedd ethnig a du, plant mewn teuluoedd mawr, teuluoedd un rhiant, plant ag anabledau a phlant rhieni anabl, plant Sipsiwn a Theithwyr, plant sy'n gadael gofal a cheiswyr lloches.⁹⁹

121. Ar ben hynny, nid yw'r Llywodraeth wedi rhoi digon o sylw i blant sy'n byw mewn tlodi yng nghefn gwlad. Mae plant y wlad yn wynebu rhwystrau ychwanegol a all waethygu eu profiad o dlodi, er enghraifft, diffyg gwasanaethau hanfodol a thai fforddiadwy neu drafferth yn eu cyrchu, gwaith dros dro a rhan amser, a diffyg cludiant cyhoeddus. Mae angen atebion penodol ar gyfer ardaloedd cefn gwlad.

122. Nid yw dull y Llywodraeth o ddod â thlodi plant i ben wedi cael llawer o effaith ar lefelau anghydraddoldeb yn y wlad hon, yn enwedig o ran incwm, iechyd ac anghydraddoldeb addysg. Yn ôl y dystiolaeth, mae anghydraddoldeb incwm wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n dal yn uchel yn y DU o'i gymharu â'r sefyllfa hanesyddol.¹⁰⁰ At ei gilydd, talodd teuluoedd tlawd gyfran uwch o'u hincwm mewn treth na theuluoedd cyfoethog. Ar ben hynny, mae'r teuluoedd tlotaf yn talu £1,000 yn ychwanegol ar gyfartaledd am hanfodion megis nwy, trydan a gwasanaethau banc.¹⁰¹ Mae tlodi tanwydd yn broblem fawr ar draws y DU, ac mae dwy filiwn o aelwydydd yn diodeff ohono.¹⁰² Er bod gan bob gwlad yn y DU strategaeth benodol ar dlodi tanwydd, a'u bod wedi'u cytuno o dan Strategaeth Tlodi Tanwydd y DU, mae angen gwneud mwy o gynnydd.

123. Gall addysg chwarae rhan hollbwysig wrth leihau anghydraddoldeb a lefel y stigma sy'n gysylltiedig â thlodi plant. Dylid cynyddu'r adnoddau ar gyfer yr ysgolion y mae'r plant tlotaf yn mynd iddynt i sicrhau eu bod yn cael yr athrawon gorau, ac arweinyddiaeth a chyfleusterau da. Mae tlodi nid yn unig yn effeithio ar fynediad plant i fyd addysg a'u cyfranogiad ynddo, ond hefyd ar eu mynediad i weithgareddau ehangach sy'n cynnwys manau chwarae yn yr awyr agored, cyfleusterau hamdden ac adloniant, a gwyliau.

124. Bu tuedd sy'n peri pryder i bennu amodau a sancsiynau yng nghyd-destun hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol, gan gynnwys cynigion i dynnu budd-dal yn ôl¹⁰³ a chosbi rhieni am ymddygiad eu plentyn, er enghraifft, drwy ddirwyo rhieni neu eu

rhoi yn y carchar oherwydd nad yw eu plentyn yn mynd i'r ysgol.¹⁰⁴ Mae hyn yn gwrthdaro â nod y Llywodraeth o ddileu tlodi plant gan fod y camau hyn yn cael mwy o effaith ar deuluoedd tlawd neu rai sydd mewn perygl o fod yn dlawd.

Mesur tlodi

125. Yn 2003, newidiodd dull y Llywodraeth o fesur tlodi plant i gynnwys incwm isel absoliwt, incwm cymharol isel a chyfuniad o amddifadedd faterol ac incwm isel.¹⁰⁵ Mae'r mesurau newydd hyn yn dibynnu'n llwyr ar y ffigurau incwm cyn cyfrif costau tai. Mae mwy o blant yn bodloni'r diffiniad ar gyfer tlodi ar ôl cyfrif costau tai na chyn hynny, gan fod costau tai yn elfen mor fawr a sefydlog o wariant y teulu. Bu i'r newid hwn yn null y Llywodraeth o fesur ostwng nifer y plant oedd yn bodloni'r diffiniad o dlodi ar unwaith.

126. Mae pryder hefyd bod y Llywodraeth wedi newid sut bydd yn barnu ei llwyddiant wrth ddileu tlodi plant, ac ymddengys nad yw hynny bellach yn golygu sicrhau nad oes unrhyw blant tlawd o gwbl. Nod y Llywodraeth nawr yw lleihau cyfradd tlodi cymharol plant er mwyn bod "ar y brig yn Ewrop".¹⁰⁶ Yn ymarferol, gallai hyn olygu bod hyd at 1.2 filiwn o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol, a gallai'r Llywodraeth ddal i honni ei bod wedi dileu tlodi plant.¹⁰⁷

Gogledd Iwerddon

127. Mae Comisiynydd Gogledd Iwerddon wedi mynegi pryderon ynghylch y gwahaniaethau rhwng Gogledd Iwerddon a gweddill y DU. Mae cost gofal plant, tanwydd i'r cartref a bwyd sylfaenol gryn dipyn yn uwch nag yng ngweddill y DU. Yn 2004, roedd 24% o'r cartrefi yng Ngogledd Iwerddon yn diodeff o dlodi tanwydd, o'u cymharu â 9% yn rhanbarthau Lloegr. Mae'r Comisiynydd yn pryderu'n arbennig am annigonoldeb a natur tymor byr yr ariannu. Er enghraifft, yng Ngogledd Iwerddon y mae'r ddarpariaeth isaf o ofal plant yn Ewrop, ac mae cyfleusterau hollbwysig ar ôl ysgol mewn perygl o gau oherwydd diffyg ariannu, a fyddai'n cael effaith niweidiol ar deuluoedd incwm isel ac un rhiant. Ar ben hynny, mae 30 mlynedd o wrthdaro wedi cael effaith sylweddol ar dlodi plant yng Ngogledd Iwerddon, ac mae angen cymryd camau arbennig yn awr i wneud iawn am y diffyg isadeiledd a buddsoddiad.

Argymhellion

- **A75** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r eithaf i ddileu tlodi plant. O fewn y grantiau bloc a roddwyd i'r gweinyddiaethau datganoledig, dylai arian gael ei ddyrannu i ddileu tlodi plant.
- **A76** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig adolygu eu dull o ddileu tlodi plant a sicrhau eu bod yn ymdrin â materion tlodi'r rhai sy'n gyflogedig a thlodi'r ardaloedd gwledig. Rhaid iddynt ddarparu mesurau diogelu digonol ar gyfer y rheiny sy'n methu gweithio a sicrhau bod y plant hynny sydd yn y perygl mwyaf o ddiodeff tlodi a'r rheiny sy'n diodeff y tlodi mwyaf difrifol yn cael eu blaenoriaethu a'u targedu.

- **A77** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymdrin ag achosion strwythurol tlodi, gan gynnwys y lefelau anghydraddoldeb uchel (er enghraifft, incwm, iechyd, anghydraddoldebau addysg) yn y DU.
- **A78** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod y mesurau tlodi plant yn cynnwys cyfraddau tlodi ar ôl cyfrif costau tai.
- **A79** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau nad yw polisïau a deddfwriaeth yn gwahaniaethu ymhellach yn erbyn teuluoedd tlawd nac yn eu gwthio ymhellach i dlodi. I wneud hynny, dylid gwirio effaith pob deddfwriaeth a pholisi ar dlodi.
- **A80** Mae angen adolygu'r buddsoddiad yn yr isadeiledd o fewn pob awdurdodaeth i sicrhau bod adfywio economaidd yn cefnogi'r ardaloedd y mae tlodi'n effeithio arnynt.

52. I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd chwarae a hamdden i blant ag anableddau, gweler para 148.
53. Y Cyngor dros Blant Anabl. Parliamentary hearings on services for disabled children (2006).
54. Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. The Children's Plan: building brighter futures (2007).
55. Y Cyngor dros Blant Anabl. Services for Disabled Children (2006).
56. Y Comisiwn er Arolygu Gofal Cymdeithasol. Growing up matters: better transition planning for young people with complex needs (2007).
57. Franklin, A a Sloper, P. Participation of disabled children and young people in decision-making relating to social care (2007).
58. Stuart, M. a Baines, C. Progress on safeguards for children living away from home (2004).
59. Swyddfa Materion Anabled. Public Bodies' response to the Disability Equality Duty (2007).
60. Yr Adran Addysg a Sgiliau. Let's make it accessible: improving government information for disabled people (2001).
61. Plant yn yr Alban. Access all areas: what children and young people think about accessibility, inclusion and additional support at school (2007).
62. NSPCC. It doesn't happen to disabled children: child protection and disabled children (2003).
63. Y Comisiwn er Arolygu Gofal Cymdeithasol. Safeguarding Children: The Second Joint Chief Inspectors' Report on Arrangements to Safeguard Children (2005).
64. Mencap. Bullying wrecks lives: the experiences of children and young people with a learning disability (2007).
65. Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. The Children's Plan (2007).
66. Y Cyngor dros Blant Anabl. Services for Disabled Children (2006).
67. Ystadegau Gwladol Gweithrediaeth yr Alban. Gwaharddiadau o Ysgolion 2005/06 (2007).
68. Stalker, K. ac eraill. Care and treatment? Supporting children with complex needs in healthcare settings (2003).
69. Y Cyngor dros Blant Anabl. Services for Disabled Children (2006).
70. Mencap. Death by indifference (2007).
71. Yr Adran Iechyd. Palliative care services for children and young people in England (2007).
72. Preston, G. a Robinson, M. Out of reach: benefits for disabled children (2006).
73. Harrison, J. a Woolley, M. Debt and disability: the impact of debt on families with disabled children (2004).
74. Every Disabled Child Matters. Between a rock and a hard place (2006).
75. White, C., Van Galen, F. a Chow, Y.H. 'Trends in social class difference in mortality by cause 1986 to 2000' Health Statistics Quarterly 20: 25-37 (2003).
76. UNICEF Canolfan Ymchwil Innocenti. Child poverty in perspective: an overview of child well-being in rich countries (2007).
77. House of Commons Hansard, Atebion Ysgrifenedig ar gyfer 25/10/2006, ymateb gan y Gweinidog Iechyd Cyhoeddus, Caroline Flint, Colofn 1961W.
78. Bwrdd Gwyddoniaeth ac Addysg Cymdeithas Feddygol Prydain. Adolescent health (2003).
79. Meltzer ac eraill. The mental health of children and adolescents in Great Britain (2000).
80. Bwrdd Gwyddoniaeth Cymdeithas Feddygol Prydain. Preventing childhood obesity (2005).
81. Nocon, A. Background Evidence for the DRC's Formal Investigation into Health Inequalities Experienced by People with Learning Disabilities or Mental Health Problems, Disability Rights Commissioner (2004).
82. Yr Adran Iechyd. Facing the future: a review of the role of health visitors (2007); Royal College of Nursing. School nurses: results from a census survey of RCN school nurses in 2005 (2005).
83. Tasglu Eithrio Cymdeithasol. Reaching out: think family (2007).
84. Yr Adran Addysg a Sgiliau. Teenage conception statistics for England 1998-2005 (2007).
85. Yn yr Alban, mae beichiogrwydd yn yr ardegau yn rhan o strategaeth iechyd rhyw cyffredinol (Gweithrediaeth yr Alban. Respect and Responsibility: a strategy and action plan for improving sexual health (2005).
86. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Survey of the mental health of children and young people in Great Britain (2004).
87. Gweithrediaeth yr Alban. Admission of young people for treatment of mental disorder to adult mental health wards, paediatric wards and general medical wards', HDL (2005) 55.
88. Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Pushed into the shadows: young people's experiences of adult mental health facilities (2006).
89. Y Prif Swyddog Meddygol. Health of the public in Northern Ireland: report of the Chief Medical Officer 1999 (1999).
90. O'Connor ac eraill. Deliberate self-harm in adolescents: self-report survey in schools in Scotland (i ddod).
91. Cymru a Lloegr: Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Households below average income 2003-04 to 2005-06 (2007); Gogledd Iwerddon: Adran Datblygiad Cymdeithasol. Households below average income, Northern Ireland, 2005/06 (2007); Yr Alban: Gweithrediaeth yr Alban. Scottish households below average income 2005/06 (2007).
92. Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Working for children (2007). Mae'r ffigur o 600,000 wedi'i seilio ar y niferoedd cyn tynnu costau tai.
93. Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Households below average income - 1994/95 to 2005/06 (2007). Mae'r ffigur o 200,000 wedi'i seilio ar y niferoedd ar ôl tynnu costau tai.
94. Diffinnir tlodi cymharol fel aelwydydd sy'n derbyn llai na 60% o'r incwm cyfartalog gan gynnwys costau tai. Mae'r ffigur hwn yn fwy cywir gan ei fod yn dangos faint o incwm sydd dros ben gan bobl ar ôl talu costau tai, sydd yn uchel iawn mewn sawl rhan o'r wlad. Cyn costau tai, roedd 2.8 miliwn o blant ar lai na 60% o'r incwm cyfartalog yn 2005/06.
95. Magadi, M. a Middleton, S. Severe child poverty in the UK (2007).
96. UNICEF Canolfan Ymchwil Innocenti. Overview of child well-being (2007).
97. Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Households below average income - 1994/95 to 2004/05 (2006).
98. Cooke, G a Lawton, K. Working out of poverty (2008).
99. Preston, G. (gol.). At greatest risk: the children most likely to be poor (2005).
100. Jones, F. The effects of taxes and benefits on household income 2004-05 (2007).
101. Cymdeithas Lles y Teulu ac Achub y Plant. The poverty premium: How poor households pay more for essential goods and services (2007).
102. Defra & DTI. The UK Fuel Poverty Strategy: fourth annual progress report (2006).
103. Mae Adran 31 o Ddeddf Diwygio Lles 2007 yn sefydlu cynllun peilot dwy flynedd i leihau budd-dal tai neu ei dynnu'n ôl yn achos teuluoedd sy'n cael eu troi allan am ymddygiad gwrthgymdeithasol.
104. Yn Lloegr er enghraifft, ers 2004/05, cyflwynwyd 23,925 o rybuddion cosb i rieni nad oedd eu plant yn mynychu'r ysgol (Ateb Ysgrifenedig Tŷ'r Cyffredin, 22 Tachwedd 2007). Nid yw'r Llywodraeth yn casglu data ar nifer ac amgylchiadau'r rhieni sy'n mynd i'r carchar oherwydd triwntiaeth eu plant.
105. Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Measuring child poverty (2003).
106. Ibid, t.20, para 71.
107. Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. Response to Department of Work and Pensions New Child Poverty Measures (2003).

Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwylliannol

Erthygl 28 (addysg) ac Erthygl 29 (nodau addysg)

Addysg

128. Mae addysg yn rhan allweddol o fywydau plant ac yn un o'r pynciau trafod cyson rhwng y Comisiynwyr a phlant a phobl ifanc. Serch hynny, ni welir plant o hyd fel cyfranogwyr allweddol ym myd addysg; mae trafodaethau ynghylch gwella addysg yn aml yn troi o amgylch oedolion, heb gynnwys plant a'u barn. Rydym hefyd yn pryderu bod anghydraddoldebau yn parhau ym myd addysg, er gwaethaf cryn fuddsoddi mewn addysg ar draws y DU. Mae mynediad i addysg ddigonol o ansawdd yn dal yn broblem ar gyfer grwpiau penodol (megis plant Sipsiwn a Theithwyr, plant o fewn y system cyfiawnder plant a phlant mewn gofal).

Anghenion dysgu ychwanegol

129. Mae'r system addysg yn methu â diwallu anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion cefnogi ychwanegol. Yn arbennig, nid yw'n ymdopi â'r niferoedd cynyddol o blant sydd ag awtistiaeth ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol. Mae plant â nam ar y synhwyrau hefyd yn profi diffyg cymharol o ran mynediad i ddeunydd addysgol. Dangosodd adroddiad diweddar mai dim ond 12% o'r gwerslyfrau mathemateg ac 8% o'r rhai gwyddoniaeth ar gyfer TGAU sydd ar gael mewn print bras neu Braille.¹⁰⁸ Heb y gwerslyfrau hyn, ni all disgyblion dall a rhai â golwg rhannol gyflawni eu potensial addysgol llawn. Er bod y Llywodraeth yn Lloegr wedi cynyddu'r buddsoddiad mewn anghenion addysgol arbennig (AAA) yn sylweddol, gall cyflwyno data perfformiad ysgol mewn tablau cynghrair olygu nad yw rhai ysgolion am dderbyn plant ag AAA.¹⁰⁹

Gwaharddiadau

130. Mae anghydraddoldeb hefyd yn amlwg yn y cyfraddau gwahardd o'r ysgol ac mae cysylltiad clir rhwng anfantaes gymdeithasol, yn cynnwys tlodi, a gwaharddiadau. Mae'r cyfraddau gwahardd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion sy'n Sipsiwn neu'n Deithwyr, neu sydd o gefndir Du Caribiaidd, Du Arall, neu Wyn/Du Caribiaidd.¹¹⁰ Yn yr Alban, o 2005/06 i 2006/07, cododd cyfanswm y gwaharddiadau o holl ysgolion yr awdurdodau lleol (cynradd ac uwchradd) i 44,794, cynnydd o 4%.¹¹¹

131. Mae disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig dros deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd yn barhaol¹¹² ac mae plant mewn gofal ddeg gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd o'r ysgol na gweddill poblogaeth yr ysgolion. Er bod gan blant a phobl ifanc yng Nghymru a'r Alban hawl i apelio yn erbyn gwaharddiad, nid yw hynny'n wir yn achos plant yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn ystod y broses wahardd, mae diffyg mynediad i gynrychiolaeth, ac ni rennir gwybodaeth ddigonol gyda'r plentyn na'r teulu.

132. Er gwaethaf dyletswyddau cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i sicrhau bod addysg plentyn yn parhau ar hyd cyfnod y gwaharddiad, yn ymarferol, mae mynediad i addysg amser llawn yn broblematic i ddisgyblion a waharddwyd. Mae canllawiau'r llywodraeth ac awdurdodau lleol yn rhoi cryn bwysau ar ysgolion i osgoi defnyddio gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol fel cosb, ac mae hyn wedi arwain at yr arfer

anghyfreithlon o ddarbwylllo rhieni i gadw eu plentyn gartref. Gan nad oes gweithdrefn apelio gysylltiedig nac addysg amgen ar gael, mae'r arfer hwn yn golygu nad yw llawer o blant yn medru arfer eu hawl i dderbyn addysg.

Y targedau sy'n gyrru byd addysg

133. Mae'r ffocws ar brofion ffurfiol a thablau cynghrair perfformiad ysgolion ar sail graddau yn Lloegr a dethol academaidd yn 11 oed yng Ngogledd Iwerddon yn rhoi cyflawnwyr academaidd isel a phlant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol cymhleth dan anfantaes.¹¹³ Er ein bod yn croesawu'r ddyletswydd a roddwyd ar ysgolion yng Nghymru a Lloegr i ddiogelu a hybu lles disgyblion, rhaid i'r Llywodraeth roi blaenoriaeth i ymateb i effeithiau andwyol profion ar blant, gan gynnwys y ffaith eu bod yn cynyddu pryder a straen.¹¹⁴

Plant yn y ddalfa

134. Nid oes gan blant sydd yn y ddalfa yn Lloegr, Cymru, a Gogledd Iwerddon hawl statudol cyfartal i addysg. Mae troseddwy'r ifanc deirgwaith yn fwy tebygol o feddu ar sgiliau sylfaenol gwaelach na phobl ifanc eraill yr un oedran, ac maent yn colli'r ddarpariaeth addysgol a addawyd o dan ddatganiad o AAA yn y ddalfa.¹¹⁵ Mewn sefydliadau i droseddwy'r ifanc, mae rhyw 25% o'r bobl ifanc yn derbyn llai na 15 awr o addysg, a rhyw 15% yn derbyn 15 i 20 awr. Ni all plant o Gymru sydd yn y ddalfa yn Lloegr gyrchu cwricwlwm cenedlaethol Cymru, ac anaml y gallant dderbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ymyrryd â'u hawl i gael parchu eu hunaniaeth ddiwylliannol, er bod Prosiect Dysgu Troseddwy'r Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud peth cynnydd o ran sicrhau bod sefydliadau caeth yn Lloegr yn ymdrin ag addysg pobl ifanc o Gymru.

Plant mewn gofal

135. Mae plant mewn gofal yn derbyn canlyniadau addysgol gwael yn gyson: yn Lloegr, er enghraifft, dim ond 12% gafodd o leiaf pum gradd TGAU A*-C (o'i gymharu â 59% o'r holl blant) ac maent wedi'u gorgynrychioli ymhlith y plant ag AAA, yn ogystal â'r rheiny sydd wedi'u gwahardd yn barhaol.¹¹⁶ Rydym yn croesawu cynigion y llywodraeth i wella cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr a'r Alban.¹¹⁷ Dylid mabwysiadu mentrau tebyg gyda'r nod o wella'r canlyniadau addysgol hyn yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

136. Yn aml nid yw plant mewn gofal cyhoeddus sy'n mynd ymlaen i addysg bellach ac uwch yn derbyn yr un gefnogaeth â phobl ifanc eraill ac maent yn wynebu ansicrwydd (e.e. ynghylch llety) yn ystod cyfnodau gwyliau. Er bod cyrhaeddiad academaidd yn bwysig ar gyfer plant mewn gofal cyhoeddus, dylid datblygu dangosyddion neu fesuriadau ehangach ar gyfer llwyddiant.

Bwlio

137. Mae llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi cynnal a chefnogi sawl menter a luniwyd i ymateb i fwlio. Serch hynny, mae'n parhau'n bryder allweddol i blant a phobl ifanc. Er enghraifft, mewn arolwg cenedlaethol o blant gan Gomisiynydd yr Alban ynghylch y materion pwysicaf iddynt, bwlio ddaeth yn ail.

Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwylliannol

Mae pob un o'r Comisiynwyr yn derbyn ymholiadau neu gwynion ynghylch bwlio yn rheolaidd, gan gynnwys athrawon yn bwlio disgyblion, ac ansicrwydd rhieni ynghylch beth i'w wneud pan yw'r mater wedi cael ei godi a'i gydnabod gan yr ysgol, ond dyw'r sefyllfa ddim yn gwella.

Lloegr

138. Mae Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn destun pryder mawr, gan ei fod yn cadarnhau gallu athrawon i ddefnyddio grym corfforol i atal neu reoli disgyblion. Lle bo disgyblion yn profi lefel uchel o wrthdaro, mae'n bwysig bod yr ymateb yn systematig ac yn drefniadol, yn ystyried cynhwysedd yr amgylchedd dysgu, ac nad yw'n canolbwyntio ar ymddygiad disgyblion unigol yn unig.

139. Mae llawer iawn o blant yn Lloegr nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (rhyw 10% ar ddiwedd 2006). Er ein bod, o ran egwyddor, yn croesawu cynlluniau'r Llywodraeth i godi oedran cyfranogiad statudol mewn addysg a hyfforddiant i 18, rydym yn pryderu am y mesurau y gellid eu defnyddio i gosbi plant nad ydynt yn rhan o fyd addysg a hyfforddiant.

Gogledd Iwerddon

140. Un o nodweddion amlycaf system addysg Gogledd Iwerddon yw'r lefel uchel o arwahanu crefyddol. Ar hyn o bryd, mae rhyw 5% o'r disgyblion yn mynd i ysgolion integredig a gynlluniwyd. Mae mwyafrif llethol y disgyblion yn derbyn eu haddysg mewn ysgolion sydd, at bob diben ymarferol, yn unfurf Brotestanaidd neu Gatholig. Er gwaethaf argymhelliad y Pwyllgor yn 2002, ni fu cynnydd o bwys yn y gyllideb a ddyrannir ar gyfer ysgolion integredig. Ar ben hynny, o ran argymhelliad y Pwyllgor ynghylch "mesurau a chymhellion priodol i hwyluso sefydlu ysgolion integredig", dylid nodi na roddwyd polisi strategol ar waith i fynd ati i gynyddu nifer yr ysgolion integredig. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y cynllunio ar gyfer ysgolion integredig yn ymateb i'r galw gwirioneddol yn hytrach na'r galw a ragwelir.

Yr Alban

141. O dan adran 2(2) o Ddeddf Safonau yn Ysgolion yr Alban 2000, rhaid i awdurdodau addysg ystyried barn y plentyn neu'r person ifanc wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio'n sylweddol arno/arni. Fodd bynnag, mae llawer o'r ymholiadau y mae'r Comisiynydd yn eu derbyn yn awgrymu nad yw hyn bob amser yn digwydd. Yn aml ni chaiff plant a phobl ifanc eu cynnwys yn effeithiol wrth gynllunio ysgolion newydd, ac mewn rhai achosion bu diffygion yn y dyluniad. Yn aml nid yw'r cyfleusterau'n gwbl addas at y diben, ac felly maent yn llesteirio mynediad i addysg a chwaraeon a chyfranogiad ynddynt.

Argymhellion

- **A81** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd camau pellach i sicrhau bod plant yn cymryd rhan yn llawn mewn addysg a bod eu hawl i fynegi barn yn cael ei pharchu ac yn derbyn sylw dyledus ym mhob mater sy'n ymwneud â'u haddysg, gan gynnwys disgyblaeth yn yr ysgol.
- **A82** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ddeddfu fel bod gwahardd o'r ysgol yn digwydd dim ond wedi i bopeth arall fethu, ac am y cyfnod byrraf posib. Dylai plant gael hawl i wrandawriad cyn eu gwahardd, yn eu gwrandawriad gwahardd, ac i apelio yn erbyn eu gwaharddiad. Dylid gwarantu bod plant sy'n cael eu gwahardd yn medru cael mynediad i addysg amser llawn.
- **A83** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd pob cam angenrheidiol i ddileu anghydraddoldebau o ran cyflawniad addysgol a chyfraddau gwahardd, a gwarantu addysg briodol o ansawdd i bob plentyn. Bydd hyn yn cynnwys ymateb i ffocws addysg yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar dargedau a phrofion.
- **A84** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod plant sydd yn y ddalfa yn derbyn hawl statudol gyfartal i addysg, a gwella addysg i blant sydd mewn gofal.
- **A85** Yng Ngogledd Iwerddon, dylai'r Weithrediaeth ddisodli'r broses ddeddf academaidd i blant 11 oed â system decach sy'n anrhydeddu hawl pob plentyn i gael addysg.
- **A86** Dylai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon weithredu argymhelliad y Pwyllgor yn 2002 i gynyddu'r gyllideb a threfnu mesurau a chymhellion priodol i hwyluso sefydlu ysgolion integredig ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon.

Erthygl 31 (gorffwys, hamdden, adloniant a gweithgareddau diwylliannol ac artistig)

Chwarae

142. Mewn ymateb i'r farn a fynegwyd gan blant a phobl ifanc ynghylch diffyg cyfleusterau chwarae a hamdden, mae pedwar Comisiynydd y DU, fel ei gilydd, naill ai wedi ymchwilio i'r maes hwn neu wedi cynnwys chwarae neu "rywbeth i'w wneud" fel maes blaenoriaeth allweddol ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

143. Bu rhai datblygiadau cadarnhaol ym maes chwarae. Er enghraifft, yn Lloegr, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fuddsoddi'n sylweddol er mwyn creu rhagor o fannau diogel i blant chwarae, ac mae'n datblygu strategaeth chwarae. Yng Ngogledd Iwerddon bu ymgais gyntaf i ddatblygu strategaeth chwarae. Yn 2002, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Bolisi Chwarae yn 2002 a oedd wedi'i wreiddio'n gadarn yn CCUHP. Yn yr Alban, ni fu ymrwymiad penodol gan y Llywodraeth i strategaeth chwarae.

Addysg, Hamdden a Gweithgareddau Diwylliannol

144. Fodd bynnag, ac eithrio yng Nghymru, ar hyn o bryd mae polisi'r llywodraeth ar chwarae yn dal yn ddarniog ac yn flaenoriaeth isel. Dylid sicrhau dull mwy strategol o ymdrin â'r ddarpariaeth, dan arweiniad polisiâu cenedlaethol cydlynus gan y llywodraeth ganolog sy'n cynnig canllawiau, safonau a chyfeiriad.

145. Cyfyngir ar allu plant i gael mynediad llawn i gyfleoedd chwarae gan nifer o ffactorau, yr amlinellir rhai ohonynt isod.

Flodi

146. Yn ôl arolwg o flodi ac eithrio cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon, nid yw un o bob pum plentyn yn medru defnyddio mannau chwarae diogel gerllaw, ac mae'r nifer hwnnw'n codi i fwy nag un o bob tri sy'n wynebu flodi plant difrifol. O'r plant sy'n byw mewn flodi difrifol, ni all un o bob saith gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd hamdden neu hobi oherwydd na all eu rhieni eu fforddio.¹¹⁸

Agweddau tuag at grwpiau o blant

147. Mae plant a phobl ifanc wedi dweud wrth y Comisiynwyr bod absenoldeb cyfleusterau chwarae a hamdden priodol, digonol a fforddiadwy yn cael effaith negyddol ar eu bywydau. Gall hynny olygu eu bod yn ymgynnull mewn mannau cyhoeddus, ond yn aml gwelir hynny fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gall greu tyndra rhwng y bobl ifanc ac eraill. Mewn un arolwg yn Lloegr, dywedodd dau draean o'r plant eu bod yn hoffi chwarae y tu allan bob dydd, yn bennaf i gwrdd â ffriidiau. Fodd bynnag, mae 80% wedi derbyn cerydd am chwarae y tu allan, mae 50% yn dweud bod rhywun wedi gweiddi arnynt am chwarae y tu allan, ac roedd oedolion wedi bygwth defnyddio trais yn erbyn 25% o'r plant 11-16 oed.¹¹⁹

Hygrychedd gweithgareddau chwarae a hamdden

148. Dylid sicrhau mwy o bwyslais ar ddarparu cyfleoedd cymdeithasol cynhwysol a fforddiadwy ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, yn enwedig y rhai sydd ag anableddau a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig. I lawer o blant a phobl ifanc anabl, nid yw darpariaeth chwarae gwbl gynhwysol wedi cael ei gwreiddio eto. Mewn rhai achosion, mae plant anabl yn derbyn darpariaeth ar wahân, nad ydynt yn ei dewis o'i gwirfodd, ac sy'n golygu eu bod yn cael eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith negyddol ar eu datblygiad cymdeithasol.

149. O ystyried effaith andwyol y gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon ar fywydau plant yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, dylid gwneud ymdrech fwy ar y cyd i ymateb i broblemau isadeiledd chwarae gwael a gwahaniadau yn y gymuned ym meysydd chwarae, ieuenticid, chwaraeon, a gweithgareddau adloniadol a chelfyddydol.

Polisiâu cynllunio

150. Mae defnydd ac argaeledd mannau agored a chyfleusterau chwaraeon a hamdden yn ganolog i allu plant i gymryd rhan mewn cyfleoedd chwarae a hamdden. Yn yr Alban, mae rhai rhaglenni datblygu ysgolion wedi lleihau argaeledd mannau agored a chyfleusterau awyr agored, sydd yn ei dro wedi effeithio ar iechyd a lles corfforol plant. Mae angen eglur i fonitro'r newidiadau yn y ddarpariaeth o fannau gwyrdd/agored yn flynyddol. Heb fonitro o'r

fath, byddai'n amhosib pennu effaith datblygiadau felly ar y mannau hyn, ac, o ganlyniad, eu heffaith ar fywydau plant a phobl ifanc.

151. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn chwarae mewn mannau nad ydynt wedi'u dynodi'n swyddogol at y diben hwnnw. Mae felly'n hanfodol mapio ble mae plant yn chwarae a rhoi sylw i hynny wrth wneud penderfyniadau cynllunio a datblygu. Os na wneir hynny, gellir nodi nad oes angen tir ar gyfer oedolion pan ydyw, mewn gwirionedd, yn bwysig i blant a phobl ifanc. Bu gostyngiad cyson yn y mannau chwarae, gan gynnwys meysydd chwarae, mannau agored ac ardaloedd chwarae yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Amcangyfrifwyd bod plant heddiw yn mwynhau ar gyfartaledd un nawfed ran o'r lle oedd gan genedlaethau'r gorffennol i grwydro'n rhydd ynddo.¹²⁰ Datblygiad diweddar sy'n peri pryder yn Lloegr yw adeiladu ysgolion newydd heb le i chwarae. Mae hyn yn adlewyrchu nid yn unig y flaenoriaeth isel a roddir i chwarae, ond hefyd ddiffyg cydnabyddiaeth o bwysigrwydd chwarae i ddysgu, datblygiad, iechyd a lles plant.

Argymhellion

- **A87** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gymryd camau pellach i ymateb i'r rhwystrau i hawl plant i chwarae.
- **A88** Rhaid i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymateb ar frys i'r anoddefgarwch cyffredinol tuag at blant mewn mannau cyhoeddus.
- **A89** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau darpariaeth chwarae gwbl gynhwysol ar gyfer plant ag anableddau.
- **A90** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymateb i'r gostyngiad mewn mannau chwarae i blant a sicrhau bod barn plant yn derbyn sylw wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Dylai fod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddigonol am ddim ar gyfer chwarae plant hyd at 18 oed.

108. Royal National Institute for the Blind. Where's my book? (2006).

109. Pwyllgor Dethol Addysg a Sgiliau Ty'r Cyffredin. Anghenion Addysgol Arbennig, Trydydd Adroddiad, Sesiwn 2006-06, Cyfrol 1 (2006).

110. Yr Adran Addysg a Sgiliau. Ethnicity and education: the evidence on minority ethnic pupils (2005).

111. Llywodraeth yr Alban. Gwaharddiadau o ysgolion 2006/07 (2008).

112. Y Comisiwn Archwilio. Special educational needs: a mainstream issue (2002). Mae'r ffigur yn berthnasol i Loegr.

113. Ymddiriedolaeth Sutton. Blair's education: an international perspective (2007).

114. Cyfadran Addysg Prifysgol Caergrawnt. Community Soundings: The Primary Review regional witness sessions (2007).

115. Yr Adran Addysg a Sgiliau. Education of young people supervised by the youth justice system (2007).

116. Yr Adran Addysg a Sgiliau. Outcome indicators for looked after children (2007).

117. Yr Adran Addysg a Sgiliau. Care matters: transforming the lives of children and young people in care (2006); Gweithrediaeth yr Alban. Looked after children and young people: we can and must do better (2007).

118. Monteith a McLaughlin. The bottom line: severe poverty among children in Northern Ireland (2005).

119. Cyngor Chwarae Plant a Chymdeithas y Plant. National Playday Survey (2003).

120. Hillman, M., Adams, J. a Whitelegg, J. One false move: a study of children's independent mobility (1990).

Mesurau Diogelu Arbennig

Erthygl 22 (plant sy'n ffoaduriaid)

Plant sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid

152. Mater i Lywodraeth y DU yw cenedligrwydd a mewnfudo, gan gynnwys lloches, a gall hyn greu tensiwn rhwng deddfwriaeth, polisi ac arfer ar lefelau datganoledig a heb eu datganoli. Ar draws y DU, mae plant sy'n ceisio lloches yn profi diffyg difrifol yn eu hawliau. Nid yw'r Comisiynwyr yn cytuno bod y cyfyngiad ar Erthygl 22 o CCUHP yn angenrheidiol i reoli mewnfudo'n effeithiol, ac felly maent yn croesawu bwriad y Llywodraeth i'w hadolygu. Nid yw lles pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth mewn penderfyniadau mewnfudo. Mae rheoli mewnfudo yn fwy o flaenoriaeth na rhwymedigaethau hawliau dynol i blant sy'n ceisio lloches a'u teuluoedd.

Plant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain

Newidiadau diweddar i'r broses loches

153. Cyflwynwyd model newydd wedi'i seilio ar 'berchnogion achosion' ar gyfer prosesu hawliadau lloches ym mis Ebrill 2007.¹²¹ Er ein bod yn croesawu'r broses gyflymach o wneud penderfyniadau, rydym yn pryderu nad oes digon o fesurau diogelu ar gyfer plant yn y system. Ers mis Rhagfyr 2007, bu'n ofynnol yn ôl y rheolau mewnfudo bod yr holl blant sy'n hawlio lloches iddynt eu hunain yn cael cyfweiliad. Mae angen cynrychiolaeth o safon uchel a chyfweiliadau sensitif ar blant, ac ni ddylid eu cosbi am fod yn hwyr yn datgelu digwyddiadau y maent wedi cael trafferth siarad amdanynt.

154. Ym mis Ionawr 2008, cyhoeddodd y Llywodraeth gynigion i ddiwygio gofal a chefnogaeth plant oedd ar eu pennau eu hunain.¹²² Er ein bod yn croesawu sefydlu awdurdodau "arbenigol" i ofalu am blant a wahanwyd, rydym yn pryderu bod y bwllch hawliau rhwng plant sy'n ddinasyddion o'r DU a phlant sy'n ceisio lloches wedi cael ei ehangu'n sylweddol gan y cynigion hynny. Mae'r Llywodraeth yn ceisio cyfyngu ar hawl plant a wahanwyd nad yw eu hawliadau'n llwyddiannus ar y cychwyn i weithio, derbyn nawdd cymdeithasol, cael cefnogaeth wrth adael gofal a chael mynediad i addysg. Mae ymgyrch amlwg i gael gwared o blant y mae eu hawliadau lloches wedi methu neu sydd newydd ddod i oed cyn gynted â phosib, heb system i ganfod a fyddai hyn er eu lles pennaf nac i olrhain eu hynt a'u lles ar ôl iddynt gael eu symud.

155. Ar ben hyn, rydym yn pryderu am y cynigion canlynol:

- plant ar eu pen eu hunain sy'n cyrraedd 16 oed yn cael eu symud o leoliadau maeth er gwaethaf bwriad y Llywodraeth i wahardd cymryd y cam hwnnw yn achos plant mewn gofal sy'n ddinasyddion;
- cyfyngu ar neu ddileu'r hawl dewisol i aros¹²³ ar gyfer y rheiny y mae eu hawliadau lloches yn methu. Gall hyn adael plant heb statws cyfreithiol cyn iddynt gael eu symud, a bydd yn eu hatal rhag derbyn gwasanaeth gadael gofal, cychwyn cyflogaeth na derbyn budd-daliadau unwaith eu bod yn 18 oed; ac
- nid oes asiantaeth amlwg sy'n gyfrifol am ofal pobl ifanc heb hawl pellach i aros na chwaith, hyd yma, ganllawiau ar sut y dylid eu cefnogi. Gallai hyn arwain at niferoedd mawr o bobl o dan oed sydd ar eu pennau eu hunain yn diflannu o'r system ofal cyn eu bod yn 18, gan olygu eu bod mewn perygl o gael eu hecsbloetio.

Dadleuon ynghylch oedran

156. Ers 2004, bu dadlau ynghylch oedran 40-45% o'r plant sy'n honni eu bod yn ceisio lloches ar eu pennau eu hunain (rhwng 2,000 a 2,500 o unigolion y flwyddyn).¹²⁴ Mae mwyafrif yr achosion lle mae dadlau ynghylch oedran yn parhau heb eu datrys flwyddyn yn ddiweddarach, ac mae'r unigolion dan sylw yn parhau i gael eu trin fel oedolion. Ymddengys nad yw'r polisi o gymhwyso "mantais amheuaeth" i achosion "ffiniol" ar waith, a bod trothwy anffurfiol uwch yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion mewnfudo. Rydym yn gwrthwynebu'n gryf gynigion y Llywodraeth i gyflwyno gweithdrefnau pelydr-x deintyddol i ganfod oedran ceiswyr lloches ar y sail eu bod yn anfoesegol, yn anghyfreithlon, ac na allant ragfynegi oedran cronolegol yn well na dulliau nad ydynt yn fewnwithiol.

Gwarcheidwaid ar gyfer plant o dan oed sydd ar eu pennau eu hunain

157. Rydym yn anghytuno â honiad Llywodraeth y DU nad oes angen "cynllun gwarcheidwaid" ffurfiol a bod y trefniadau presennol yn ddigonol. Nid yw llawer o blant sy'n ceisio lloches yn derbyn eu gweithiwr cymdeithasol eu hunain, ac er bod y Panel o Ymgynghorwyr Plant yn darparu gwasanaeth ardderchog yn Lloegr, nid oes ganddo rôl statudol, ac ni all ddiwallu'r galw am ei wasanaethau. Dylid penodi gwarcheidwad cyfreithiol cyn gynted ag y deuir yn ymwybodol o blentyn sy'n ceisio lloches, a chadw at y trefniant hwnnw nes bod y plentyn yn 18 oed neu'n gadael y DU yn barhaol. Er gwaethaf y ffaith bod polisi lloches yn fater a neilltuwyd ar gyfer Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth yr Alban wedi dechrau datblygu model newydd ar gyfer delio â phlant o dan oed sydd ar eu pennau eu hunain, ac mae hynny i'w groesawu.

Gofal a chefnogaeth ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain

158. Yng Nghymru a Lloegr, mae gofal a chefnogaeth anghyson ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain. Er gwaethaf canllawiau'r Llywodraeth yn argymhell bod plant a wahanwyd sy'n ceisio lloches yn cael eu lletya o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989, mae llawer o awdurdodau lleol naill ai'n darparu cefnogaeth lai cynhwysfawr o dan adran 17 o'r un Ddeddf neu'n symud y plant hyn o ofal yn 16 oed yn hytrach na gofalu amdanynt nes eu bod yn 18.¹²⁵ Mae arferion o'r fath yn wahaniaethol, ac mae'r plant hyn yn cael eu tynnu allan o'r system ofal heb roi ystyriaeth ddyledus i'r gyfraith nac i'w lles. Mae awdurdodau lleol yn nodi diffyg adnoddau a materion mewnfudo heb eu datrys fel rhwystrau i ddiwallu anghenion y plant hyn.¹²⁶ Mae'r grantiau a ddarperir gan y Llywodraeth ganolog yn annigonol i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu gofal priodol ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain.

Materion sy'n effeithio'n bennaf ar blant sydd gydag oedolion sy'n rhan o'r teulu

Cefnogaeth

159. Mae oedolion sy'n ceisio lloches yn derbyn 70% o lefel y budd-daliadau nawdd cymdeithasol sydd ar gael i ddinasyddion y DU. Bydd hyn yn anochel yn cael effaith andwyol ar unrhyw blant sy'n rhan o'r sefyllfa, yn enwedig lle na chaiff yr hawliad ei ddatrys am flynyddoedd, ac ni chaiff y rhieni weithio. Bydd ceiswyr lloches

Mesurau Diogelu Arbennig

sy'n rhoi genedigaeth i blentyn cyntaf ar ôl i'w cais gael ei wrthod yn derfynol yn cael eu rhoi ar gefnogaeth adran 4 ("achosion anodd"). Ystyr hynny yw llety a thalebau ar gyfer bwyd a deunydd ymolchi sy'n werth 50% o lefel cymhorthdal incwm sylfaenol. Nid yw hyn yn darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion byw sylfaenol. Mae rheolau a gyflwynwyd yn ddiweddar bellach yn caniatáu ar gyfer darparu costau teithio hanfodol. Yng Nghymru, nid oes cefnogaeth adran 4 ar gael, ac mae'n rhaid i deuluoedd symud i Loegr.

Achosion etifeddiaeth

160. Dylai adolygiad yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo o achosion etifeddiaeth¹²⁷ gael ei gwblhau cyn gynted â phosib i ddod â'r ansicrwydd a'r straen i ben ar gyfer teuluoedd sydd heb dderbyn penderfyniad ar eu hawliad lloches. Rhaid ystyried hawliau'r plentyn yn ystod yr adolygiad hwn a rhoi sylw i'r cyfnod o amser y mae teulu wedi'i dreulio yn y DU. Mae rhyw 400,000-450,000 o achosion etifeddiaeth yn y DU. Yn yr Alban, mae cyfran uchel iawn o deuluoedd â phlant yn y gymuned sy'n ceisio lloches. Mae cyflymu'r gwaith o adolygu achosion etifeddiaeth sy'n cynnwys plant, cam sydd i'w groesawu, wedi arwain at gymeradwyo nifer sylweddol o'r 1,450 o achosion. Er nad oes ffigurau manwl ar gael, deellir bod y gyfradd gymeradwyo ar gyfer y grŵp hwn tua 90%.

Mynediad i addysg bellach ac uwch

161. Rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth yr Alban i gefnogi mynediad i addysg uwch ar gyfer plant sy'n ceisio lloches a fu'n mynychu ysgolion yn yr Alban am dair blynedd. Rydym yn cwestiynu pam na ellir rhoi hyn ar waith ar draws y DU lle mae gan blant sy'n ceisio lloches (mewn teuluoedd neu ar eu pennau eu hunain) yn cael mynediad cyfyngedig iawn i addysg bellach ac uwch.

Cadw yn y ddalfa

162. Mae niferoedd sylweddol o blant a'u teuluoedd yn cael eu cadw yn y ddalfa. Yn 2005, cadwyd 1,860 o blant mewn teuluoedd yn y ddalfa gan ddefnyddio pwerau mewnfudo.¹²⁸ Rydym yn bryderus iawn ynghylch hyd y cyfnod y mae plant yn ei dreulio yn y ddalfa ar unwaith neu dros sawl cyfnod cronol. Yn groes i safonau hawliau dynol rhyngwladol, yn aml nid yw cadw plant yn y ddalfa yn cael ei ddefnyddio pan fo popeth arall wedi methu nac am y cyfnod byrraf posib, ac nid yw'n digwydd mewn achosion eithriadol yn unig. Nid oes goruchwyliaeth farnwrol ar benderfyniadau i gadw plant yn y ddalfa ac nid yw eu lles yn cael ei ystyried yn ddigonol wrth wneud penderfyniadau i'w rhoi neu eu cadw yn y ddalfa. Testun pryder penodol yw amlygrwydd y problemau iechyd meddwl a welir ymhlith plant sydd yn y ddalfa, a'u hanallu i gyrchu gwasanaethau iechyd meddwl a iechyd ehangach pan fyddant yn y sefyllfa honno.

163. Mae canran sylweddol o'r plant a gedwir yn y ddalfa yn cael eu rhyddhau ar fechniaeth yn ddiweddarach neu'n cael eu derbyn dros dro, gan godi cwestiwn ynghylch ansawdd y penderfyniad cychwynnol i'w cadw yn y ddalfa neu allu'r Llywodraeth i'w symud o'r wlad.¹²⁹ Yn yr Alban, ni ellir cadw plentyn sy'n ceisio lloches yn y ddalfa am fwy na 72 awr. O ganlyniad, caiff plant eu trosglwyddo a'u cadw mewn manau eraill yn y DU. Mae hyn yn eu gwahanu oddi wrth gyngor cyfreithiol a rhwydweithiau cefnogaeth. Mae

gennym bryderon difrifol ynghylch amodau'r trosglwyddiadau hyn a'u hyd.

164. Er mai polisi'r Llywodraeth yw peidio â chadw plant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain yn y ddalfa ond o dan amgylchiadau eithriadol, mae pryder yn parhau bod ymgeiswyr y mae dadlau ynghylch eu hoedran yn parhau i gael eu cadw yn y ddalfa a'u symud heb dderbyn asesiad oedran annibynnol.¹³⁰

Achosion o symud

165. Mae'r Comisiynwyr yn pryderu ynghylch achosion o symud plant, gan gynnwys defnydd anghymesur o rym gan swyddogion gorfodi mewnfudo ac effaith symudiadau o'r fath ar les meddyliol a chorfforol plant. Mae Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban wedi datgan eu gwrthwynebiad i symud pobl trwy eu "cipio gyda'r wawr". Ni chynhelir asesiadau risg digonol, ac nid yw'r penderfyniadau'n cael eu seilio ar les pennaf y plentyn, ond yn hytrach ar effeithiolrwydd y weithred o symud. Rydym hefyd yn pryderu ynghylch sicrhau bod y symud yn digwydd ar adeg briodol o safbwynt egwyl yn addysg y plentyn, y dylid asesu iechyd corfforol a meddyliol y plentyn a'i addasrwydd i deithio, bod pryderon y plant eu hunain yn cael eu clywed, ac nad oes materion amddiffyn plant neu feddygol sydd heb eu datrys.

Gofal iechyd

166. Mae rheoliadau diweddar yn Lloegr yn estyn y taliadau am ofal iechyd eilaidd y GIG (hynny yw, gofal mewn ysbyty, darpariaeth iechyd meddwl) i geiswyr lloches a wrthodwyd.¹³¹ Mae'r rhain wedi cael effaith arbennig o andwyol ar fenywod beichiog, y mae mynediad i ofal mamolaeth wedi cael ei wrthod i rai ohonynt oni bai eu bod yn talu amdano ymlaen llaw.¹³²

Materion ychwanegol sy'n destun pryder

167. Mae'r materion eraill sy'n destun pryder yn cynnwys:

- plant yn dod i'r DU trwy ddefnyddio dogfennau ffug yn cael eu herlyn am dwyll;
- peidio â darparu gwybodaeth i blant am eu hawliau a'r hyn y gallant ei gael yn y DU;
- diffyg mynediad i gyngor cyfreithiol o safon a chynrychiolaeth. Ceir bygythiad pellach i hyn yng Nghymru a Lloegr wrth ddisgwyl am y newidiadau i'r system cymorth cyfreithiol;¹³³
- yng Nghymru a Lloegr, eithrio gwasanaethau mewnfudo o'r ddyletswydd i ddiogelu plant o dan adran 11 o Ddeddf Plant 2004. Mae hyn yn arwydd o'r methiant ehangach i drin plant sy'n ceisio lloches fel plant yn gyntaf ac yn bennaf; ac
- er nad yw'r Llywodraeth yn estyn cwmpas adran 9 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Triniaeth Hawlwyr ac ati) 2004, a fyddai'n dileu pob cefnogaeth, gan gynnwys llety, ar gyfer teuluoedd sydd wedi methu â hawlio lloches, rydym yn pryderu bod y posibilrwydd o'i defnyddio'n parhau ac y gellid ei chymhwyso mewn achosion unigol.

Mesurau Diogelu Arbennig

Yr Alban

168. Mae Llywodraeth y DU yn aml yn methu ag ystyried y gwahaniaethau yng nghyfraith yr Alban. Er enghraifft, nid yw'r Swyddfa Gartref yn rhoi sylw i'r terfynau amser gwahanol ar gyfer cyflwyno apeliadau i'r Llys Sesiynol wrth asesu llinellau amser apeliadau. Ar ben hynny, gellir defnyddio cyfraith fewnfudo i wyrdroi penderfyniadau a wneir gan y system gwrandawriadau plant.

169. Rydym yn croesawu'r arbrawf gyda 'gweithwyr proffesiynol arweiniol' yn yr Alban, a fydd yn cefnogi lles plant ar ddiwedd y broses loches. Fodd bynnag, rydym yn pryderu mai rôl gyfyngedig o gasglu gwybodaeth fydd i'r swyddi hyn, ac na fyddant mewn sefyllfa i ddylanwadu ar benderfyniadau.

Gogledd Iwerddon

170. Mae'r Comisiynydd yng Ngogledd Iwerddon yn pryderu nad yw plant a phobl ifanc yn cael lleisio barn yn y broses loches. Wedi i deulu sy'n ceisio lloches fod yng Ngogledd Iwerddon am saith mlynedd, gellir ystyried buddiannau'r plentyn, ond mae hynny'n ddewisol. Ni all y Comisiynydd ymyrryd, gan nad yw ei chylch gorchwyl statudol yn cynnwys plant sy'n ceisio lloches.

Argymhellion

- **A91** Dylai Llywodraeth y DU ddileu'r cyfyngiad ar Erthygl 22 o CCUHP.
- **A92** Dylid defnyddio cadw yn y ddalfa dim ond pan fo popeth arall wedi methu. Rhaid i Lywodraeth y DU edrych ar ddulliau eraill amgen yn lle cadw yn y ddalfa, gan gynnwys dulliau eraill o oruchwyllo.
- **A93** Dylai Llywodraeth y DU gynnal adolygiad trwyadl o'r trefniadau presennol ar gyfer pennu oedran, gyda'r bwriad o sicrhau bod plant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain yn cael eu trin felly ac yn derbyn eu hawliau fel plant.
- **A94** Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod plant y mae eu hawliadau'n methu yn cael eu symud dim ond os yw hynny er eu lles pennaf, yn unol â chanfyddiad gwarcheidwad cyfreithiol a benodwyd gan y DU.
- **A95** Dylai Llywodraeth y DU gynnal adolygiad annibynnol o elfen blant y broses loches newydd, ac ni ddylid newid y polisi caniatâd ymhellach nes bod yr adolygiad hwn wedi'i gynnal.
- **A96** Yng Nghymru a Lloegr, dylai pob awdurdod lleol ddarparu cefnogaeth i blant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain o dan adran 20 o'r Ddeddf Plant nes eu bod yn 18 oed.
- **A97** Dylai Llywodraeth y DU gyflwyno arweiniad statudol yn nodi y dylai'r holl blant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain aros yn y system ofal ffurfiol nes eu bod yn 18 oed.
- **A98** Dylai Llywodraeth y DU ddarparu lefelau digonol o gyllid i alluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol i blant sy'n ceisio lloches.
- **A99** Dylai Llywodraeth y DU ddatblygu dull mwy hyblyg er mwyn caniatáu i bobl ifanc sydd ar eu pennau eu hunain gwblhau cyrsiau addysg a hyfforddiant, osgoi triniaeth wahaniaethol, a rhoi cyfle iddynt wireddu eu potensial.

- **A100** Dylai Llywodraeth y DU ddiddymu adran 9 o Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Triniaeth Hawlwyr ac ati) 2004.

Erthygl 40 (gweinyddu cyfiawnder plant) ac Erthygl 37(b-d) (plant a amddifadir o'u rhyddid)

Cyfiawnder plant

171. Nid yw'r systemau cyfiawnder ieuencid ar draws y DU bob amser yn cydymffurfio ag egwyddorion CCUHP. Elfen amlycaf y system yng Nghymru a Lloegr yw dull cosbol, nad yw'n gwahaniaethu'n ddigonol rhwng troseddwy'r mewn oed a phlant sy'n torri'r gyfraith. Mae gormod o blant yn cael eu troseddoli a'u cynnwys yn y system cyfiawnder ieuencid yn fwyfwy ifanc. Rhwng 2002 a 2006, gwelwyd gostyngiad yn nifer y troseddau gan blant, ac eto, yn ystod yr un cyfnod, amcangyfrifir bod cynnydd o 26% yn nifer y plant a droseddolwyd ac a erlyniwyd.¹³⁴ Rydym hefyd yn pryderu ynghylch cynrychiolaeth ormodol plant du yn y system cyfiawnder troseddol a thystiolaeth o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol gan yr heddlu a'r system cyfiawnder ieuencid.¹³⁵

172. Yng Ngogledd Iwerddon, prif nod y system cyfiawnder ieuencid yw atal troseddu, ond mae hefyd yn galw am ystyried lles y plentyn, ac yn annog cyfiawnder adferol. Bu strategaethau dargyfeiriol a dewisiadau heblaw cyfnod yn y ddalfa yn llwyddiannus yng Ngogledd Iwerddon, o'u cymharu â Chymru a Lloegr.

173. Yn yr Alban, mae mwyafrif y troseddwy'r o dan 16 oed yn mynd drwy'r system gwrandawriadau plant, sydd wedi'i seilio ar les. Mae cyfiawnder ieuencid yn llai cosbol ac mae carcharu'n llawer llai cyffredin. Fodd bynnag, mae pryder bod dull unigryw'r Alban yn cael ei erydu, er enghraifft, drwy gyflwyno Gorchymnion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a newidiadau a awgrymir i'r system gwrandawriadau plant. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth yr Alban yn gwrthsefyll mewnfurio mentrau sy'n bygwth lles pennaf y plentyn ac yn symud y ffocws oddi ar anghenion a lles y plentyn.

Lles pennaf

174. Nid yw egwyddor prif ystyriaeth lles pennaf y plentyn yn cael ei chymhwyso i blant sy'n rhan o'r system cyfiawnder plant, yn enwedig yn achos y plant hynny yn Lloegr a Chymru. Caiff plant sydd mewn trafferth gyda'r gyfraith eu hystyried fel troseddwy'r gyntaf a phlant yn ail. Gwelir enghraifft amlwg o hyn yn adroddiad yr Adolygiad Achosion Difrifol ar blentyn 14 oed a fu farw yn y carchar, lle canfuwyd bod y 'system [cyfiawnder troseddol] gyfan' yn trin AR fel plentyn yr oedd angen ei garcharu, yn hytrach na phlentyn yr oedd angen gofal arno".¹³⁶

Oedran cyfrifoldeb troseddol

175. Mae oedrannau cyfrifoldeb troseddol yn y DU (wyth yn yr Alban, deg yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon) yn parhau ymhlith yr isaf yn Ewrop. Serch hynny, mae'r llywodraethau perthnasol wedi gwrthsefyll pwysau i'w codi. Fodd bynnag, mae datblygiadau diweddar wedi dod â phlant iau fyth i

Mesurau Diogelu Arbennig

gysylltiad ag asiantaethau cyfiawnder troseddol: yng Nghymru a Lloegr, er enghraifft, mae gorchmynion iawndal rhieni a chontractau ymddygiad derbyniol yn gymwys i blant o dan ddeg oed.

Delwedd negyddol o blant

176. Yn y DU, mae ofn cyffredinol o bobl ifanc, a hybwyd i ryw raddau gan y dull cyson negyddol o bortreadu pobl ifanc yn y cyfryngau. Mae saith deg un y cant o storïau'r cyfryngau am bobl ifanc yn negyddol, ac mae traean o'r erthyglau am bobl ifanc yn ymwneud â throedd. ¹³⁷ Mae pobl ifanc yn teimlo bod y cyfryngu'n eu portreadu fel carfan wrthgymdeithasol, grŵp i'w ofni, a phobl hunanol, droseddol a di-hid. Maent yn credu bod y cyfryngau'n stereoteipio mwyafrif pobl ifanc ar sail ymddygiad gwael lleiafrif. ¹³⁸ Mae portreadu plant yn ddi-baid fel "llabystiau" nid yn unig yn cadarnhau ofnau'r cyhoedd, ond hefyd yn dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth.

Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol

177. Mae deddfwriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi golygu bod mwy o blant yn cael eu tynnu i'w system cyfiawnder troseddol. Mae gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBOs) wedi cael eu defnyddio'n anghymesur gyda phlant. ¹³⁹ Ychwanegwyd amodau amhriodol, gwaharddol a chosbol y mae'n anodd i lawer o blant gadw atynt at ASBOs. Ar ben hynny, mae ASBOs yn cael eu rhoi i blant sydd wedi derbyn diagnosis o anhwylder iechyd meddwl neu anhawster dysgu ¹⁴⁰ ac maent yn cael eu cyflwyno'n anghymesur i blant o leiafrifoedd ethnig.

178. Er bod torri ASBO yn drosedd ar draws y DU, yn yr Alban ni all ei dorri arwain at ddedfryd o garchar i blentyn o dan 16 oed. Dylid mabwysiadu'r dull hwn ar draws y DU.

179. Ac eithrio yn yr Alban, gellir amharu ar hawl plant sy'n derbyn ASBO a rhai sy'n torri ASBO i breifatrwydd, gan fod modd cyhoeddi eu manylion yn y cyfryngau ac yn y gymuned leol. Mae dileu cyfyngiadau ar adroddiadau wedi golygu bod plant yn agored i sylw gelyniaethus yn y cyfryngau. Mae gennym bryderon difrifol ynghylch y niwed a'r stigmateiddio a allai ddigwydd o ganlyniad i'r 'enwi a'r cywilyddio' hwn.

180. Ni chynhaliwyd gwerthusiad priodol o effeithiolrwydd ASBOs gan y llywodraeth. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cwestiynu eu heffeithiolrwydd o ran atal ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc, a chanfu mai llythyron rhybudd anffurfiol oedd y dull mwyaf effeithiol o atal troseddau pellach. ¹⁴¹

Pwerau gwasgaru

181. Yng Nghymru a Lloegr, cyflwynodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 bwerau i wasgaru grwpiau o ddau berson neu fwy mewn parth gwasgaru penodedig os bernir bod presenoldeb y grŵp "wedi arwain, neu'n debygol o arwain at fygwth, aflonyddu ar, dychrynu neu beri trallod i'r cyhoedd". Nid oes rhaid i'r grŵp fod wedi cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gellir defnyddio'r pŵer hwn yn anghymesur yn erbyn grwpiau o blant sy'n 'loetran', a gellir cosbi plant nad ydynt yn torri'r gyfraith sydd heb unman i fynd. Mae ymchwil

wedi cwestiynu effeithiolrwydd gorchmynion gwasgaru a'u hanallu i ymdrin ag achosion gwaelodol ymddygiad gwrthgymdeithasol. ¹⁴²

Llysoedd oedolion

182. Yng Nghymru a Lloegr, mae Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn ailgyflwyno sefyllfaoedd lle gellir cyflwyno plant i Lys y Goron i'w dedfrydu (yn ogystal ag i sefyll eu prawf). Gall achosion plant sy'n sefyll eu prawf am droseddau treisgar a rhywiol gael eu hanfon i'r llysoedd (oedolion) uwch yn gynharach ac am droseddau llai difrifol.

183. Yng Ngogledd Iwerddon, os cyhuddir person ifanc o drosedd, bydd fel arfer yn ymddangos gerbron llys ieuencid. Fodd bynnag, gellir cynnal y treial mewn llys oedolion os cânt eu cyhuddo ar y cyd ag oedolyn.

184. Yn yr Alban, cyfeirir mwyafrif y troseddwr o dan 16 oed at y system gwrandawriadau plant, ond gall eu hachosion fynd i lys oedolion os yw'r drosedd honedig yn ddifrifol iawn. Yr Alban yw'r unig wlad yn y DU sy'n prosesu plant a phobl ifanc 16 a 17 oed gerbron llysoedd troseddol oedolion fel mater o drefn. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â safonau rhyngwladol ac arfer da.

Carcharu ¹⁴³

185. Ni ddefnyddir carcharu fel cam terfynol, yn enwedig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r DU yn cadw mwy o blant yn y ddalfa nag unrhyw wlad arall yng ngorllewin Ewrop, ac mae niferoedd cynyddol o blant yn cyflawni dedfrydau hwy. Ar 29 Chwefror 2008, roedd 2,837 o blant yn y carchar yng Nghymru a Lloegr.

186. Mae nifer bach o leoliadau caeth yng Nghymru, ond mae diffyg darpariaeth iechyd meddwl yng Ngharchar y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nid oes lleoliad caeth yng Ngogledd Cymru, ac felly mae pobl ifanc a ddedfrydwyd i garchar yno yn gaeth yn Lloegr. Yn hwyr yn 2006, roedd 84% o'r plant o Gymru a ddedfrydwyd i garchar yn y ddalfa yn Lloegr. ¹⁴⁴ Mae pryderon ynghylch effaith hyn ar allu eu teuluoedd i gadw mewn cyswllt rheolaidd ac i ba raddau mae'r plant hyn yn medru derbyn eu hawliau o ran diwylliant ac addysg.

187. Mae nifer cymharol fach o bobl ifanc o dan 16 oed mewn carchardai yn yr Alban. Yn 2006-2007, cadwyd 22 o blant o dan 16 yn y carchar yn yr Alban (dim ond un oedd yn ferch). ¹⁴⁵ Serch hynny, mae'r carchar yn lleoliad amhriodol ar gyfer y plant hyn, ac er bod rhai o dan 16 yn cael eu cadw mewn llety ar wahân, mae pryder ynghylch eu diogelwch. Mewn carcharau i oedolion, cedwir rhai yn yr ysbytai ac eraill yn yr "uned agored i niwed" gydag oedolion y mae angen eu hamddiffyn (a allai gynnwys troseddwr rhyw). Rydym felly'n croesawu cyhoeddiad diweddar Llywodraeth yr Alban ynghylch ei fwriad i roi'r gorau i gadw rhai o dan 16 oed sydd ar remand yn y ddalfa mewn carcharau i oedolion.

Mesurau Diogelu Arbennig

Amodau a thriniaeth yn y carchar yng Nghymru a Lloegr

188. Mae tri deg o blant wedi marw yn y carchar ers 1990, ac eto ni fu ymchwiliad cyhoeddus erioed. Rydym yn pryderu ynghylch amodau a thriniaeth plant yn y carchar, gan gynnwys y canlynol:¹⁴⁶

- plant yn cael eu cadw ymhell oddi cartref ac effaith hynny ar ymweliadau teuluol (mewn un sefydliad, roedd mwy na 73% o'r plant dros 100 milltir o'u cartrefi);
- amser cyfyngedig allan o'r celloedd a mynediad i ymarfer corff yn yr awyr agored (ffactor sy'n cyfrannu at wrthdaro);
- diffyg addysg alwedigaethol a hyfforddiant ystyrion;
- ymateb annigonol i anghenion iechyd; a
- goroddefnydd o reolaeth ac ataliaeth gorfforol, noeth chwilio ac arwahanu.¹⁴⁷

189. Mae amddiffyn plant yn y carchar yn dal yn bryder sylfaenol. Mae achosion niferus o broblemau iechyd meddwl, hunan-niweidio a bwlio, gyda chyfran sylweddol o'r plant yn teimlo'n anniogel.¹⁴⁸ Mae lefelau uchel o fygythiad, trais a chamdriniaeth, nid yn unig gan garcharorion eraill, ond hefyd gan y staff.¹⁴⁹ Mynediad cyfyngedig sydd gan blant yn y carchar i eiriolwr annibynnol, gyda dim ond chwarter o'r bechgyn a rhyw draean o'r merched mewn sefydliadau troseddwr ifanc wedi siarad ag eiriolwr annibynnol ers iddynt gyrraedd yno.¹⁵⁰

Gwahanu oddi wrth oedolion

190. Gall plant gael eu cadw yn y ddalfa gydag oedolion yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban. Dylai'r Llywodraeth ymateb i'r sefyllfa hon a dileu ei gwrthwynebiad i Erthygl 37(c).

Gogledd Iwerddon

191. Er gwaethaf yr awydd i sicrhau adferiad yng Ngogledd Iwerddon, mae gormod o bobl ifanc yn cael eu cadw mewn gofal caeth a charchar. Yn arbennig mae gorgynrychiolaeth o blant sydd wedi profi gofal yn y canolfannau cyfiawnder plant a throseddwr ifanc. Mae hefyd ddiffyg cyfleusterau priodol ar gyfer merched ifanc sy'n garcharorion yng Ngogledd Iwerddon. Mae effaith barhaus y gwrthdaro'n achosi anawsterau penodol i bobl ifanc, yn enwedig y rheiny sy'n dod o ardaloedd difreintiedig. Yn aml mynegir hyn ar ffurf curfeydd parafilwrol, gwaharddiadau, bygythiadau a thrais rhwng cymunedau, sy'n cael effaith fawr ar blant a phobl ifanc. Ychydig iawn o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi'r bobl ifanc hyn, yn enwedig o ran iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol a hunanladdiad, ac yn aml nid ydynt yn ystyried y driniaeth gwiad y mae llawer o'r plant a'r bobl ifanc hyn wedi'i dioddef. Ar ben hynny, mae effeithiau cyfun tloedi, mynediad gwael i gyfleoedd addysg a diffygion yn y gwasanaethau cefnogi yn arwain at anobaith, ac i rai mae hynny wedi arwain at droseddau ieuentid, hunan-niweidio a hunanladdiad. Nid oes strategaeth ganolog gan y llywodraeth i ddelio ag effaith gwrthdaro a thlodi ar gyfiawnder troseddol a throseddau ieuentid. Datblygiad diweddar sy'n destun pryder yw'r Gorchymyn drafft ar Gyfiawnder Troseddol (Gogledd Iwerddon) 2007 sydd, er gwaethaf pryderon a fynegwyd gan y Comisiynydd, yn mynd rhagddo, ac a fydd yn cyflwyno pryderon difrifol ynghylch torri hawliau plant. Mae llawer o agweddau ar y ddeddfwriaeth newydd yn peri bod Gogledd Iwerddon yn ymdebygu i weddill y DU ac yn golygu gostwng safonau o ran cymhwyso hawliau (er enghraifft, nid yw

cyflwyno ASBO interim heb orfod rhoi rhybudd yn cydymffurfio ag Erthygl 40; nid yw defnyddio plant i ddal pobl eraill yn cydymffurfio ag Erthyglau 3 a 36).

Argymhellion

- **A101** Mae angen trawsnewid y system cyfiawnder plant ar frys yn y DU, yn enwedig yng Nghymru a Lloegr, er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â CCUHP.
- **A102** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod lles a buddiannau pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth yn eu hymwneud â phlant sydd wedi mynd i drafferth gyda'r gyfraith. Dylid ystyried gwella a mabwysiadu'r system o wrandawiadau i blant sy'n seiliedig ar les ar draws y DU.
- **A103** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig godi oedran cyfrifoldeb troseddol.
- **A104** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ailystyried defnyddio ASBOs ar gyfer plant. Ni ddylai ASBOs fod yn fodd i gael gwared ar blant. Ni ddylai cyfnod yn y ddalfa fod yn bosib os bydd plentyn yn torri amodau ASBO. Dylid parchu preifatrwydd plant sy'n destun prosesau ASBO.
- **A105** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau na chaiff unrhyw blentyn sefyll prawf mewn llys oedolion na'i gadw mewn sefydliad i oedolion.
- **A106** Mae angen lleihau niferoedd y plant yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr ar frys a chynnal ymchwiliad cyhoeddus i sefyllfa plant yn y ddalfa. Rhaid i'r ymchwiliad ystyried marwolaethau plant yn y ddalfa.
- **A107** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig symud plant o'r gwasanaeth carcharau. Yn achos y nifer bach y mae angen eu cadw yn y ddalfa er eu diogelwch eu hun neu ddiogelwch y cyhoedd, dylid eu cadw yno am y cyfnod byrraf posib, mewn lleoliadau bach sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gyda'r nodau clir o ddiwallu anghenion y plentyn a'i ailsefydlu. Dylid sicrhau trothwyon statudol clir i sicrhau eu bod yn cael eu cadw yn y ddalfa dim ond pan fo popeth arall wedi methu.
- **A108** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig fuddsoddi mwy mewn dewisiadau heblaw cadw yn y ddalfa a darparu gwasanaethau priodol i ddiwallu anghenion plant yn y system cyfiawnder ieuentid sydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu anawsterau dysgu.
- **A109** Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod plant sydd yn y ddalfa yn cadw eu hawl i addysg a darparu addysg ym mhob lleoliad caeth.
- **A110** Dylai Llywodraeth y DU dynnu ei wrthwynebiad i Erthygl 37(c) yn ôl. Dylai Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig sicrhau bod plant yn cael eu cadw yn y ddalfa ar wahân i oedolion.

121. Perchnogion achosion yw gweithwyr proffesiynol sy'n delio â phob agwedd ar unrhyw gais unigol am loches.
122. Yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo. Better Outcomes, The Way Forward: Improving the care of unaccompanied asylum seeking children (2008).
123. Gellir rhoi caniatâd dewisol i aros i berson nad yw eto wedi derbyn lloches nac amddiffyniad dyngarol, ond sydd, serch hynny, â rheswm cymhellol dros aros yn y DU.
124. Y Swyddfa Gartref. Ystadegau Lloches y DU 2004 (2005); Y Swyddfa Gartref, Ystadegau Lloches y DU 2006 (2007)
125. 11 Million, Canfyddiadau'r Comisiynydd Plant a'i argymhellion ynghylch gofal am blant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain ym Mwrdeistref Hillingdon, Llundain (2008).
126. Achub y Plant. Local authority support to unaccompanied asylum seeking young people: changes since the Hillingdon judgement (2005).
127. "Achosion etifeddiaeth" (a adwaenir bellach fel datrys achosion) yw hawliadau lloches a wnaed cyn 5 Mawrth 2007 ac sydd heb eu datrys. Mae'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo wedi sefydlu Cyfarwyddiaeth Datrys Achosion i adolygu'r achosion hyn erbyn 2011.
128. Y Swyddfa Gartref. Ystadegau Lloches 2005 (2006)
129. Bail for Immigration Detainees. Immigration Detention in the UK – key facts and figures (2007).
130. Adroddiadau Chwarterol Cyfarfod Rhyngasiantaeth Oakington 2005-2008, Cyngor y Ffoaduriaid a Chyngor Sir Caergrawnt.
131. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Taliadau i Ymwelwyr Tramor) (Newidiwyd) 2004.
132. Cyngor y Ffoaduriaid. First do no harm: denying health care to people whose asylum claims have failed (2006).
133. Adolygiad yr Arglwydd Carter o Gaffael Cymorth Cyfreithiol. Legal Aid: A market-based approach to reform (2006).
134. Yr Athro Rod Morgan (Cyn-gadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid), Mai 2007, Araith yng Nghyfansoddiad Seminar Datblygiadau Newydd ym maes Cyfiawnder Troseddol.
135. Pwyllgor Materion Cartref Ty'r Cyffredin. Young Black People and the Criminal Justice System, Ail Adroddiad Sesiwn 2006-07, Cyfrol 1 (2007).
136. LSCB. Report of the Serious Case Review Panel upon the circumstances surrounding the death of AR at Hassockfield Secure Training Centre on 9th August 2004 (2007).
137. Mori/Young People Now. Young people and the media (2005).
138. YouthNet a Chyngor Ieuencid Prydain. Respect? The voice behind the hood (2006).
139. Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yw gorchmynion sifil y gellir eu rhoi i unrhyw un 10 oed a throsodd (12 yn yr Alban), sy'n nodi'r ymddygiad gwaharddedig ac sy'n cyfyngu ar ryddid yr unigolyn i symud o gwmpas a chymysgu â phobl.
140. Y Sefydliad Prydeinig ar gyfer Plant sydd wedi dioddef Anaf i'r Ymennydd (2007).
141. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. The Home Office: tackling anti-social behaviour (2006).
142. Crawford, A. a Lister, S. The use and impact of dispersal order (2007).
143. Gall plant yng Nghymru a Lloegr gael eu carcharu mewn sefydliadau i droseddwy'r ifanc sydd yng ngofal y gwasanaeth carcharau, canolfannau hyfforddi caeth sydd yng ngofal darparwyr preifat, neu gartrefi caeth i blant o eiddo awdurdodau lleol. Yng Ngogledd Iwerddon, gall plant gael eu cadw yn y ddalfa naill ai yn y Ganolfan Cyfiawnder Plant sydd yng ngofal yr Asiantaeth Cyfiawnder Ieuencid, neu'r Ganolfan Troseddwy'r Ifanc sydd yng ngofal y gwasanaeth carcharau. Yn yr Alban ar hyn o bryd, gellir cadw plant mewn sefydliad i droseddwy'r ifanc neu mewn carcharau eraill sydd yng ngofal y gwasanaeth carcharau, neu mewn llefyd caeth o eiddo'r awdurdod lleol.
144. IC Wales. Welsh young offenders held in England, 14th December 2006.
145. Gohebiaeth gan Wasanaeth Carchardai'r Alban (22/01/2008).
146. Prif Arolygydd Carchardai EM yng Nghymru a Lloegr. Adroddiad Blynyddol 2005/06 (2007).
147. Gweler paragraffau 49-52 uchod.
148. Prif Arolygydd Carchardai EM yng Nghymru a Lloegr. Adroddiad Blynyddol 2004/2005 (2006); Prif Arolygydd Carchardai EM, 2007, op.cit.
149. Arolygiaeth Carchardai EM a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Young People in Custody 2004-2006: an analysis of children's experiences of prison (2006).
150. Ibid.
192. Yn y DU heddiw, mae'r bwch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn ehangu, ochr yn ochr â gwahaniaethau cysylltiedig yn lles plant a pharch at eu hawliau. Rydym ni, y Comisiynwyr Plant, yn cymryd o ddifri ein cyfrifoldeb i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hyrwyddo a bod eu lleisiau'n cael eu clywed ymhlith y llu o hawliadau croch sy'n cystadlu am sylw. Rydym yn dal yn sefydliadau ifanc iawn, ond rydym yn credu ein bod wedi gweithio gyda'n gilydd yn effeithiol i hyrwyddo a diogelu'r hawliau hynny ac i sicrhau bod y lleisiau hynny'n cael eu clywed, a hynny yn eu hacenion a'u hieithoedd cenedlaethol a rhanbarthol lle bo hynny'n briodol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor i sicrhau bod pob plentyn yn y DU yn tyfu i fyny mewn awyrgylch hapus, cariadus a llawn dealltwriaeth, sy'n sylfaen hanfodol ar gyfer cyflawniad yr unigolyn a chymunedau heddychlon.



11 MILLION

1 London Bridge
Llundain SE1 9BG

T: 0844 800 9113
F: 020 7357 8329
E: info.request@11MILLION.org.uk
www.11MILLION.org.uk



NICCY

Millennium House
17-25 Great Victoria Street
Belfast BT2 7BA

T: 028 9031 1616
F: 028 9031 4545
E: info@niccy.org
www.niccy.org



SCCYP

85 Holyrood Road
Caeredin EH8 8AU

T: 0131 558 3733
F: 0131 556 3378
E: info@sccyp.org.uk
www.sccyp.org.uk



Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth
Llys Siarter, Phoenix Way
Llansamlet, Abertawe
SA7 9FS

Plas Penrhos, Oak Drive
Bae Colwyn, Conwy LL29 7YW

T: 01792 765600
F: 01792 765601
E: post@complantcymru.org.uk
www.complantcymru.org.uk